



Awdurdod Tan ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Authority

DATGANIAD O CYFRIFON 2022/23



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



DATGANIAD O GYFRIFON

TUDALEN

Adroddiad Naratif	3 -12
Datganiad o Gyfrifoldebau	13
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	14 – 18
Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	19
Datganiadau Ariannol Craidd	20 – 23
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd	24 – 81
Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân	82 – 84
Geirfa	85 – 89
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	90 - 122

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal cywirdeb gwefan Awdurdod; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.



Adroddiad Naratif

Cyflwyniad

Pwrpas y naratif hwn yw egluro strwythur y cyfrifon, disgrifio'n gryno gweithgarwch a strwythur Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod yn y cyd-destun economaidd presennol.

Trosolwg Sefydliadol

Crëwyd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) yn 1996 trwy Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, ac yn dilyn cyfuno Brigadau Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub effeithlon ac effeithiol i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r Awdurdod yn cwmpasu 6 ardal awdurdod unedol ac mae'n cynnwys 25 o aelodau etholedig o blith yr awdurdodau hynny, sy'n cynrychioli nifer yr etholwyr cofrestredig.

Mae'r Awdurdod yn penodi Prif Swyddog Tân gydag awdurdod dirprwyedig i arwain Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (y Gwasanaeth). Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys bron dwy ran o dair o dir Cymru, gan ymestyn dros 12,000 milltir sgwâr, sy'n dir gwledig yn bennaf. Mae i'r ardal 58 o orsafoedd tân, ac mae'r Gwasanaeth yn cyflogi tua 1,320 o staff. Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân mwyaf yn y Deyrnas Unedig, gyda Gwasanaethau Tân yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy nag ef.

Mae yna amrywiaeth eang o risgiau yn bodoli yn ardal y Gwasanaeth, gan amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog megis Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yna hefyd gymuned ffermio helaeth a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ledled yr ardal. Mae'r rhain, ynghyd â morlin helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn cyfrannu at rai o'r risgiau arbenigol sy'n bodoli yn y Gwasanaeth.

Mae ein Cynllun Strategol 2022-2027 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, "i fod yn Arweinydd y Byd mewn Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol", ac mae wedi'i gynllunio i gyflawni ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd. Mae'r Ymrwymadau a amlygir yn y Cynllun Strategol yn cael eu cyflawni drwy ddarparu Cynllun Gwella Busnes Blynyddol, sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni yn erbyn ein Hymrwymadau pum mlynedd. Mae'r Awdurdod hefyd yn cynhyrchu cynlluniau blynyddol ar gyfer rheoli risgiau a gwella gwasanaethau gyda phwyslais cynyddol ar atal ac addysg.

Mae'r Gwasanaeth yn chwarae rhan lawn wrth weithio gyda'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu; un enghraifft o hyn yw cynnal archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref. Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru â gwasanaethau brys eraill, er enghraifft Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu De Cymru, ac mae peth o'u hadnoddau wedi'u lleoli mewn nifer o'n heiddo; ac mae'r bartneriaeth â WAST i'w gweld hefyd yn y cynllun Cyd-ymatebydd, sy'n galluogi Diffoddwyr Tân ar Alwad i ymateb, yn rôl asiantiaid WAST, i rai galwadau meddygol-cysylltiedig penodol. Mae mentrau eraill yn cynnwys ein gwaith yn y gymuned gyda chadetaid tân, sef menter sy'n cael ei chynnal gan ddiffoddwyr tân nad ydynt ar ddyletswydd ac y mae iddi ganghennau ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru; y prosiect Phoenix, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda grwpiau ieuencid yn yr ardal, a gwirfoddolwyr cymunedol.



Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac rydym wedi croesawu ein dyletswyddau a'n rôl fel partner statudol ar draws ein chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym yn deall diben a nod y Ddeddf ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith; prif ddiben y ddogfen yw darparu gwybodaeth glir am sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

Mae'r datganiadau, ynghyd â'u dibenion, fel a ganlyn:

Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon

Mae hwn yn nodi priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'i Swyddogion ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn amlygu'r gost gyfrifyddu yn ystod y flwyddyn ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w gyllido trwy drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant er mwyn talu am y gwariant, yn unol â'r rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa drethiant yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid a'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Ystyrir bod Awdurdodau Tân ac Achub yn endidau "un gwasanaeth" a chyflwynir "darpariaeth y Gwasanaethau Tân" ar un llinell yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MiRS) yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr Awdurdod, sydd wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy' (h.y. y rheiny y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'chronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy' eraill. Mae'r (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod, a cheir rhagor o fanylion yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol i Falans y Gronfa Gyffredinol eu talu, ac mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud unrhyw drosglwyddiadau yn ôl disgrisiwn i'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi, neu allan ohonynt.

Mantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod fel yr oeddent ar y dyddiad a nodir ar y Fantolen. Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn a ddelir gan yr Awdurdod yn cyfateb i asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau). Adroddir ar y Cronfeydd Wrth Gefn mewn dau gategori. Y categori cyntaf o Gronfeydd Wrth Gefn yw'r Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy, h.y. y Cronfeydd Wrth Gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal y Cronfeydd Wrth Gefn ar lefel ddarbodus ac unrhyw gyfyngiadau statudol o ran y defnydd ohonynt (er enghraifft Cronfa Wrth Gefn y



Derbyniadau Cyfalaf, na ellir ei defnyddio ond i ariannu gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyledion). Mae'r ail gategori o Gronfeydd Wrth Gefn yn cynnwys Cronfeydd Wrth Gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn), lle byddai symiau ar gael i ddarparu gwasanaethau dim ond pe byddai'r asedau yn cael eu gwerthu; a Chronfeydd Wrth Gefn sy'n dal gwahaniaethau o ran amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan reoliadau' yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar gyfer yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos y modd y mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod trwy ddsbarthu llifoedd arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff gweithrediadau'r Awdurdod eu hariannu trwy drethiant ac incwm grant, neu gan y sawl sy'n cael y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae llifoedd arian parod allan wedi cael eu gweithredu ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at waith yr Awdurdod o gyflawni gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llifoedd arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol ar gyfer rhagfynegi hawliadau ar lifoedd arian parod yn y dyfodol gan y sawl sy'n darparu cyfalaf (h.y. benthyciad) i'r Awdurdod.

Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Mae hwn yn dangos sefyllfa ariannol cyfrif cronfa pensiwn y Diffoddwyr Tân, gan ddangos a oes ar yr Awdurdod arian i Lywodraeth Cymru, neu a oes ar Lywodraeth Cymru arian i'r Awdurdod, a hynny er mwyn mantoli'r cyfrif, ynghyd â manylion am ei asedau net.

Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn nodyn datgelu sy'n dwyn ynghyd berfformiad yr Awdurdod a adroddir ar sail gwariant a fesurir o dan arferion cyfrifyddu priodol, a hynny gyda chostau diffiniedig statudol i'r Gronfa Gyffredinol.

Nodiadau i'r Datganiadau Cyfrifyddu

Mae'r nodiadau'n cyflwyno gwybodaeth am sail baratoi'r datganiadau ariannol, ynghyd â'r polisiâu cyfrifyddu penodol a ddefnyddir. Maent yn datgelu gwybodaeth nas cyflwynir yn unman arall yn y datganiadau ariannol, ond sy'n berthnasol er mwyn eu deall.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r datganiad hwn yn darparu adolygiad parhaus o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a'r systemau rheoli risgiau, er mwyn rhoi sicrwydd o ran eu heffeithiolrwydd a/neu gynhyrchu cynllun gwaith ar gyfer y rheolwyr i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodir.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Gyfrifon, ond nid yw'n rhan o'r Datganiad.



Crynodeb o'r Flwyddyn Ariannol

Cymeradwywyd y Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 gan yr Awdurdod Tân ar 7 Chwefror 2022.

Y Gyllideb Refeniw a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23 oedd £53.824m. Fel y gwelir yn y tabl isod, gorwariwyd gwariant o £1.932m, gyda thua £1.3m yn ymwneud â dyfarniadau cyflog uwch i'r holl staff. Mae'r gyllideb Costau Ariannu Cyfalaf a'r alldro gwirioneddol ill dau yn cynnwys neilltuad i'r Gronfa Gyfalaf o £1.124m. Derbyniwyd incwm ychwanegol o £1.001m yn y flwyddyn yn ymwneud â phrentisiaethau, rhannu safleoedd, incwm buddsoddi ac ymarfer ailbriso ardrethi busnes, o'r incwm ychwanegol hwn roedd £245k yn gysylltiedig â blynyddoedd blaenorol.

Roedd cyfanswm y cyfraniadau a gafwyd gan Awdurdodau Unedol yn £53.824 miliwn ac roedd grant Llywodraeth Cymru o £1.844 miliwn ar gyfer pensiynau, yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd.

Cyfanswm trosglwyddiadau net o gronfeydd wrth gefn oedd £438k gan gynnwys £245k o incwm y flwyddyn flaenorol a neilltuwyd i gronfa wrth gefn Gydraddoli Ardoll i ariannu pwysau cyllidebol yn 2023/24 a neilltuad net o (£683k) o gronfeydd wrth gefn, a ddefnyddiwyd yn unol â'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Roedd y gwariant a ariannwyd gan gronfeydd wrth gefn yn cynnwys Rheolwr Risg Corfforaethol cyfnod penodol, ymarfer Gwerthuso Swyddi, astudiaeth dichonoldeb Carbon Sero Net, cyrsiau hyfforddiant gweithredol a'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP). Mae'r diffyg alldro refeniw o £484k wedi'i ariannu o gronfa wrth gefn Gydraddoli Ardoll.

Manylir ar refeniw'r flwyddyn o'i gymharu â'r gyllideb yn y tabl canlynol:

Yr alldro ar gyfer y flwyddyn 2022/23	Cyllideb £000	Gwirioneddol £000	Amrywiant £000
Refeniw			
Gwariant yn cynnwys grantiau	53,749	55,681	1,932
Taliadau Cyllido Cyfalaf	4,748	4,739	(9)
Incwm yn cynnwys grantiau	(2,829)	(3,830)	(1,001)
Cyllid LIC – cyfraniadau ychwanegol gan y cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	(1,844)	(1,844)	0
Gwariant Net yn cynnwys grantiau	53,824	54,746	922
Cyfraniadau Awdurdodau Unedol	(53,824)	(53,824)	0
Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn	0	(438)	(438)
(Gwarged) / Diffyg	0	484	484

Mae'r Awdurdod yn mynd i gostau gwariant refeniw ar eitemau, sydd fel arfer yn cael eu defnyddio o fewn y flwyddyn, ac ariennir hyn gan gyfraniadau'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol, a hynny mewn cyfrannedd â'r boblogaeth. Ar gyfer 2022/23, roedd yr Ardollau a'r cyfraneddau fel a ganlyn:



Awdurdodau Lleol Cyfansoddol	Ardoll £000	Cyfran %
Cyngor Sir Caerfyrddin	11,170	21
Cyngor Sir Ceredigion	4,193	8
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	8,513	16
Cyngor Sir Penfro	7,444	14
Cyngor Sir Powys	7,812	14
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	14,692	27
Cyfanswm	53,824	100

Ffynonellau Cyllid Refeniw

Mae refeniw yn dod i law'r Awdurdod gan y ffynonellau canlynol:

2021/22 £000		2022/23 £000
2,411	Grantiau Refeniw	2,328
6	Llog	110
1,481	Ffioedd a Thaliadau / Ad-daliadau *	1,392
3,898	Is-gyfanswm	3,830
1,832	Cyllid LIC – cyfraniadau ychwanegol gan y cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	1,844
51,779	Cyfraniadau Awdurdodau Unedol	53,824
57,509	Cyfanswm y Cyllid Refeniw	59,498

* Yn cynnwys ad-daliad ailbriso ardrethi busnes sy'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol 2021/22 £414mil a 2022/23 £245 mil.

Gwariant Cyfalaf

Cyfanswm gwariant cyfalaf y flwyddyn oedd £8.626 miliwn. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r gwariant yn ôl categori ac ariannu ar gyfer 2022/23.



	Amcangyfrif 2022/23 £000	Amcangyfrif Diwygiedig 2022/23 £000	Gwirioneddol 2022/23 £000	Amcangyfrif 2023/24 £000
Gwariant:				
Eiddo – gwaith adnewyddu, addasiadau, adeiladau newydd	3,300	5,076	798	3,040
Seilwaith	35	398	253	120
Cerbydau, Peiriannau	5,477	9,514	4,672	6,026
Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu	0	0	2,849	0
Asedau Anniriaethol	180	182	54	250
Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf	8,992	15,170	8,626	9,436
Ariennir gan:				
Cyfraniadau a Grantiau Cyfalaf	1,238	1,184	744	1,040
Derbyniadau Cyfalaf	0	0	140	0
Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	1,439	2,550	2,271	1,694
Benthyca	6,315	11,436	5,471	6,702
Cyfanswm Ariannu	8,992	15,170	8,626	9,436

Cymeradwywyd y Rhaglen Gyfalaf o £8.992 miliwn gan yr Awdurdod Tân ym mis Chwefror 2022, ac fe'i diwygiwyd wedi hynny ar gyfer llithriant, ail-lunio ac ailbroffilio prosiectau i £15.170 miliwn fel y'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ym mis Chwefror 2023. Mae'r Rhaglen Gyfalaf gymeradwy yn adlewyrchu'r flwyddyn y bydd prosiect yn cychwyn ac nid o reidrwydd y flwyddyn y bydd y gwariant yn cael ei ysgwyddo, gan y bydd hyn yn dibynnu ar hyd oes y prosiect.

Mae'r amrywiad rhwng y gyllideb ddiwygiedig a'r gwir alldro i'w briodoli, yn rhannol, i'r canlynol: prosiectau eiddo, gan gynnwys Mân Waith £0.695 miliwn ac Ailddatblygu Coed-yr-iarll £2.089 miliwn; Offer a meddalwedd TGCh £0.596 miliwn; Cerbydau £2.017 miliwn. Mae'r Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu yn cynnwys taliadau fesul cam am offer ar gyfer naw pwmp achub, fan Cydnerthedd Cenedlaethol a gwaith yng Nghoed-yr-iarll ar yr uned Hyfforddi Ymddygiad Tân Adrannol (CFBT).

Bydd y Rhaglen Gyfalaf gymeradwy ar gyfer 2023/24 yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r newidiadau canlynol: lle nad yw prosiectau yn 2022/23 wedi cael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2023, gellir trosglwyddo'r adnodd i 2023/24, ynghyd â newid rhagdybiaethau grantiau, ail-lunio ac ailbroffilio prosiectau, dileu prosiectau nad oes eu hangen mwyach, a chynnwys prosiectau newydd lle mae adnoddau ychwanegol ar gael.

Benthyca Cyfalaf

Mae'r Cod Darbodus yn galluogi'r Awdurdod i bennu ei derfynau benthyca ei hun, ar yr amod bod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ystyried bod y terfynau hynny yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Cafwyd chwech benthyciad allanol newydd, gwerth cyfanswm o £5.5 miliwn, yn ystod y flwyddyn gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC). Cyfanswm y prifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2023 yw £27.62 miliwn.



Rheoli'r Trysorlys

Cymeradwywyd Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRT) 2022/23 yr Awdurdod gan yr Awdurdod Tân ar 7 Chwefror 2022.

Mae'r DSRT yn pennu Dangosyddion Darbodus y Cyfalaf, gan gynnwys y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw, Benthycu, a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Wedi'u cynnwys yn y Datganiad hwn y mae'r Dangosyddion Darbodus a'r Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, roedd y trafodiadau benthycu o fewn terfynau cymeradwy, ac roedd pob buddsoddiad yn bodloni'r meini prawf o ran teilyngdod i gael credyd ar ddyddiad y blaendal.

Mae'r tabl isod yn manylu ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) o'i gymharu â Dyled Allanol.

	Amcangyfrif 2022/23 £000	Gwirioneddol 2022/23 £000
Gofyniad y Cyllid Cyfalaf (CFR)		
Yn agor 1 Ebrill 2022	40,989	32,569
Symudiad yn yr CFR yn cael ei gynrychioli gan:		
Angen cyllido net am y flwyddyn	6,315	8,626
Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol/Derbyniadau Cyfalaf/Grantiau a Chyfraniadau	0	(3,155)
Llai Darpariaeth Isafswm Refeniw / Darpariaeth Refeniw Gwirfoddol	(2,799)	(2,558)
Symudiad yn yr CFR	3,516	2,913
Yn cau 31 Mawrth 2023	44,505	35,482
Dyled Allanol		
Benthycu Allanol	35,186	27,620
Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	3,095	2,095
Cyfanswm y Dyled Allanol	38,281	29,715
Tanfenthycu / (Gorfenthycu)	6,224	5,767

Ymrwymiad Pensiwn

Yn 2022/23, ymddeolodd dau ddeg naw o aelodau o staff. Mae cost net Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i'r gyllideb refeniw wedi gostwng mewn blwyddyn, fel y mae'r rhwymedigaeth o ran ymrwymadau pensiwn yn y dyfodol, yn bennaf oherwydd enillion actiwaraidd yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau demograffig ac ariannol. Roedd y rhwymedigaeth a aseswyd ar sail tybiaethau actiwaraidd ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn £373.587miliwn.



Mae cost net y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r gyllideb refeniw hefyd wedi gostwng mewn blwyddyn, oherwydd enillion actiwaraidd yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau demograffig ac ariannol, ac o ganlyniad mae'r gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn adrodd ased o £3.921 miliwn ar 31 Mawrth 2023.

O dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (Buddion Cyflogeion), mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddarparu manylion yr asedau a rhwymedigaethau'r dyfodol ar gyfer pensiynau sy'n daladwy i gyflogeion, yn gyn-gyflogeion ac yn gyflogeion presennol, fel ei gilydd. Amlinellir hyn yn fanylach yn y datgeliadau i'r cyfrifon, o dan nodyn 30.

Cyfrifyddu o ran y Cyfrifon Wrth Gefn

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos y Cronfeydd Wrth Gefn sy'n cael eu dwyn ymlaen i 2023/24. Mae hyn yn gyson â thriniaeth gyfrifyddu'r blynyddoedd blaenorol, ac mae'r arfer o gynnal a defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn yn ffurfio conglfaen i sefydlogrwydd ariannol corfforaethol a'r gwaith o gynllunio gwasanaethau gweithredol yn y byrdymor a'r tymor canolig.

Costau Cyllid Cyfalaf

Roedd y tâl y codwyd amdano ar gyfrifon refeniw'r Gwasanaeth, er mwyn adlewyrchu cost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau, yn £4.296 miliwn. Mae hon yn gost dybiannol ar gyfer dibrisiant ac amorteiddiad, ac addasir y balans ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn peidio ag effeithio ar y cyfraniadau sy'n ofynnol i ariannu'r Gwasanaeth. Mae'r gost wirioneddol i'r Gwasanaeth o ran ariannu cyfalaf yn £790 mil ar gyfer llog benthyca a les cyllid, yn £2.558 miliwn ar gyfer Darpariaeth Isafswm Refeniw, ac yn £2.271 miliwn ar gyfer cyfraniad refeniw.

Effaith yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol

Adlewyrchwyd goblygiadau ariannol yr hinsawdd economaidd bresennol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddarau a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ym mis Medi 2022. Yn ymarferol, mae gan yr Awdurdod y pŵer i ofyn am yr adnoddau y mae arno eu hangen i ariannu ei wasanaethau ni waeth beth fo setliadau'r Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb i sicrhau nad yw'n gwaethygu'r heriau ariannol a wynebir gan Awdurdodau Lleol, ac felly mae'n adolygu ei gyllideb mewn modd systematig i ddod o hyd i gyfleoedd i greu arbedion a gostyngiadau yn y gyllideb, er enghraifft, trwy ad-drefnu'r gyllideb, adolygu rhagdybiaethau'r gyllideb, darpariaethau ar gyfer swyddi gwag, dull cyllidebu ym maes staffio, ac arferion rheoli'r trysorlys.

Mae Brexit a'r rhyfel yn Wcráin, yn effeithio ar gadwyni cyflenwi, ac mae oedi yn dod yn amlwg mewn rhai meysydd o'r busnes. Er enghraifft, mae yna amseroedd paratoi o hyd at ddeunaw mis ar gyfer peiriannau rheng flaen yn cael ei weld, ac mae yna adroddiadau am oedi wrth gyflenwi cyfarpar gweithredol ynghyd â chostau ynni uwch.

Mae'r argyfwng costau byw yn 2022 wedi gweld prisiau'n codi'n gyflymach nag incwm gwariadwy ac mae chwyddiant yn rhedeg ar lefelau na welwyd ers y 1980au. Cyrhaeddodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) frig o 11.1% ym mis Hydref 2022 wedi'i gwthio i fyny gan brisiau ynni a nwyddau. Er ei fod bellach yn gostwng yn araf, mae ansicrwydd o hyd ynghylch pa mor gyflym y bydd chwyddiant CPI yn dychwelyd yn gynaliadwy i darged 2% Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr. Mae economegwyr yn darogan y bydd hi'n 2025 cyn i chwyddiant ostwng i'r targed hwn. Mae Banc



Lloegr wedi codi cyfraddau llog o'u lefelau isel hanesyddol, 0.10% ym mis Mawrth 2020, i 4.5% ym mis Mai 2023, lefel na welwyd ers 2008. Yn y cyfamser, mae'r Awdurdod ynghyd â phob sefydliad arall yn y sector cyhoeddus a phreifat yn wynebu pwysau refeniw sy'n deillio o ddyfarniadau cyflog a chwyddiant prisiau, a chostau benthyca uwch sy'n effeithio ar fforddiadwyedd buddsoddiad cyfalaf. Mae gan yr Awdurdod brosesau monitro cyllidebau cadarn ar waith gan gydnabod bod pwysau ar refeniw a chyfalaf yn debygol o godi dros y blynyddoedd nesaf.

Strategaeth a Dyrannu Adnoddau

Mae ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yn dwyn ynghyd mewn un lle, yr holl ffactorau hysbys sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol a chynaliadwyedd ariannol sefydliad yn y tymor canolig. Mae'r MTFs yn cydbwysu goblygiadau ariannol amcanion a pholisïau yn unol â chyfyngiadau o ran adnoddau, ac yn darparu'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'r Cyllidebau Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf yn barod i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau'r Awdurdod:

Mae'r Cynllun Strategol 2022-2027 yn manylu ar ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn nodi sut y byddwn yn cyflawni hyn drwy ein Hymrwymadau pum-mllynedd a'n Hamcanion Gwella a Llesiant fel y nodir yn ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol.

Mae ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi gwybod i'n staff, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid pa ganlyniadau a buddion a gyflawnwyd o gymharu ag Amcanion Gwella y flwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn nodi sut yr ydym wedi cyfrannu at y nodau Llesiant a bennir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Cynllun Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd yn nodi'r prif egwyddorion, cynigion a chymau gweithredu gofynnol i leihau effeithiau gweithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth ar yr amgylchedd.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfleu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ar draws holl swyddogaethau, polisïau, arferion a gweithdrefnau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn nodi sut y bydd y Gwasanaeth yn ceisio cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae Cynlluniau'r Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Rydym wedi parhau i gynnal lefel wasanaeth sydd wedi sicrhau bod cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i fod yn llefydd diogel i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw. Mae ein statws ariannol cyffredinol wedi'i gynnal ar lefel ddarbodus, er y bu gostyngiad ar ddiwedd y flwyddyn yn lefel y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'n cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at ddibenion penodol, boed hynny i fynd i'r afael â rhwymedigaethau nawr neu yn y dyfodol e.e. cronfa wrth gefn Cyflogeion a Phensiynau, neu ar gyfer ariannu cynlluniau cyfalaf penodol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan Swyddog Adran 151 yr Awdurdod a'r Pennaeth Cyllid. Mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hefyd hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau; hysbysebiri argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.



Cydnabyddiaethau

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl staff Cyllid yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, ynghyd â'u cyd-weithwyr ledled yr Awdurdod, sydd wedi cyfrannu at y gwaith o baratoi'r datganiadau hyn. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Prif Swyddog Tân a'r Tîm Arwain am eu cymorth a'u cydweithrediad trwy gydol y broses.

Sarah Mansbridge FCCA - Swyddog Adran 151



Datganiad o Gyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol mewn modd priodol, a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid.
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, a diogelu ei asedau.
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

CYMERADWYAETH YR AWDURDOD TÂN

Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar ôl yr archwiliad.

Llofnod: R G Thomas

Cadeirydd yr Awdurdod Tân

Dyddiad: 25 Medi 2023

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod, gan gynnwys Cyfrifon y Gronfa Bensiwn, a hynny'n unol â'r arferion priodol a nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("y Cod").

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a doeth;
- cydymffurfio â Chod yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID

Rwy'n ardystio bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2023, ynghyd â'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.

Llofnod: S Mansbridge

Prif Swyddog Cyllid

Dyddiedig: 25 Medi 2023



Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol o:

- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Datganiad Cyfrif y Gronfa a'r Asedau Net a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifo sylweddol.

Mae fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23.

Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (SRA (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân



Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23;
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.



Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiad o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld bod y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru dim yn parhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn cysylltiad â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.



- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll drwy bostio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a fframwaith awdurdod Cronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu cafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth Gorllewin Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; a
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol <https://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities>. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilydd eraill

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, y cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub



Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Authority

Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad 6 Hydref 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.



Dadansoddiad o Wariant a Chyllid (DWC)

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn dangos y modd y mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (cyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol, grantiau'r llywodraeth, incwm arall, ac ati) gan yr Awdurdod o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan yr Awdurdod yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff yr incwm a gwariant y gwneir cyfrif amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n fanylach yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn nodyn i'r datganiadau ariannol, ac nid yn brif ddatganiad. Fodd bynnag, mae wedi cael ei osod gyda'r prif ddatganiadau i gynorthwyo dealltwriaeth y darllenwyr.

2021/22			2022/23		
Gwariant Net sy'n Daladwy i Falans y Gronfa Gyffredinol £000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £000	Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000	Gwariant Net sy'n Daladwy i Falans y Gronfa Gyffredinol £000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £000	Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000
46,027	9,424	55,451	50,386	6,547	56,933
(45,617)	5,109	(40,508)	(48,318)	8,644	(39,674)
410	14,533	14,943	2,068	15,191	17,259
					(Gwarged) neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau
Balans y Gronfa Gyffredinol £000	Cronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol wedi'u clustnodi £000	Cyfanswm Balans y Gronfa Gyffredinol £000	Balans y Gronfa Gyffredinol £000	Cronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol wedi'u clustnodi £000	Cyfanswm Balans y Gronfa Gyffredinol £000
(1,333)	(7,966)	(9,299)	(1,336)	(7,553)	(8,889)
410	0	410	2,068	0	2,068
(413)	413	0	(2,612)	2,612	0
					Trosgrwyddiad rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi
(1,336)	(7,553)	(8,889)	(1,880)	(4,941)	(6,821)
					Balans Terfynol



Datganiadau Ariannol Craidd

Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2021/22			2022/23			
Gwariant £000	Incwm £000	Net £000	Gwariant £000	Incwm £000	Net £000	
61,175	(5,724)	55,451	Darparu Gwasanaethau Tân	62,498	(5,565)	56,933
61,175	(5,724)	55,451	Costau'r Gwasanaethau	62,498	(5,565)	56,933
	(40)	Incwm a Gwariant Gweithredol Eraill			(97)	
	11,859	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi (Nodyn 10)			14,991	
	(52,327)	Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (Nodyn 11)			(54,568)	
	14,943	(Gwarged) neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau			17,259	
	(5,060)	(Gwarged) neu ddiffyg o ailbriso Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar (Nodyn 18a)			(5,022)	
	(32,153)	Ailfesur rhwymediaeth/(ased) y buddion ddiffiniedig net (Nodyn 18c)			(185,786)	
	(37,213)	(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall			(190,808)	
	(22,270)	Cyfanswm yr (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr			(173,549)	



Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn 2022/23	Balans y Gronfa Gyffredinol	Cronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol	Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	Cronfeydd Wrth Gefn Annefyddiadwy	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod Tân
Balans ar 31 Mawrth 2022	(1,336)	(7,553)	0	(8,889)	489,040	480,151
Symudiadau:						
(Gwarged) / Diffyg o ran darparu gwasanaethau	17,259	0	0	17,259	0	17,259
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	0	0	0	0	(190,808)	(190,808)
Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	17,259	0	0	17,259	(190,808)	(173,549)
Addasiadau cyfrifyddu a chyllido (Nodyn 8)	(15,191)	0	0	(15,191)	15,191	0
(Cynnydd) / Gostyngiad net Cyn trosglwyddo	2,068	0	0	2,068	(175,617)	(173,549)
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd Wrth Gefn (Nodyn 9)	(2,612)	2,612	0	0	0	0
(Cynnydd) / Gostyngiad yn 2022/23	(544)	2,612	0	2,068	(175,617)	(173,549)
Balans ar 31 Mawrth 2023	(1,880)	(4,941)	0	(6,821)	313,423	306,602

Datganiad o symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn 2021/22	Balans y Gronfa Gyffredinol	Cronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol	Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	Cronfeydd Wrth Gefn Annefyddiadwy	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod Tân
Balans ar 31 Mawrth 2021	(1,333)	(7,966)	0	(9,299)	511,720	502,421
Symudiadau:						
(Gwarged) / Diffyg o ran darparu gwasanaethau	14,943	0	0	14,943	0	14,943
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	0	0	0	0	(37,213)	(37,213)
Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	14,943	0	0	14,943	(37,213)	(22,270)
Addasiadau cyfrifyddu a chyllido (Nodyn 8)	(14,533)	0	0	(14,533)	14,533	0
(Cynnydd) / Gostyngiad net cyn trosglwyddo	410	0	0	410	(22,680)	(22,270)
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd Wrth Gefn (Nodyn 9)	(413)	413	0	0	0	0
(Cynnydd) / Gostyngiad yn 2021/22	(3)	413	0	410	(22,680)	(22,270)
Balans ar 31 Mawrth 2022	(1,336)	(7,553)	0	(8,889)	489,040	480,151



Mantolen

31 Mawrth 2022 £000	Mantolen	Nodyn	31 Mawrth 2023 £000
82,563	Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	12	89,257
882	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu	12	2,849
425	Asedau Anniriaethol	13	377
31	Dyledwyr Hirdymor	15	30
83,901	Asedau Hirdymor		92,513
772	Rhestri eiddo		754
4,190	Dyledwyr Byrdymor	15	4,128
2,737	Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	16	1,178
7,699	Asedau Cyfredol		6,060
(234)	Benthyciadau Byrdymor	14	(3,218)
(6,548)	Credydwyr Byrdymor	17	(5,531)
(243)	Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw	25	(135)
(473)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw	25	0
(423)	Rhwymedigaethau Byrdymor Eraill	28	(299)
(7,921)	Rhwymedigaethau Cyfredol		(9,183)
(22,120)	Benthyca tymor hir	14	(24,530)
(2,095)	Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	28	(1,796)
(539,615)	Rhwymedigaethau sy'n berthnasol i gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio	30	(369,666)
(563,830)	Rhwymedigaethau Hirdymor		(395,992)
(480,151)	Rhwymedigaethau Net		(306,602)
(8,889)	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	9	(6,821)
489,040	Cronfeydd Wrth Gefn Andefnyddiadwy	18	313,423
480,151	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn		306,602



Datganiad Llif Arian

2021/22		2022/23
£000		£000
14,943	(Gwarged) neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau	17,259
(20,668)	ddasiad i'r gwarged neu'r diffyg o ran darparu (gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod	(19,827)
668	Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu'r diffyg net o ran darparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu	884
(5,057)	Llif arian parod net (i mewn i)/allan o weithgareddau gweithredu	(1,684)
7,011	Llif arian parod net (i mewn i)/allan o weithgareddau buddsoddi	8,485
(4,013)	Llif arian parod net (i mewn i)/allan o weithgareddau ariannu	(5,242)
(2,059)	(Cynnydd) neu ostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	1,559
678	Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	2,737
2,737	Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	1,178

Darperir dadansoddiad manwl o'r Llif Arian Parod yn Nodiadau 19 i 21.



Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd

Nodyn 1 – Polisiâu Cyfrifyddu

1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodiadau yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, ynghyd â'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a hynny'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn o dan Adran 21 o Ddeddf 2003, yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23, a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR) a chanllawiau statudol a gyhoeddir o dan adran 12 o Ddeddf 2003.

Mae'r confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yn gostau hanesyddol, yn bennaf, sydd wedi'u haddasu trwy ailbricio categorïau penodol o asedau anghyffredol ac offerynnau ariannol.

2. Croniadau Incwm a Gwariant

Gwneir cyfrif o'r gweithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid dim ond pan wneir taliadau arian parod neu pan ddaw taliadau o'r fath i law. Yn benodol:

- Cydnabyddir y refeniw o werthu nwyddau pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a'r buddion perchnogaeth i'r prynwr, a'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial o ran gwasanaeth, sy'n gysylltiedig â'r trafodiad, yn llifo i'r Awdurdod.
- Cydnabyddir y refeniw o ddarparu gwasanaethau pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur, mewn modd dibynadwy, ganran y trafodiad sydd wedi'i chwblhau, a'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial o ran gwasanaeth, sy'n gysylltiedig â'r trafodiad, yn llifo i'r Awdurdod.
- Cofnodir cyflenwadau yn wariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwch rhwng y dyddiad y daw cyflenwadau i law a phan gânt eu defnyddio, fe'u cofnodir yn rhestri eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a gafwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) yn wariant, a hynny pan geir y gwasanaethau yn hytrach na phan gaiff y taliadau eu gwneud.
- Gwneir cyfrif o'r llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau fel incwm a gwariant, yn eu tro, a hynny ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol, yn hytrach na'r llifoedd arian a osodir neu a bennir gan y contract.
- Lle bo incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod, ond lle nad oes arian parod wedi dod i law neu wedi cael ei dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn y Fantolen. Lle nad yw'r ddyled wedi cael ei thalu, gwneir cofnod o falans y dyledwyr, a chodir tâl ar refeniw ar gyfer yr incwm na fydd, o bosibl, yn cael ei gasglu.

3. Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adnau gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb yn dilyn rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau hylifol iawn sy'n aeddfedu cyn pen tri mis neu lai o'r dyddiad caffael, ac sy'n hawdd eu trawsnewid yn symiau hysbys o arian parod heb unrhyw risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.



Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ôl tynnu gorddrafftiau'r banc sydd i'w had-dalu yn ôl y galw, ac maent yn ffurfio rhan annatod o broses rheoli arian parod yr Awdurdod.

4. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau o ran Polisiâu Cyfrifyddu, Amcangyfrifon a Chyfeiliornadau

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid yn y polisiâu cyfrifyddu neu i gywiro cyfeiliornad perthnasol. Gwneir cyfrif am newidiadau o ran amcangyfrifon cyfrifyddu yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd sydd i ddod yr effeithir arnynt gan y newid, ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau i'r polisiâu cyfrifyddu oni bai fod hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol, neu fod y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodiadau, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan fydd newid yn cael ei wneud, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol, fel pe bai'r polisi newydd wedi cael ei gymhwyso erioed.

Caiff cyfeiliornadau perthnasol a ganfuwyd yn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

5. Taliadau a godir ar Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol

Caiff gwasanaethau eu debydu gyda'r symiau canlynol er mwyn cofnodi cost cynnal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol
- colledion oherwydd diffygiant ac ailbriso yn achos asedau a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth, a lle nad oes unrhyw enillion cronnus yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn y gellir dileu'r costau yn eu herbyn
- amorteiddiad yn achos asedau anniriaethol a briodolir i'r Gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi ardoll i ariannu dibrisiant, ailbriso a cholledion oherwydd diffygiant, nac amorteiddiad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o'r gronfa refeniw at sicrhau lleihad yn ei ofynion benthyca cyffredinol, sy'n hafal i swm a gyfrifir ar sail ddarbodus, ac a bennir gan yr Awdurdod, yn unol â chanllawiau statudol. Felly, disodlir dibrisiant, ailbriso, colledion oherwydd diffygiant ac amorteiddiad gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol, a hynny trwy drafodiad addasu gyda Chyfrif Addasu'r Cyfalaf yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

6. Buddion Cyflogeion

Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion cyflogeion byrdymor yw'r rheiny a fydd yn cael eu talu yn eu cyfanrwydd cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys buddion tebyg i gyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, absenoldeb salwch â thâl, bonysau, a buddion nad ydynt yn ariannol (e.e. ceir) ar gyfer cyflogeion cyfredol, ac fe'u cydnabyddir yn draul ar gyfer gwasanaethau yn y flwyddyn pan fydd y cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod. Gwneir cronriad ar gyfer cost gwyliau y mae gan gyflogeion yr hawl iddynt (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd yn gyfnewid) ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn, ac y gall y cyflogeion eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar y cyfraddau cyflogau a thâl sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y



cyfnod pan fydd y cyflogai yn manteisio ar y budd. Codir tâl am y cronriad ar y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei dynnu'n ôl allan trwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn i'r Cyfrif Absenoldebau Cronnus, fel bod tâl am unrhyw wyliau sy'n ddyledus yn cael ei godi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y bydd yr absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd.

Buddion Terfynu

Buddion terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol, neu benderfyniad gan swyddog i ymddiswyddo yn wirfoddol yn gyfnewid am y buddion hynny. Codir tâl amdanynt ar sail cronriadau i'r segment gwasanaeth priodol, neu, lle bo hynny'n berthnasol, i segment gwasanaeth corfforaethol, a hynny naill ai pan na fydd yr Awdurdod yn gallu tynnu'r cynnig o'r buddion yn ôl mwyach, neu pan fydd yr Awdurdod yn cydnabod costau ar gyfer ailstrwythuro, pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf. Pan fydd buddion terfynu yn cynnwys gwella pensiynau, mae darpariaeth statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi tâl ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sef y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'r pensiwnwr yn y flwyddyn, ac nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae dyraniadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn ofynnol er mwyn cael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer y buddion terfynu sy'n ymwneud â gwella'r pensiwn, a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i'r pensiwnwyr, ynghyd ag unrhyw symiau tebyg sy'n daladwy ond nad ydynt wedi cael eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae cyflogeion yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion wedi'u diffinio i'r aelodau (cyfandaliadau a phensiynau wrth ymddeol), a enillwyd gan y cyflogeion wrth iddynt weithio i'r Awdurdod. Fodd bynnag, ariennir y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol trwy berchnogaeth o asedau, ond nid ariennir Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Gwneir cyfrif o'r CPLIL fel cynllun â buddion wedi'u diffinio:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Dyfed, a briodolir i'r Awdurdod, wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y cyflogeion, a hynny'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion, ac ati, ynghyd ag amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion cyfredol.
- Caiff rhwymedigaethau eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 4.8% (yn seiliedig ar y gyfradd ddychwelyd ddangosol ar fondiau corfforaethol o ansawdd uchel).
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Dyfed, a briodolir i'r Awdurdod, wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:



- gwarannau a ddyfynnwyd – pris cynnig cyfredol
- gwarannau nas dyfynnwyd – amcangyfrif proffesiynol
- gwarannau unedol – pris cynnig cyfredol
- eiddo – gwerth marchnadol

Dadansoddir y newid yn rhwymedigaeth net y pensiwn yn ôl y cydrannau canlynol:

- Costau gwasanaethau, yn cynnwys:
 - Cost y gwasanaethau cyfredol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – a neilltuwyd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau yr oedd y cyflogeion yn gweithio iddynt.
 - Cost gwasanaethau yn y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi ar gynllun, y mae ei effaith yn berthnasol i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol – wedi'u debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
 - Y llog net ar rwymedigaeth (ased) y buddion diffiniedig net, h.y. cost y llog net ar gyfer yr Awdurdod – y newid i rwymedigaeth (ased) y buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod, sy'n codi o ganlyniad i dreigl amser, ac y codir tâl amdano yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – caiff hwn ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i fesur ymrwymiad y buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod at rwymedigaeth (ased) y buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod – gan roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau yn rhwymedigaeth (ased) y buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i dalu cyfraniadau a buddion.
- Ailfesuriadau, yn cynnwys:
 - Yr elw o asedau cynllunio – heb gynnwys y symiau sy'n gynnwysedig yn y llog net ar rwymedigaeth (ased) y buddion diffiniedig net – y codir tâl amdano ar y Cronfeydd Pensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
 - Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn rhwymedigaethau net y pensiynau sy'n codi oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaed yn ystod y gwerthusiad actiwaraidd diwethaf, neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddarau eu rhagdybiaethau – y codir tâl amdanynt ar y Cronfeydd Pensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
 - Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Dyfed – arian parod a dalwyd ar ffurf cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa pensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; na roddir cyfrif amdanynt ar ffurf treuliau.

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Gwneir cyfrif am Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân fel cynllun â buddion wedi'u diffinio nas ariennir; nid oes gan y cynllun unrhyw asedau nac unrhyw incwm o fuddsoddiadau:

- Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer y Gronfa wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y cyflogeion, a hynny'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion, ac ati, ac amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion cyfredol.
- Caiff rhwymedigaethau eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 4.65% (yn seiliedig ar arenillion bondiau'r Llywodraeth, o'r hyd priodol, plws swm ychwanegol).



Dadansoddir y newid yn rhwymedigaeth net y pensiwn yn ôl y cydrannau canlynol:

- Costau gwasanaethau, yn cynnwys:
 - Cost y gwasanaethau cyfredol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – a neilltuwyd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau yr oedd y cyflogeion yn gweithio iddynt.
 - Cost gwasanaethau yn y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi ar gynllun, y mae ei effaith yn berthnasol i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol – wedi'u debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
 - Y llog net ar rwymedigaeth y buddion diffiniedig net, h.y. cost y llog net ar gyfer yr Awdurdod – y newid i rwymedigaeth y buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod, sy'n codi o ganlyniad i dreigl amser, ac y codir tâl amdano yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – caiff hwn ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i fesur ymrwymiad y buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod at rwymedigaeth y buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod – gan roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau yn rhwymedigaeth y buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i dalu cyfraniadau a buddion.
- Ailfesuriadau, yn cynnwys:
 - Enillion a cholledion actiwaraid – newidiadau yn rhwymedigaethau net y pensiwnau sy'n codi oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaed yn ystod y gwerthusiad actiwaraid diwethaf, neu oherwydd bod yr actiwariad wedi diweddarau eu rhagdybiaethau – y codir tâl amdanynt ar y Cronfeydd Pensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
 - Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa – arian parod a dalwyd ar ffurf cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa pensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; na roddir cyfrif amdanynt ar ffurf treuliau.

O ran buddion ymddeoliad, mae darpariaeth statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi tâl ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sef y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa pensiwn neu yn uniongyrchol i'r pensiwnwr yn y flwyddyn, ac nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn, ac allan ohoni, sy'n dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeoliad, ac yn eu disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa pensiwn ac i'r pensiwnwyr, ynghyd ag unrhyw symiau tebyg sy'n daladwy ond nad ydynt wedi cael eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly, mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Cronfeydd Pensiwn Wrth Gefn yn mesur yr effaith fuddiol ar y Gronfa Gyffredinol o ran y gofyniad i roi cyfrif am y buddion ymddeoliad, a hynny ar sail llifoedd arian yn hytrach nag wrth i'r cyflogeion ennill y buddion.

Buddion yn ôl Disgresiwn

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeoliad yn ôl disgresiwn yn achos ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir y byddant yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff yn cronni yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i ddyfarnu'r wobwr honno, a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisiâu ag sy'n berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.



7. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, fel ei gilydd, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y rhoddir awdurdod i'r Datganiad o Gyfrifon gael ei gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rheiny sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – addasir y Datganiad o Gyfrifon i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rheiny sy'n amlygu amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid addasir y Datganiad o Gyfrifon i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, datgelir natur y digwyddiadau yn y nodiadau, ynghyd â'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Nid adlewyrchir yn y Datganiad o Gyfrifon ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad y rhoddir awdurdod i'w gyhoeddi.

8. Offerynnau Ariannol

Rhwymedigaethau Ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol, a chânt eu mesur ar werth teg i gychwyn, a'u cario ar eu cost amorteiddiedig. Mae costau blynyddol a godir ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy, yn seiliedig ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio, yn union, daliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn, a hynny i'r swm a gydnabuwyd yn wreiddiol.

Yn achos y mwyafrif o fenthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm ad-daladwy sy'n disgwyl sylw (plws llog cronedig); a'r llog y codir tâl amdano yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn, yn ôl cytundeb y benthyciad.

Asedau Ariannol

Dosberthir asedau ariannol ar sail dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian.

Mae yna dri phrif ddsbarth o asedau ariannol, sy'n cael eu mesur yn ôl:

- cost wedi'i hamorteiddio
- gwerth teg trwy elw neu golled, a
- gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall.

Mae model busnes yr awdurdod yn cynnal buddsoddiadau er mwyn casglu llifoedd arian dan gcontract. Felly, caiff asedau ariannol eu dosbarthu fel cost wedi'i hamorteiddio.

Rhwymedigaethau Ariannol wedi'u Mesur ar Gost Amorteiddiedig

Pan ddaw'r awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol, cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig ar y Fantolen, a chânt eu mesur ar werth teg i ddechrau. Yn dilyn hyn, cânt eu mesur ar eu gwerth amorteiddiedig. Mae credydau



blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n dderbyniadwy, yn seiliedig ar swm cario ymlaen yr ased, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Yn achos mwyafswm yr asedau ariannol a ddelir gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm derbyniadwy sydd heb ei gasglu (plws llog cronedig), ac mai'r llog sydd wedi'i gredydu yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ganlyniad i ddatgydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i linell yr Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Model Colli Credyd Disgwyliedig

Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu ymagwedd syml tuag at amhariad, ac mae'n mesur colledion Dyledwyr a Benthyciadau Masnach i Drydydd Partïon ar swm sy'n hafal i golled oes gyfan ddisgwyliedig, a hynny gan ddefnyddio darpariaeth sy'n seiliedig ar gyfuniad o oed y ddyled a chyfraddau casglu hanesyddol. Mae'r dull hwn yn sicrhau cydnabyddiaeth gynnar o amhariad asedau ariannol.

9. Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth

Pa un a chânt eu talu trwy gyfrif, trwy randaliadau neu ar ffurf ôl-ddyledion, cydnabyddir bod grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth a thrydydd partïon yn ddyledus i'r Awdurdod pan fydd yna sicrwydd rhesymol o'r canlynol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau, ac
- y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn dod i law.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir yn ddyledus i'r Awdurdod eu credydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi cael eu bodloni. Mae'r amodau yn nodi bod yn rhaid i'r derbynnydd fanteisio ar y manteision economaidd neu'r potensial o ran gwasanaeth yn y dyfodol, sydd wedi'u hymgorffori yn yr ased ar ffurf grant neu gyfraniad, a hynny yn unol â'r hyn a bennir; neu bydd yn rhaid dychwelyd y manteision economaidd neu'r potensial o ran gwasanaeth yn y dyfodol yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae arian a flaendalwyd ar ffurf grantiau a chyfraniadau, a lle na fodlonwyd yr amodau, yn cael eu cario fel credydwyr yn y Fantolen. Pan gaiff yr amodau eu bodloni, bydd y grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell berthnasol o wasanaeth (grantiau a chyfraniadau refeniw a briodolir) neu i'r Trethiant ac Incwm a Gwariant Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu clustnodi a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle bo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu tynnu'n ôl allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle bo'r grant eto i gael ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i Gronfa Wrth Gefn y Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd. Lle bo'r grant wedi cael ei ddefnyddio, caiff ei bostio i Gyfrif Addasu'r Cyfalaf. Caiff symiau yng nghronfa wrth gefn y Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd eu trosglwyddo i Gyfrif Addasu'r Cyfalaf ar ôl iddynt gael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

10. Asedau Anniriaethol

Caiff gwariant ar asedau anariannol nad oes iddynt sylwedd ffisegol, ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd), ei gyfalafu



pan ddisgwylir y bydd y manteision economaidd neu'r potensial o ran gwasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Caiff asedau a gynhyrchir yn fewnol eu cyfalafu lle gellir dangos bod y prosiect yn ymarferol dechnegol ac y bwriedir iddo gael ei gwblhau (lle bo adnoddau digonol ar gael), a bydd yr Awdurdod yn gallu cynhyrchu manteision economaidd neu gyflawni potensial o ran gwasanaeth yn y dyfodol trwy feddu ar y gallu i werthu neu ddefnyddio'r ased. Caiff gwariant ei gyfalafu lle gellir ei fesur mewn modd dibynadwy fel gwariant wedi'i briodoli i'r ased, ac mae'n gyfyngedig i'r hyn a ysgwyddir yn ystod y cyfnod datblygu (ni ellir cyfalafu gwariant ymchwil).

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar gost yn y lle cyntaf. Ni fydd symiau yn cael eu hailbrisio ond lle gellir pennu gwerth teg asedau'r Awdurdod trwy gyfeiriad at farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid yw'r un ased anniriaethol a ddelir gan yr Awdurdod yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly cânt eu cario ar gost amorteiddiedig. Caiff gwerth dibrisiadwy ased anniriaethol ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny dros gyfnod o 3 i 15 mlynedd.

11. Rhestrï Eiddo a Chontractau Hirdymor

Caiff rhestrï eiddo eu cynnwys yn y Fantolen ar yr isaf o'r gost a'r gwerth dichonadwy net. Defnyddir y fformiwla 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' i ddyrannu cost y rhestrï eiddo.

Gwneir cyfrif am gontractau hirdymor ar sail codi tâl ar y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau am werth y gwaith a'r gwasanaethau a geir o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

12. Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniadau lle mae gan y partïon sydd â rheolaeth ar y cyd ar y trefniant hawliau i'r asedau ac ymrwymïadau i'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r trefniant. Mae'r gweithgareddau y mae'r awdurdod yn ymgymryd â nhw ar y cyd â chydweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cydweithredwyr hynny. O ran ei ddiddordeb mewn gweithrediad ar y cyd, mae'r Awdurdod, fel cydweithredwr, yn cydnabod y canlynol:

- ei asedau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw asedau a ddelir ar y cyd
- ei rwymedigaethau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw rwymedigaethau yr eir iddynt ar y cyd
- ei refeniw o werthu ei gyfran o'r allbwn a gyfyd o'r gweithrediad ar y cyd
- ei gyfran o'r refeniw o werthu'r allbwn gan y gweithrediad ar y cyd
- ei gostau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw gostau yr eir iddynt ar y cyd

13. Lesoedd

Caiff lesoedd eu dosbarthu yn lesoedd cyllid lle mae telerau'r les yn trosglwyddo, mewn modd sylweddol, bob risg a gwobr sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth o'r eiddo, y peiriannau neu'r cyfarpar oddi wrth y lesydd i'r lesddeiliad. Caiff pob les arall ei dosbarthu yn les weithredol.

Lle bo les yn cynnwys tir ac adeiladau, fel ei gilydd, bydd y tir a'r adeiladau yn cael eu hystyried yn elfennau ar wahân ar gyfer dosbarthu.

O dan y polisi hwn, a lle mae cyflawni'r trefniant yn ddibynnol ar ddefnyddio asedau penodol, gwneir cyfrif o drefniadau nad oes iddynt statws les gyfreithiol ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl.



Yr Awdurdod fel Lesddeiliad

Lesoedd Cyllid

Cydnabyddir yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar a ddelir o dan lesoedd cyllid ar y Fantolen ar ddechrau'r les, a mesurir ei gwerth teg ar adeg ei sefydlu (neu werth cyfredol y taliadau les lleiaf, os yw'n is). Mae'r ased a gydnabyddir yn cael ei pharu â rhwymedigaeth i'r ymrwymiad i dalu'r lesydd. Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr Awdurdod yn cael eu hychwanegu at swm cario ymlaen yr ased. Cymhwysir y premiymau a dalwyd wrth ymuno â'r les er mwyn nodi rhwymedigaeth y les. Codir tâl am renti digwyddiadol fel treuliau yn ystod y cyfnodau y cânt eu hysgwyo. Dosrennir taliadau les rhwng y canlynol:

- tâl am gaffael y budd yn yr eiddo, y peiriannau neu'r cyfarpar – fe'i cymhwysir i nodi rhwymedigaeth y les, a
- thâl cyllid (wedi'i ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Gwneir cyfrif o'r eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar a gydnabyddir o dan lesoedd cyllid gan ddefnyddio'r polisïau a ddefnyddir yn gyffredinol ar gyfer asedau o'r fath, a hynny yn amodol ar ddibrisiad y codir tâl amdano dros gyfnod y les, os yw hynny'n fyrrach na'r amcangyfrif o ran oes ddefnyddiol yr ased (lle nad yw perchnogaeth o'r ased yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod y les).

Lesoedd Gweithredol

Codir tâl am renti a dalwyd o dan lesoedd gweithredol ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny fel traul o'r gwasanaethau sy'n elwa ar ddefnyddio'r eiddo, y peiriannau neu'r cyfarpar sydd ar les. Codir tâl ar sail llinell syth dros gyfnod y les, hyd yn oed os nad yw hynny'n cydweddu â phatrwm y taliadau (e.e. ceir cyfnod sy'n rhydd o rent ar ddechrau'r les).

Yr Awdurdod yn Lesydd

Lesoedd Cyllid

Bydd asedau a waredir o dan lesoedd cyllid yn cael eu dileu o'r Fantolen, a bydd swm yn cael ei gydnabod yn y Fantolen yn ddyledwr derbyniadwy sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad net yn y les fel y'i diffinnir gan y safon cyfrifyddu briodol.

Bydd elfen gyfalaf unrhyw daliad rent sy'n ddyledus o dan les cyllid yn cael ei nodi yn y cyfrifon yn dderbyniad cyfalaf. Bydd atebolrwydd y dyledwr a'r atebolrwydd cyfatebol yn cael eu lleihau yn unol â'r swm hwnnw. Bydd yr elfen gyllid yn cael ei hystyried yn incwm referniw.

14. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac a ddelir i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, neu i ddibenion gweinyddol, lle disgwylir iddynt gael eu defnyddio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn ariannol, yn cael eu dosbarthu fel eiddo, peiriannau a chyfarpar.

Cydnabod

Caiff y gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau a chyfarpar ei gyfalafu ar sail cronadau, a hynny ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y manteision economaidd neu'r potensial o ran gwasanaeth yn y dyfodol, sy'n gysylltiedig â'r eitem, yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Codir tâl am wariant sy'n cynnal potensial ased i gyflawni'r manteision economaidd a'r potensial o ran y gwasanaeth yn y dyfodol (e.e. gwaith atgyweirio a



chynnal a chadw), ond nad yw'n ychwanegu at y potensial hwnnw, fel traul pan fydd yn cael ei ysgwyddo.

Caiff Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar eu cyfalafu o dan yr amodau canlynol:

- maent yn cael eu dal i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau
- mae'n debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i'r Awdurdod yn y dyfodol, neu y bydd gwasanaethau posibl yn cael eu darparu i'r Awdurdod
- disgwylir iddynt gael eu defnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol
- gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy
- mae cost yr ased unigol yn £10,000, o leiaf
- mae cost ar y cyd adnewyddu asedau cyfarpar diogelu personol yn llwyr yn £40,000, o leiaf
- mae'r eitemau yn ffurfio grŵp o asedau sy'n cyd-fynd â'r amodau canlynol:
 - mae ganddynt gost unigol o £500, o leiaf, ac mae eu cost ar y cyd yn £40,000, o leiaf
 - mae'r asedau'n rhyngddibynnol yn weithredol
 - cawsant eu prynu ar yr un dyddiad, fwy neu lai
 - disgwylir iddynt gael eu gwaredu ar yr un dyddiad
 - maent o dan reolaeth un rheolwr
- mae'r eitemau yn ffurfio rhan o'r costau cyfarparu a gosod cychwynnol ar gyfer adeilad newydd neu waith adnewyddu ar orsaf neu swyddfeydd, ni waeth beth yw eu costau unigol neu ar y cyd. Pan fo ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o gydrannau sydd ag oesau asedau gwahanol iawn, e.e. peiriannau a chyfarpar, yna caiff y cydrannau hyn eu trin fel asedau ar wahân, a'u dibrisio dros eu hoesau economaidd defnyddiol eu hunain.
- mae'r eitemau yn ffurfio rhan o'r costau cyfarparu a gosod cychwynnol ar gyfer peiriant neu gerbyd, ni waeth beth yw eu costau unigol neu ar y cyd.

Mesuriad

Caiff asedau eu mesur ar gost yn y lle cyntaf, sy'n cynnwys:

- y pris prynu,
- unrhyw gostau y gellir eu priodoli i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i'w alluogi i weithredu yn y modd y bwriadwyd iddo wneud gan y rheolwyr.

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthycyca yr eir iddynt tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Ystyrir bod cost yr asedau a gaffaelwyd, ac eithrio trwy bryniant, yn werth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llifoedd arian parod yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, lle caiff ased ei gaffael trwy gyfnewid, cost y caffaeliad fydd swm cario ymlaen yr ased a roddir gan yr Awdurdod.

Caiff asedau rhoddedig eu mesur ar werth teg yn y lle cyntaf. Caiff y gwahaniaeth rhwng y gwerth teg ac unrhyw ystyriaeth a dalwyd ei gredu i linell Trethiant ac Incwm a Gwariant Grant Amhenodol y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai fod y rhodd wedi cael ei rhoi dan amodau. Hyd nes y bodlonir yr amodau, cedwir yr enillion yn y Cyfrif Asedau Rhoddedig. Lle bo enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu tynnu'n ôl allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i Gyfrif Addasu'r Cyfalaf yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Yna, caiff yr asedau eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Seilwaith – cost hanesyddol ddibrisiedig
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Swyddfeydd yr Awdurdod – gwerth cyfredol, wedi'i bennu fel y swm a delid am yr ased yn ei ddefnydd cyfredol (gwerth defnydd presennol)



- Asedau gwarged – mae'r sylfaen gyfredol o ran mesur gwerth yn werth teg, a amcangyfrifwyd ar ei uchaf ac ar sail y defnydd gorau o safbwynt cyfranogwr yn y farchnad
- Pob ased arall – gwerth cyfredol, wedi'i bennu fel y swm a delid am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol)

Lle nad oes yna dystiolaeth o'r gwerth cyfredol sy'n seiliedig ar y farchnad, a hynny oherwydd natur arbenigol yr ased, defnyddir cost amnewid ddibrisiedig i amcangyfrif y gwerth cyfredol.

Lle bo gan asedau nad ydynt yn eiddo fywydau defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau), defnyddir cost hanesyddol ddibrisiedig fel sail i gynrychioli'r gwerth cyfredol.

Caiff asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar eu gwerth cyfredol eu hailbriso mewn modd digonol yn rheolaidd, a hynny o leiaf bob pum mlynedd, er mwyn sicrhau nad yw eu swm cario ymlaen yn sylweddol wahanol i'w gwerth cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r cynnydd mewn prisiau yn cael ei baru â chredydau i'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, er mwyn cydnabod enillion heb eu gwireddu.

Lle nodir gostyngiad mewn gwerth, gwneir cyfrif amdano ar sail y canlynol:

- lle y mae yna falans o enillion ailbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, caiff swm cario ymlaen yr ased ei nodi yn unol â'r balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- lle nad oes yna falans yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, neu lle bo'r balans yn annigonol, caiff swm cario ymlaen yr ased ei nodi yn unol â'r llinell gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbriso a gydnabuwyd er 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad gweithredu'r gronfa yn ffurfiol. Mae'r enillion a oedd yn codi cyn y dyddiad hwnnw wedi cael eu hymgorffori yng Nghyfrif Addasu'r Cyfalaf.

Amhariad

Ar ddiwedd pob blwyddyn, caiff asedau eu hasesu i ganfod a oes yna arwyddion y gallent fod yn amharedig. Lle bo arwyddion yn bodoli, a lle amcangyfrifir nad yw unrhyw wahaniaethau posibl yn rhai sylweddol, bydd swm adferadwy'r ased yn cael ei amcangyfrif, ac os bydd hynny'n llai na swm cario ymlaen yr ased, bydd colled oherwydd amhariad yn cael ei nodi am y diffyg.

Lle nodir colledion oherwydd amhariad, gwneir cyfrif amdanynt ar sail y canlynol:

- lle y mae yna falans o enillion ailbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, caiff swm cario ymlaen yr ased ei nodi yn unol â'r balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- lle nad oes yna falans yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, neu lle bo'r balans yn annigonol, caiff swm cario ymlaen yr ased ei nodi yn unol â'r llinell gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle caiff colled oherwydd amhariad ei wrthdroi wedi hynny, caiff y gwrthdroad ei gredydu i'r llinell gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer y dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi pe na fyddai'r golled wedi cael ei chydabod.

Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar yr holl asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar, a hynny trwy'r dyraniad systematig sy'n ymwneud â'u symiau dibrisiadwy dros eu hoesau defnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau nad oes ganddynt oes derfynol ddefnyddiol (h.y. tir rhydd-ddaliadol ac asedau cymunedol penodol), ynghyd ag asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio hyd yn hyn (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).



Cyfrifir dibrisiant fel a ganlyn:

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo, fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr
- cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth fel y cynghorir gan swyddog â'r cymhwyster priodol
- seilwaith – dyraniad llinell syth (5-40 mlynedd)

Lle bo gan eitem o asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar gydrannau mawr y mae eu costau yn sylweddol o gymharu â chyfanswm cost yr eitem, bydd y cydrannau hynny'n cael eu dibrisio ar wahân.

Caiff enillion ailbriso hefyd eu dibrisio, a hynny gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant y gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi ar sail trosglwyddo eu costau hanesyddol yn flynyddol o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i Gyfrif Addasu'r Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu

Pan fydd yn debygol y bydd swm cario ymlaen yr ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu, yn hytrach na thrwy ei ddefnydd parhaus, bydd yr ased yn cael ei ailddosbarthu fel ased a ddelir i'w werthu. Caiff yr ased ei ailbriso yn union cyn cael ei ailddosbarthu, ac yna'i gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Lle bo yna ostyngiad dilynol i'r gwerth teg llai costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i linell y Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau y caiff enillion mewn gwerth teg eu cydnabod. Ni chodir dibrisiant ar asedau a ddelir i'w gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu dosbarthu'n asedau a ddelir i'w gwerthu, cânt eu hailddosbarthu'n ôl yn asedau anghyfredol a'u priso ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu'n rhai a ddelir i'w gwerthu, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiad a fyddai wedi cael ei gydnabod pe na fyddent wedi cael eu dosbarthu'n asedau a ddelir i'w gwerthu, a'u swm adferadwy ar y dyddiad y gwnaed y penderfyniad i beidio â'u gwerthu.

Ni fydd asedau a waredir, neu a adewir i fynd yn segur, yn cael eu hailddosbarthu yn asedau a ddelir i'w gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomiynu, bydd swm cario ymlaen yr ased yn y Fantolen (p'un a yw'n ased eiddo, peiriannau neu gyfarpar a ddelir i'w werthu) yn cael ei ddileu o'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny'n rhan o'r enillion neu'r colledion o'i waredu. Caiff derbyniadau o warediadau (os o gwbl) eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hefyd yn rhan o'r enillion neu'r colledion sy'n deillio o waredu (e.e. yn unol â gwerth cario ymlaen yr ased ar adeg ei waredu). Bydd unrhyw enillion ailbriso a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i Gyfrif Addasu'r Cyfalaf.

Bydd y symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediadau yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae balans y derbyniadau yn parhau yng Nghronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf ac ni ellir ei ddefnyddio wedyn ac eithrio ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd, neu gellir ei neilltuo i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthycu (y gofyniad ariannu cyfalaf). Caiff derbyniadau eu neilltuo i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Ni ellir trin derbyniadau o dan £10,000, na derbyniadau amrywiol nad ydynt yn gysylltiedig â gwaredu asedau, fel eitemau cyfalaf, a rhaid eu credydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.



15. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

Darpariaethau

Yn dilyn digwyddiad, gwneir darpariaethau sy'n rhoi ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol ar yr Awdurdod, a bydd hwnnw, yn ôl pob tebyg, yn gofyn am setliad trwy drosglwyddo manteision economaidd neu botensial o ran gwasanaeth, a gellir rhoi amcangyfrif dibynadwy o swm yr ymrwymiad.

Codir tâl am ddarpariaethau ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny ar ffurf traul pan fydd gan yr Awdurdod ymrwymiad, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau, ar ddyddiad y fantolen, o'r gwariant gofynnol i setlo'r ymrwymiad, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwyddau perthnasol.

Pan wneir y taliadau yn y pen draw, codir tâl amdanynt ar y ddarpariaeth sy'n cael ei chario yn y Fantolen. Adolygir setliadau amcangyfrifedig ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol; lle y daw bellach yn llai na thebygol y bydd trosglwyddo manteision economaidd yn ofynnol (neu lle caiff setliad is na'r disgwyl ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Lle disgwylir y bydd rhan o'r taliad, neu'r taliad cyfan, sy'n ofynnol i setlo darpariaeth yn cael ei adfer oddi wrth barti arall (e.e. trwy hawliad yswiriant), cydnabyddir bod hyn yn incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol dim ond os ydyw fwy neu lai'n sicr y bydd ad-daliad yn cael ei wneud os bydd yr Awdurdod yn setlo'r ymrwymiad.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ymrwymiad posibl ar yr Awdurdod, a bydd ei bodolaeth ddim ond yn cael ei chadarnhau yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu beidio, nad ydynt o dan reolaeth lwyr yr Awdurdod. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nid yw naill ai'n debygol y bydd all-lif o adnoddau yn ofynnol, neu ni all swm yr ymrwymiad gael ei fesur mewn modd dibynadwy.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau digwyddiadol yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau Digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ased posibl i'r Awdurdod, y bydd ei fodolaeth ddim ond yn cael ei gadarnhau yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu beidio, nad ydynt o dan reolaeth lwyr yr Awdurdod.

Ni chydnabyddir asedau digwyddiadol yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon pan fo'n debygol y bydd yna fewnlif o fanteision economaidd neu botensial o ran gwasanaeth.

16. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel Cronfeydd Wrth Gefn i ddibenion polisi yn y dyfodol neu er mwyn mynd i'r afael â threuliau annisgwyl. Caiff Cronfeydd Wrth Gefn eu creu trwy drosglwyddo symiau allan o Falans y Gronfa Gyffredinol. Caiff y cronfeydd hyn eu hegluro yn y nodiadau perthnasol i'r Fantolen.



Cedwir Cronfeydd Wrth Gefn penodol i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, trethiant lleol, ymddeoliad a buddion cyflogeion, ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gall yr Awdurdod eu defnyddio.

17. Treth ar Werth (TAW)

Caiff y TAW sy'n daladwy ei chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adferadwy gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Caiff y TAW sy'n dderbyniadwy ei heithrio o'r incwm.

Nodyn 2 – Safonau Cyfrifyddu a Gyhoeddwyd, ond Nas Mabwysiadwyd

Lle bo Safon newydd wedi cael ei chyhoeddi ond heb gael ei mabwysiadu hyd yma gan y Cod, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith y newid cyfrifyddol. Mae'r newidiadau a gyflwynir i God 2023/24 yn cynnwys:

- Prydlesi FRS 16 (ond dim ond ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi penderfynu gweithredu IFRS 16 yn wirfoddol yn y flwyddyn 2023/24).
- Lle mabwysiadodd awdurdod IFRS 16 yn 2022/23 ond dewisodd ohirio gweithredu IFRS 16 i drefniadau Menter Cyllid Preifat (PFI)/Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat (PPP) tan 2023/24 bydd angen gwybodaeth am y newid mewn cyfrifo mwy penodol hwnnw yn ei ddatganiadau cyfrifon 2022/23.
- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i Wasanaethau Archwilio Mewnol (IAS) 8) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- Datgelu Polisiâu Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer 2 IFRS) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- Treth Ohiriedig yn ymwneud ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Drafodiad Sengl (Diwygiadau i IAS 12) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021.
- Diweddarau Cyfeiriad i'r Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020.

Ni ragwelir y bydd y diwygiadau uchod yn effeithio'n sylweddol ar yr wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

Nodyn 3 – Dyfarniadau Beirniadol o ran Cymhwyso Polisiâu Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifyddu a nodir yn Nodyn 1, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud dyfarniadau penodol am drafodiadau cymhleth neu'r rheiny a oedd yn cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r dyfarniadau beirniadol a wnaed yn y Datganiad o Gyfrifon fel a ganlyn:

- Mae yna gryn ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi pennu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i awgrymu bod asedau'r Awdurdod, o bosibl, yn ddiffygiol o ganlyniad i'r angen i leihau lefelau'r gwasanaethau a ddarperir.
- Caiff asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar eu gwerth cyfredol eu hailbrisio yn ddigon rheolaidd, fel sy'n ofynnol o dan bolisi cyfrifyddu'r Awdurdod ar gyfer 'Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar', a hynny o leiaf bob pum mlynedd, er mwyn sicrhau nad yw eu swm cario ymlaen yn sylweddol wahanol i'w gwerth cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhaliwyd ailbrisriad pum mlynedd o'r holl asedau eiddo ar 1 Ebrill 2020. Ers y dyddiad hwn bu cynnydd sylweddol yn nata adeiladu y Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu (BCIS), felly, ar 31 Mawrth 2023, ac ar gyfer y



flwyddyn ariannol flaenorol, cafodd ymarfer bwrdd gwaith i ailbriso eiddo gweithredol gan ddefnyddio mesur y Gost Adnewyddu Ddibrisiedig (DRC) ei gynnal gan Briswyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Cytunwyd na fyddai'r Priswyr yn cynnal unrhyw archwiliadau safle mewn perthynas â'r ymarfer hwn.

Nodyn 4 – Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Ansicrwydd o ran Amcangyfrifon

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y dyfodol, neu sydd, fel arall, yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau yn gwbl sicr, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2023, y mae iddynt risg sylweddol o gael eu haddasu'n berthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, fel a ganlyn:

- Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar – caiff asedau anghyfredol eu dibrisio dros oesau defnyddiol sy'n ddibynol ar ragdybiaethau ynghylch lefel yr atgyweiriadau a'r gwaith cynnal a chadw a fydd yn codi mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn golygu nad oes sicrwydd y bydd yr Awdurdod yn gallu cynnal ei wariant cyfredol ar atgyweiriadau a gwaith chynnal a chadw, gan fwrw amheuaeth ar yr oesau defnyddiol a bennir ar gyfer asedau. Os bydd oes ddefnyddiol yr ased yn lleihau, bydd dibrisiant yn cynyddu a swm cario ymlaen yr ased yn gostwng.
- Rhwymedigaethau pensiynau – mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net ar gyfer talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n gysylltiedig â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu, newidiadau o ran oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau, ac, ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y tâl disgwylledig ar asedau'r gronfa pensiwn. Cyflogir Actiwariaid Ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ar y rhagdybiaethau i'w rhoi ar waith. Cyfeiriwch at Nodyn 30 ar gyfer dadansoddiad o sensitifrwydd rhwymedigaeth pensiwn.

Nodyn 5 – Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Cafodd y Datganiad o Gyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi gan y Prif Swyddog Cyllid ar y dyddiad a nodir ar dudalen 13. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Lle roedd digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi cael eu haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith yr wybodaeth hon.

Ni chafwyd yr un digwyddiad perthnasol ar ôl dyddiad y Fantolen.



Nodyn 6 – Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

	2022/23			
	Addasiadau Statudol i Gyfalaf Net £000	Addasiadau Statudol i Bensiynau Net £000	Gwahaniaethau Eraill £000	Cyfanswm yr Addasiadau £000
Darparu Gwasanaethau Tân	4,992	1,523	32	6,547
Cost Net Gwasanaethau	4,992	1,523	32	6,547
Incwm a Gwariant Arall	(5,670)	14,314	0	8,644
Gwahaniaeth rhwng y Tâl Statudol a'r Gwaged neu'r Diffyg yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(678)	15,837	32	15,191

	2021/22			
	Addasiadau Statudol i Gyfalaf Net £000	Addasiadau Statudol i Bensiynau Net £000	Gwahaniaethau Eraill £000	Cyfanswm yr Addasiadau £000
Darparu Gwasanaethau Tân	4,243	5,241	(60)	9,424
Cost Net Gwasanaethau	4,243	5,241	(60)	9,424
Incwm a Gwariant Arall	(6,044)	11,153	0	5,109
Gwahaniaeth rhwng y Tâl Statudol a'r Gwaged neu'r Diffyg yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,801)	16,394	(60)	14,533

Addasiadau Statudol i Gyfalaf Net – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac amhariad ac enillion a cholledion ailbriso yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – mae'n addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf, gyda'r incwm yn cael ei drosglwyddo wrth waredu asedau, a'r symiau'n cael eu dileu ar gyfer yr asedau hynny.
- Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi – costau statudol cyllido cyfalaf, h.y. caiff Darpariaeth Isafswm Refeniw a chyfraniadau refeniw eraill eu tynnu o incwm a gwariant arall gan na ellir codi tâl am y rhain o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.
- Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol – caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm nad yw'n daladwy o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff grantiau refeniw eu haddasu o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i'r rhai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu yr oedd yr amodau ar eu cyfer wedi'u bodloni trwy gydol y flwyddyn. Caiff y llinell Trethiant ac Incwm a Gwariant Grant Amhenodol ei chredydu â grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu yr oedd yr amodau ar eu cyfer wedi'u bodloni yn y flwyddyn.

Addasiadau Statudol i Bensiynau Net – newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu incwm a gwariant sy'n ymwneud â phensiwn, sef IAS 19 Buddion Cyflogaion:



- Ar gyfer Gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a delir gan yr Awdurdod, yn unol â'r hyn a ganiateir yn ôl statud, a'u hamnewid am gostau'r gwasanaeth cyfredol a chostau'r gwasanaeth yn y gorffennol.
- Ar gyfer incwm a gwariant cyllido a buddsoddi, codir tâl ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y llog net ar rwymedigaeth y buddion wedi'u diffinio.

Gwahaniaethau Eraill rhwng symiau sy'n cael eu debydu/credydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/dderbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant cyllido a buddsoddi, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn nodi'r addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol mewn perthynas â'r gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a disgowntiau.
- Mae'r tâl a godir o dan Drethiant ac Incwm a Gwariant Grant Amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir codi tâl amdano o dan reoliadau statudol ac y rhagwelid y byddai'n dod i law ar ddechrau'r flwyddyn, a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Mae hwn yn wahaniaeth amseru, gan y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedion neu Ddiffygion yn y Gronfa Gasglu yn y dyfodol.

Nodyn 7 – Incwm a Gwariant wedi'u Dadansoddi yn ôl Natur

2021/22 £000		2022/23 £000
	Gwariant	
48,083	Costau Cyflogeion	49,645
11,730	Costau Gweithredu Eraill	12,850
8,268	Gwasanaethau Cymorth	9,323
4,243	Dibrisiant, Amorteiddiad, Amhariad ac Ailbrisio	4,992
716	Llog a Dalwyd	789
(40)	Enill ar waredu Asedau	(97)
73,000	Cyfanswm y Gwariant	77,502
	Incwm	
(1,481)	Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall y Gwasanaeth	(1,392)
(6)	Llog ac Incwm Buddsoddi	(110)
(51,779)	Ardollau gan Awdurdodau Unedol	(53,824)
(4,791)	Grantiau'r Llywodraeth, Cyfraniadau a Rhoddion	(4,917)
(58,057)	Cyfanswm yr Incwm	(60,243)
14,943	(Gwarged) neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau	17,259



Refeniw o Contractau â Derbynwyr Gwasanaethau

Mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad o'i ffrydiau incwm sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer IFRS 15 Contractau Refeniw. Oherwydd y gwerth ar 31 Mawrth 2023, ystyriwyd ei fod yn amherthnasol ei gynnwys yn y cyfrifon, ac mae Nodyn 7 yn darparu digon o wybodaeth.

Nodyn 8 – Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan Reoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn, yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a nodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i dalu gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol. Mae'r canlynol yn amlinellu disgrifiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn y gwneir yr addasiadau yn unol â nhw.

- Balans y Gronfa Gyffredinol – y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau unrhyw Awdurdod gael eu talu iddi, ac allan o ba un y caiff holl rwymedigaethau'r Awdurdod eu bodloni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu'n wahanol. Gall y rheolau hyn hefyd nodi'r flwyddyn ariannol pan ddylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol, ac ni fydd hyn o reidrwydd yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir. Felly, mae Balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi ei rymuso'n statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu ar y diffyg yn yr adnoddau y mae'n ofynnol i'r Awdurdod eu hadfer) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Mae Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf yn dal yr enillion o waredu tir ac asedau anghyfredol eraill, sydd wedi'u hatal trwy statud rhag cael eu defnyddio, ac eithrio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i gael eu gosod o'r neilltu i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i gael eu defnyddio i'r dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.



2021/22				Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan Reoliadau	2022/23			
Y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi £000s	Derbyniadau Cyfalaf £000s	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £000s	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £000s		Y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi £000s	Derbyniad au Cyfalaf £000s	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £000s	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £000s
(3,994)	0	(3,994)	3,994	Dibrisiant	(4,222)	0	(4,222)	4,222
(277)	0	(277)	277	Amhariad ac Anwellhaol	(947)	0	(947)	947
105	0	105	(105)	Enillion / (Colledion) o ganlyniad i ailbriso Eiddo	251	0	251	(251)
(78)	0	(78)	78	Amorteiddiad Anniriaethol	(74)	0	(74)	74
40	(120)	(80)	80	Gwaredu asedau anghyfredol	97	(140)	(43)	43
3,047	0	3,047	(3,047)	Gwariant Cyfalaf a Ariennir gan Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	2,271	0	2,271	(2,271)
548	0	548	(548)	Gwariant Cyfalaf a Ariennir gan Grantiau	744	0	744	(744)
0	120	120	(120)	Gwariant Cyfalaf a Ariennir gan Dderbyniadau	0	140	140	(140)
2,410	0	2,410	(2,410)	Ariannu Cyfalaf Darpariaeth Isafswm Refeniw	2,558	0	2,558	(2,558)
1,801	0	1,801	(1,801)		678	0	678	(678)
(34,622)	0	(34,622)	34,622	Gwrthdroi buddion ymdeol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(33,295)	0	(33,295)	33,295
18,228	0	18,228	(18,228)	Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr a thaliadau I Bensiynwyr	17,458	0	17,458	(17,458)
(16,394)	0	(16,394)	16,394		(15,837)	0	(15,837)	15,837
60	0	60	(60)	Symudiadau yn y Croniad Absenoldeb Cronedig	(32)	0	(32)	32
(14,533)	0	(14,533)	14,533	Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan reoliadau	(15,191)	0	(15,191)	15,191

Nodyn 9 – Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

	Balans ar 1 Ebrill 2021	Trosglwy ddiadau i Mewn 2021/22	Trosglwyd diadau Allan 2021/22	Dyraniad i'r Cyfalaf £000	Balans ar 31 Mawrth 2022	Trosglwy ddiadau i Mewn 2022/23	Trosglwy ddiadau Allan 2022/23	Trosglwyd diadau Rhwyng Cronfeydd Wrth Gefn £000	Dyraniad i'r Cyfalaf £000	Balans ar 31 Mawrth 2023 £000
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans y Gronfa Gyffredinol	(1,333)	(3)	0	0	(1,336)	(0)	0	(544)	0	(1,880)
Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi:										
Cronfa Buddsoddi i Arbed	(277)	0	0	0	(277)	0	0	277	0	0
Y Gronfa Gyfalaf	(1,640)	(2,338)	0	2,885	(1,093)	(1,124)	0	300	1,550	(367)
Digwyddiadau Mawr	(400)	0	0	0	(400)	0	0	0	0	(400)
Codi Arian ac Incwm Amrywiol wedi'i Glustnodi	(280)	(157)	61	0	(376)	(9)	127	(300)	0	(558)
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Cydraddoli Ardollau	(1,000)	0	0	0	(1,000)	(245)	484	167	0	(594)
Meddalwedd a Chyfathrebu	(934)	(110)	0	26	(1,018)	0	0	0	0	(1,018)
Rheoli Risgiau	(500)	(90)	0	0	(590)	0	245	0	0	(345)
Rheoli Newid – Cyflogeion a Phensiynau	(1,200)	0	0	0	(1,200)	0	0	200	0	(1,000)
Diogelwch Gweithwyr	(1,535)	0	0	136	(1,399)	0	194	0	721	(484)
Ailgyflunio Gwasanaeth	(200)	0	0	0	(200)	0	125	(100)	0	(175)
Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	(7,966)	(2,695)	61	3,047	(7,553)	(1,378)	1,175	544	2,271	(4,941)
Derbyniadau Cyfalaf	0	(120)	0	120	0	(140)	0	0	140	0
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	(9,299)	(2,818)	61	3,167	(8,889)	(1,518)	1,175	0	2,411	(6,821)



Manylir ar ddiben y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy a ddelir gan yr Awdurdod yn y tabl canlynol:

Enw	Diben
Balans y Gronfa Gyffredinol	Cronfa Wrth Gefn heb ei Chlustnodi a gynhelir i liniaru effaith argyfyngau a gwrthbwysu effaith digwyddiadau annisgwyl.
Cydraddoli Ardollau	I'w ddefnyddio i "liniaru" newidiadau yn yr ardoll a godir bob blwyddyn i'r Awdurdodau Unedol cyfansoddol.
Buddsoddi i Arbed	Cronfa Wrth Gefn a gynhelir i ddarparu adnoddau er mwyn galluogi'r Awdurdod i fuddsoddi yn y broses o drawsnewid ei wasanaethau a gwireddu gostyngiadau o ran costau/effeithlonrwydd yn y dyfodol.
Y Gronfa Gyfalaf	Cronfa Wrth Gefn a gynhelir i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, gan gynnig hyblygrwydd mewn perthynas ag ariannu buddsoddiad cyfalaf.
Digwyddiadau Mawr	Cyllid wedi'i neilltuo at ddigwyddiadau untro nad ydynt yn rhan o'r gweithgarwch arferol o ran darparu gwasanaethau. Caiff ei hail-lenwi trwy'r gyllideb sylfaenol yn y blynyddoedd i ddod er mwyn cynnal y lefel sy'n ofynnol i reoli digwyddiadau mawr.
Codi Arian ac Incwm Amrywiol wedi'i Glustnodi	Gwargedion a gynhyrchir gan gynlluniau gwahanol, e.e. defnyddio'r cynllun aberthu cyflog i lesio car a digwyddiadau codi arian i ddibenion penodol.
Meddalwedd a Chyfathrebu	Cronfa Wrth Gefn a gynhelir i ddarparu adnoddau i gyllido buddsoddiad seilwaith TGCh untro, yn ogystal â rhwydwaith gwasanaethau brys yn y dyfodol.
Rheoli Risgiau	Cronfa Wrth Gefn a gynhelir i fynd i'r afael â'r posibilrwydd y bydd yr Awdurdod yn dod i gysylltiad â hawliadau o dan ei drefniadau yswiriant; i ddarparu hyblygrwydd mewn perthynas ag ansefydlogrwydd y farchnad yswiriant; ac i ddarparu adnoddau er mwyn cymryd camau i wella sefyllfa'r Awdurdod o ran dod i gysylltiad â risg.
Cyflogeion a Phensiwn	Wedi'i gynnal i dalu costau untro sy'n gysylltiedig â chyflogeion: e.e. yr ombwdsmon pensiynau, tribiwnlysoedd cyflogaeth, diswyddiadau.
Diogelwch Gweithwyr	Wedi'i gynnal i ateb y galwadau am sicrhau a gwella diogelwch Diffoddwyr Tân gan gynnwys gofynion offer a hyfforddiant.
Ad-drefnu'r Gwasanaeth	Wedi'i gynnal i gefnogi'r Awdurdod i fynd i'r afael â phwysau fydd yn codi yn y dyfodol o ofynion rheoleiddio a deddfwriaethol, ac i fuddsoddi mewn trawsnewid y gwasanaeth.
Derbyniadau Cyfalaf	Yn cadw'r enillion a ddaw i law yn sgil gwerthu asedau, sydd ar gael i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol.



Nodyn 10 – Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi

2021/22		2022/23
£000		£000
715	Llog sy'n daladwy a ffioedd tebyg	789
11,153	Llog net ar rwymedigaeth (ased) y buddion diffiniedig net	14,314
(4)	Symudiadau yn y Ddarpariaeth Drwgddyled	(3)
1	Drwgddyledion wedi'u Dileu *	1
(6)	Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	(110)
11,859	Cyfanswm	14,991

Nodyn 11 – Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol

2021/22		2022/23
£000		£000
(51,779)	Ardollau gan awdurdodau cyfansoddol	(53,824)
(548)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau	(744)
(52,327)	Cyfanswm	(54,568)

Nodyn 12 – Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Symudiadau hyd at 31 Mawrth 2023	Tir ac Adeiladau £000	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Chyfarpar £000	Asedau Seilwaith £000	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu £000	Cyfanswm Eiddo, Peirianna a Chyfarpar £000
Cost neu Brisiad: Gwerth Gros ar Bapur ar 31 Mawrth 2022	61,843	37,572	344	882	100,641
Ychwanegiadau	1,051	4,672	0	2,849	8,572
Gwariant Anwellhaol	(947)	0	0	0	(947)
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig a ddilëwyd i'r Gwerth Gros ar Bapur	(1,841)	0	0	0	(1,841)
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbriso a gydnabyddir yn y gronfa ailbriso	5,022	0	0	0	5,022
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbriso a gydnabyddir yn y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau	251	0	0	0	251
Datgydnabod – gwaredu	(17)	(856)	0	0	(873)
Aiddosbarthu a throsglwyddo	16	866	0	(882)	0
Cost neu Brisiad: Gwerth Gros ar Bapur ar 31 Mawrth 2023	65,378	42,254	344	2,849	110,825
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig ar 31 Mawrth 2022	(171)	(16,893)	(132)	0	(17,196)
Dibrisiant a ddilëir i'r Gwaged / Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau	(1,902)	(2,311)	(9)	0	(4,222)
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig a ddilëwyd i'r Gwerth Gros ar Bapur	1,841	0	0	0	1,841
Colledion amhariad/(gwrthdroi) a gydnabyddir yn y Gronfa Ailbriso	0	0	0	0	0
Colledion amhariad/(gwrthdroi) a gydnabyddir yn y gwaged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau	0	0	0	0	0
Datgydnabod – gwaredu	17	841	0	0	858
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig ar 31 Mawrth 2023	(215)	(18,363)	(141)	0	(18,719)
Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth 2022	61,672	20,679	212	882	83,445
Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth 2023	65,163	23,891	203	2,849	92,106



Symudiadau hyd at 31 Mawrth 2022	Tir ac Adeiladau £000	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Chyfarpar £000	Asedau Seilwaith £000	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu £000	Cyfanswm Eiddo, Peirianna a Chyfarpar £000
Cost neu Brisiad: Gwerth Gros ar Bapur ar 31 Mawrth 2021	57,530	33,330	344	3,121	94,325
Ychwanegiadau	1,231	4,309	0	1,543	7,083
Gwariant Anwellhaol	(261)	0	0	0	(261)
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig a ddilëwyd i'r Gwerth Gros ar Bapur	(3,594)	0	0	0	(3,594)
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbriso a gydnabyddir yn y gronfa ailbriso	5,101	0	0	0	5,101
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbriso a gydnabyddir yn y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau	105	0	0	0	105
Datgydnabod – gwaredu	(7)	(2,111)	0	0	(2,118)
Ailddosbarthu a throsglwyddo	1,738	2,044	0	(3,782)	0
Cost neu Brisiad: Gwerth Gros ar Bapur ar 31 Mawrth 2022	61,843	37,572	344	882	100,641
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig ar 31 Mawrth 2021	(1,971)	(16,682)	(124)	0	(18,777)
Dibrisiant a ddilëir i'r Gwarged / Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau	(1,737)	(2,249)	(8)	0	(3,994)
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig a ddilëwyd i'r Gwerth Gros ar Bapur	3,594	0	0	0	3,594
Colledion amhariad/(gwrthdroi) a gydnabyddir yn y gronfa Ailbriso	(41)	0	0	0	(41)
Colledion amhariad/(gwrthdroi) a gydnabyddir yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(16)	0	0	0	(16)
Datgydnabod – gwaredu	0	2,038	0	0	2,038
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig ar 31 Mawrth 2022	(171)	(16,893)	(132)	0	(17,196)
Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth 2021	55,559	16,648	220	3,121	75,548
Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth 2022	61,672	20,679	212	882	83,445



Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod yr ymrwymiad mawr canlynol:

- £1.080 miliwn ar gyfer peiriannau rheng flaen
- £1.830m ar gyfer yr uned Hyfforddi Ymddygiad Tân Adrannol (CFBT) yng Nghoed-yr-iarll.

Ailbrisiadau ac Amhariadau

Yn unol â pholisi cyfrifyddu, rhaid i asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar eu gwerth cyfredol gael eu hailbriso yn ddigon rheolaidd, a hynny o leiaf bob pum mlynedd, er mwyn sicrhau nad yw eu swm cario ymlaen yn sylweddol wahanol i'w gwerth cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhaliwyd yr ailbrisiad pum mlynedd diwethaf ar 1 Ebrill 2020. Canfuwyd asesiad o oblygiadau newidiadau yn nata BCIS o chwarter 1 2020 a chwarter 1 2022 ar gyfer 2021/22, bod newid sylweddol yng ngwybodaeth costau adeiladu a bod effaith ganlyniadol ar werth asedau yn y cyfrifon y cyfrifwyd eu gwerth ar sail Cost Amnewid Wedi'i Dibrisio (DRC). Yn 2022/23 canfuwyd asesiad tebyg o ddata BCIS o chwarter 1 2022 a chwarter 1 2023 newid sylweddol eto. Mae gwerthoedd cario ymlaen asedau DRC wedi'u diwygio yn sgil newidiadau yn nata'r BCIS, gan gymhwyso diwygiadau anarferiant perthnasol ers y prisiad bwrdd gwaith diwethaf ar 1 Ebrill 2022.

Er 1 Ebrill 2023, o ran y gwerth defnydd presennol (EUV), nid oedd yna unrhyw dystiolaeth ar gael o'r farchnad yn y meysydd dan sylw i nodi bod yna newid sylweddol mewn gwerth wedi digwydd oddi ar y dyddiad prisio, sef 1 Ebrill 2020.

Mae gorsafoedd tân Llandysul a Llandrindod wedi cael eu newid yn fewnol gan effeithio ar eu mesuriadau mewnol. Wrth ailbriso'r eiddo hyn, cynhaliodd y Prisiwr archwiliad safle ac mae wedi rhagdybio bod yr eiddo dan sylw mewn cyflwr da ac nad ydynt wedi bod yn destun unrhyw ddifrod. Yn ogystal, rhagdybiodd y Prisiwr hefyd nad oedd unrhyw ddeunyddiau peryglus wedi'u defnyddio wrth adeiladu'r eiddo na wedi'u hymgorffori ers hynny, ac nad oes halogiad yn y ddaear nac oddi yno, ac nid yw'n dir tirlenwi.

Cynhaliwyd yr adolygiad ailbrisiadau ac amhariadau gan aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, a gyflogwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar Anweithredol (Asedau Dros Ben)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau dros ben.



Nodyn 13 – Asedau Anniriaethol

Mae'r Awdurdod yn gwneud cyfrif am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol, i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan annatod o system TG penodol, ac y gwneir cyfrif amdani yn rhan o'r eitem galedwedd yn eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau a brynwyd a meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol, fel ei gilydd.

Pennir oes ddefnyddiol gyfyngedig ar gyfer pob meddalwedd, a hynny'n seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y disgwylir i'r feddalwedd fod o ddefnydd i'r Awdurdod. Pennir oes ddefnyddiol o 10 mlynedd ar gyfer y prif gyfresi meddalwedd a ddefnyddir gan yr Awdurdod.

Mae'r symudiad ar falansau yr asedau anniriaethol yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

2021/22		2022/23
£000		£000
	Gwerth Gros ar Bapur	
822	Balans agoriadol ar 1 Ebrill	875
53	Ychwanegiadau	54
0	Amhariad	0
0	Datgydnabod	(56)
875	Balans Terfynol ar 31 Mawrth	873
	Amorteiddiad Cronedig	
(372)	Ar 1 Ebrill	(450)
(78)	Amorteiddiad	(74)
0	Amhariad	0
0	Datgydnabod	28
(450)	Balans Terfynol ar 31 Mawrth	(496)
	Gwerth Net ar Bapur	
450	Balans agoriadol ar 1 Ebrill	425
425	Balans terfynol ar 31 Mawrth	377



Nodyn 14 – Offerynnau Ariannol

Caiff y categorïau canlynol o Offerynnau Ariannol eu cario yn y Fantolen:

	Hirdymor 31 Mawrth 2022 £000	Hirdymor 31 Mawrth 2023 £000	Cyfredol 31 Mawrth 2022 £000	Cyfredol 31 Mawrth 2023 £000
Asedau Ariannol ar Gost Amorteiddiedig:				
Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	0	0	2,737	1,178
Dyledwyr	31	30	4,190	4,128
Rhwymedigaethau Ariannol ar Gost Amorteiddiedig:				
Benthyca	(22,120)	(24,530)	(153)	(3,090)
Llog Cronedig	0	0	(81)	(128)
Cyfanswm Benthyca	(22,120)	(24,530)	(234)	(3,218)
Rhwymedigaethau'r Lesoedd Cyllid	(2,095)	(1,796)	(423)	(299)
Credydwyr	0	0	(6,548)	(5,531)

	2021/22		2022/23	
Incwm, Treulïau, Enillion a Cholledion	Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig £000	Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig £000	Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig £000	Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig £000
Cost llog	715	0	789	0
Cyfanswm y traul yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	715	0	789	0
Incwm llog	0	(6)	0	(110)
Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau Colledion / (enillion) net ar gyfer y flwyddyn	715	(6)	789	(110)



Offerynnau Ariannol – Gwerth Teg

Caiff rhwymedigaethau ariannol ac asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a symiau derbyniadwy eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/rhwymedigaethau hirdymor gyda llog cronedig mewn asedau/rhwymedigaethau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llifoedd arian parod sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Ar gyfer benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthyciadau eraill sy'n daladwy, defnyddiwyd benthyciadau gan y PWLB er mwyn darparu'r gwerth teg o dan weithdrefnau adfer dyledion y PWLB;
- Ni chydnyddir unrhyw ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm sy'n dderbyniadwy trwy fasnach neu fel arall, ystyrir mai'r gwerth teg yw'r swm cario ymlaen neu'r swm y codir tâl amdano;
- Ystyrir mai gwerth teg swm sy'n dderbyniadwy trwy fasnach neu fel arall yw'r swm sydd ar yr anfoneb neu y codir tâl amdano.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifwyd fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2023	
	Swm cario ymlaen £000	Gwerth Teg £000	Swm cario ymlaen £000	Gwerth Teg £000
Credydwy'r Hirdymor – PWLB	22,273	24,212	27,620	25,494
Dyled nad yw i'r PWLB	0	0	0	0
Cyfanswm *	22,273	* 24,212	27,620	25,494

Ar 31 Mawrth 2023 mae'r gwerth teg, ar cyfraddau llog newydd, yn is na'r swm cario ymlaen oherwydd byddai ad-dalu holl ddyled Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn gynnar yn arwain at ostyngiad ad-dalu cynnar net, sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn cyfraddau llog benthycia presennol. Oherwydd y cyfnodau benthycia gwahanol a'r cyfraddau llog benthycia gwahanol, mae yna fenthyciadau yn y portffolio sydd â gostyngiad ad-dalu cynnar ac eraill â phremiwm ad-dalu cynnar. Ar 31 Mawrth 2022 roedd y gwerth teg yn uwch, ar cyfraddau llog newydd, na'r swm cario ymlaen oherwydd byddai ad-dalu dyled y PWLB yn gynnar wedi arwain at bremiwm ad-dalu cynnar net.

*Gwerth teg wedi ei haildatgan ar 31 Mawrth 2022 i adlewyrchu gwerth teg ar gyfraddau llog newydd, yn hytrach na chyfradd ad-dalu cynamserol

Mae benthyciadau ar lefel 2 yn yr Hierarchaeth Gwerth Teg, hynny yw maen nhw wedi'u prasio ar brisiau sy'n weladwy naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.



Nodyn 15 – Dyledwyr

31 Mawrth 2022 £000	Dyledwyr Byrdymor	31 Mawrth 2023 £000
3,323	Cyrff Llywodraeth Ganolog	3,256
169	Awdurdodau Lleol Eraill	229
33	Cyrff y GIG	96
342	Endidau ac Unigolion Eraill	199
339	Taliadau Ymlaen Llaw	361
(16)	Darpariaeth ar gyfer dyledion anadferadwy	(13)
4,190	Cyfanswm y Dyledwyr	4,128

31 Mawrth 2022 £000	Dyledwyr Hirdymor	31 Mawrth 2023 £000
31	Endidau ac Unigolion Eraill	30
31	Cyfanswm y Dyledwyr	30

Nodyn 16 – Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
737	Arian Parod a Balansau Banc	1,178
2,000	Adneuo Byrdymor	0
2,737	Cyfanswm yr Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	1,178

Nodyn 17 – Credydwyr

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
(2,777)	Cyrff Llywodraeth Ganolog	(1,843)
(604)	Awdurdodau Lleol Eraill	(740)
(3,160)	Endidau ac Unigolion Eraill	(2,936)
(7)	Derbyniadau Ymlaen Llaw	(12)
(6,548)	Cyfanswm y Credydwyr	(5,531)



Nodyn 18 – Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy

31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2023	
£000		£000	
(28,218)	Y Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn	(32,353)	
(23,078)	Cyfrif Addasu'r Cyfalaf	(24,643)	
539,615	Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn	369,666	
721	Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd	753	
489,040	Cyfanswm	313,423	

Nodyn 18a – Y Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wneir gan yr Awdurdod o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ei eiddo, ei beiriannau a'i gyfarpar, ynghyd â'i asedau anniriaethol.

Bydd y balans yn gostwng pan fydd asedau sydd ag enillion cronedig:

- yn cael eu hailbrisiu ar i lawr neu yn lleihau o ran gwerth, a'r enillion yn cael eu colli
- yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- yn cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa Wrth Gefn yn cynnwys dim ar wahân i'r enillion ailbrisiu sydd wedi cronni er 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn. Caiff enillion cronedig sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw eu cyfuno yn y balans ar Gyfrif Addasu'r Cyfalaf.

2021/22		2022/23	
£000		£000	
(23,920)	Balans ar 1 Ebrill	(28,218)	
(5,136)	Ailbrisiad ar i fyny ar gyfer asedau	(5,022)	
76	Ni chodir tâl am ailbrisiad ar i lawr ar gyfer asedau na cholledion amhariad oherwydd diffygiant ar y Gwarged na'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau	0	
(5,060)	Ni chodir tâl am warged neu ddiffyg o ailbrisiu asedau anghyfredol ar y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau	(5,022)	
762	Y gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol	887	
0	Enillion cronedig ar asedau a werthwyd neu a waredwyd	0	
762	Y swm a ddilëir i Gyfrif Addasu'r Cyfalaf	887	
(28,218)	Balans ar 31 Mawrth	(32,353)	



Nodyn 18b – Cyfrif Addasu'r Cyfalaf

Mae Cyfrif Addasu'r Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau o ran amseriad sy'n codi o ganlyniad i drefniadau cyfrifyddu gwahanol ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol, ac ar gyfer ariannu'r gwaith o gaffael neu adeiladu'r asedau hynny, neu ychwanegu atynt, o dan ddarpariaethau statudol. Caiff y Cyfrif ei ddebydu o ran y gost caffael ac adeiladu, neu gostau dilynol, gan y codir tâl am ddibrisiant, colledion oherwydd amhariad, ac amorteiddiadau ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda phostiadau adfer o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn er mwyn trosi ffigurau gwerth teg a chyfredol yn sail costau hanesyddol). Caiff y cyfrif ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i fod yn gyllid ar gyfer y costau caffael ac adeiladu a chostau dilynol.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion, a gydnabyddir ar asedau rhoddedig sydd eto i'w defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbriso a gronnwyd ar eiddo, peiriannau a chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i ddal enillion o'r fath.

2021/22		2022/23
£000		£000
(20,515)	Balans ar 1 Ebrill	(23,078)
4,271	Taliadau ar gyfer dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	5,169
78	Amorteiddiad ac Amhariad asedau anniriaethol	74
(105)	Colledion / (enillion) ailbriso ar eiddo, peiriannau ac offer	(251)
80	Symiau'r asedau anniriaethol a ddilëir wrth waredu neu werthu yn rhan o'r enillion/colledion o'u gwaredu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	43
4,324	Gwrthdroi eitemau sy'n berthnasol i wariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	5,035
(762)	Symiau a addaswyd ac a ysgrifennwyd allan o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn	(887)
3,562	Swm net a ddilëir o ran cost asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	4,148
(120)	Y defnydd o Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd	(140)
(548)	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac a ddefnyddiwyd i gyllido cyfalaf	(744)
(2,410)	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf y codir tâl amdano ar y Gronfa Gyffredinol	(2,558)
(3,047)	Gwariant Cyfalaf y codir tâl amdano ar y Gronfa Gyffredinol	(2,271)
(6,125)	Cyllid cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn:	(5,713)
(23,078)	Balans ar 31 Mawrth	(24,643)



Nodyn 18c – y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau o ran amseriad sy'n codi o ganlyniad i drefniadau cyfrifyddu gwahanol ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn gwneud cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny oherwydd bod y buddion yn cael eu hennill gan gyflogeion sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan wedyn ddiweddarau'r rhwymedigaethau a gydnabyddir sy'n adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau sy'n newid, ac enillion ar fuddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddion a enillir gael eu hariannu, a hynny am fod yr Awdurdod yn cyfrannu i'r cronfeydd pensiwn ar ran y cyflogeion neu, yn y pen draw, yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae balans y ddyled ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan gyn-gyflogeion a chyflogeion presennol a'r adnoddau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i'w talu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi cael ei neilltuo pan ddaw'n amser talu'r buddion.

2021/22		2022/23
£000		£000
555,374	Balans ar 1 Ebrill	539,615
(32,153)	Ailfesuriadau o (rwymedigaeth) / ased y buddion diffiniedig net	(185,786)
34,622	Gwrthdroi eitemau sy'n berthnasol i fuddion pensiwn a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	33,295
(18,228)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	(17,458)
539,615	Balans ar 31 Mawrth	369,666

Nodyn 18d – Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd

Mae'r Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai, fel arall, yn codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol o ganlyniad i gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond nas cymerwyd yn y flwyddyn, e.e. yr hawl i wyliau blynyddol wedi'i gario ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans y Gronfa Gyffredinol gael ei gwrthbwysu gan drosglwyddiadau i'r Cyfrif ac allan ohono.

2021/22		2022/23
£000		£000
781	Balans ar 1 Ebrill	721
(60)	Y gwahaniaeth rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i swyddogion, y codir tâl amdani ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronadau, a'r gydnabyddiaeth y codir tâl amdani yn y flwyddyn, yn unol â gofynion statudol	32
721	Balans ar 31 Mawrth	753



Nodyn 19 – Llif Arian o Weithgareddau Gweithredu

Mae'r llifoedd arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2021/22		2022/23
£000		£000
(4)	Llog a gafwyd	(84)
700	Llog a dalwyd	742

Mae'r gwarged neu'r diffyg o ran darparu gwasanaethau wedi cael eu haddasu ar gyfer y symudiadau canlynol nad ydynt yn arian parod:

2021/22		2022/23
£000		£000
(3,994)	Dibrisiant	(4,222)
(277)	Amhariad	(947)
105	Enillion a golledion ailbriso	251
(78)	Amorteiddiad	(74)
(111)	(Cynnydd)/gostyngiad o ran credydwyr	1,125
300	Cynnydd/(gostyngiad) o ran dyledwyr	(62)
(139)	Cynnydd/(gostyngiad) o ran rhestri eiddo	(18)
(16,394)	Symudiad yn y rhwymedigaeth pensiynau	(15,837)
(80)	Swm cario ymlaen yr asedau anghyfredol a'r asedau anghyfredol a ddelir i'w gwerthu, a werthwyd neu a ddatgydnabuwyd	(43)
(20,668)	Cyfanswm	(19,827)

Mae'r gwarged neu'r diffyg o ran darparu gwasanaethau wedi cael eu haddasu ar gyfer yr eitemau canlynol, sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido:

2021/22		2022/23
£000		£000
548	Grant Cyfalaf/Cyfraniadau/Rhoddion a ddefnyddiwyd	744
120	Enillion o ganlyniad i werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	140
668	Cyfanswm	884



Nodyn 20 – Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi

2021/22		2022/23
£000		£000
7,136	Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	8,626
(120)	Enillion o ganlyniad i werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(140)
(5)	Derbyniadau eraill ar gyfer gweithgareddau buddsoddi	(1)
7,011	Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	8,485

Nodyn 21 – Llif Arian o Weithgareddau Ariannu

2021/22		2022/23
£000		£000
(4,000)	Derbyniadau arian parod o ganlyniad i fenthyciadau byrdymor a hirdymor	(5,500)
(601)	Derbyniadau eraill o weithgareddau ariannu	(271)
408	Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau sy'n disgwyl sylw mewn perthynas â lesioedd cyllid	423
180	Ad-dalu benthyciadau byrdymor a hirdymor	106
(4,013)	Llif arian net o weithgareddau ariannu	(5,242)

Nodyn 22 – Lwfansau'r Aelodau

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn:

2021/22		2022/23
£000		£000
66	Cyflogau	67
1	Treuliau	2
67	Cyfanswm Lwfansau'r Aelodau	69

Nodyn 23 – Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Swyddogion

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch-gyflogeion yr Awdurdod fel a ganlyn:

	Cyf. Nodyn	Flwyddyn	Cyflogau, Ffioedd a Lwfansau £	Taliadau Eraill £	Lwfansau Treuliau £	Budd mewn Nwyddau £	Cyfraniad Pensiwn Cyflogwyr £	Cyfanswm £
Y Prif Swyddog Tân 1	3	2022/23	2,240	0	0	0	0	2,240
		2021/22	158,332	0	30	0	0	158,362
Y Prif Swyddog Tân 2	4	2022/23	159,025	0	421	0	43,414	202,860
		2021/22	0	0	0	0	0	0
Dirprwy Brif Swyddog Tân 1	4, 5	2022/23	1,839	0	4	0	502	2,345
		2021/22	129,820	0	235	0	38,037	168,092
Dirprwy Brif Swyddog Tân 2	5, 6	2022/23	130,569	0	249	0	35,645	166,463
		2021/22	0	0	0	0	0	0
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol 1	5, 6	2022/23	1,572	0	4	0	429	2,005
		2021/22	110,478	0	63	0	30,160	140,701
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol 2	6	2022/23	111,612	0	249	0	30,470	142,331
		2021/22	0	0	0	0	0	0
Y Prif Swyddog Cynorthwyol 1 (Cyfarwyddwr Adnoddau)	1,7	2022/23	0	0	0	0	0	0
		2021/22	96,558	0	921	5,932	12,512	115,923
Y Prif Swyddog Cynorthwyol 2 (Cyfarwyddwr Adnoddau)	2,7	2022/23	111,759	0	768	1,098	16,987	130,612
		2021/22	27,304	0	63	40	4,153	31,560
Y Clerc / Swyddog Monitro		2022/23	39,456	0	555	0	5,997	46,008
		2021/22	38,676	0	470	0	5,879	45,025
Trysorydd Dros Dro / Swyddog Adran 151	8	2022/23	38,930	0	324	0	5,917	45,171
		2021/22	0	0	0	0	0	0

Nodiadau

1. Yn wahanol i'r Uwch Swyddogion eraill, roedd yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cynorthwyol 1 (Cyfarwyddwr Adnoddau) brynu tanwydd car ar gyfer milltiroedd busnes ac yna hawlio treuliau yn ôl. Hefyd, cyfrifir treth ar fuddion mewn nwyddau ar sail car cwmni sy'n wahanol i Uwch Swyddogion eraill ac a arweiniodd at dreuliau a ffigyrau buddion mewn nwyddau llawer uwch.
2. Yn wahanol i'r Uwch Swyddogion eraill, roedd yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cynorthwyol 2 (Cyfarwyddwr Adnoddau) brynu tanwydd electrïg ar gyfer milltiroedd busnes ac yna hawlio treuliau yn ôl. Hefyd, cyfrifir treth ar fuddion mewn nwyddau ar sail car cwmni sy'n wahanol i Uwch Swyddogion eraill ac sy'n arwain at dreuliau a ffigyrau buddion mewn nwyddau llawer uwch.
3. Ymddeolodd y Prif Swyddog Tân 1 o'r Gwasanaeth ar 5 Ebrill 2022. Ei gyflog adeg ymddiswyddo oedd £157,749.
4. Penodwyd y Prif Swyddog Tân 2 ar 6 Ebrill 2022 ar gyflog o £157,749, yn dilyn ymddeoliad y Prif Swyddog Tân 1 blaenorol.
5. Penodwyd y Dirprwy Brif Swyddog Tân 2 ar 6 Ebrill 2022 ar gyflog o £129,342, yn dilyn dyrchafiad y Dirprwy Brif Swyddog Tân 1 blaenorol i Brif Swyddog Tân 2.
6. Penodwyd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol 2 ar 6 Ebrill 2022 ar gyflog o £110,071, yn dilyn dyrchafiad y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol 1 blaenorol i Ddirprwy Brif Swyddog Tân 2.
7. Penodwyd y Prif Swyddog Cynorthwyol 2 (Cyfarwyddwr Adnoddau) dros dro yn y rôl ar 1 Ionawr 2022 yn dilyn ymddeoliad y Prif Swyddog Cynorthwyol 1 (Cyfarwyddwr Adnoddau) blaenorol. Gwnaed y rôl dros dro hon yn barhaol ar 19 Hydref 2022 ar gyflog o £109,216.
8. Yn ystod 2022/23 newidiodd yr Awdurdod ei drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau Swyddogion Adran 151 (A151) a ddarparwyd o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Gâr ers 2018. Ar 1 Awst 2022 penododd yr Awdurdod Drysorydd Dros Dro (Swyddog A151), ar gyflog o £95,401 (£57,240 pro rata). Costau CLG ar gyfer 2022/23 oedd £16,175 (ar gyfer 2021/22 roeddent yn £37,599).

Yn ystod 2023/24 bydd yr Awdurdod yn gwerthuso'r trefniadau interim cyn penderfynu sut y bydd cyfrifoldebau'r Swyddog A151 yn cael eu cyflawni o 1 Awst 2023.



Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Swyddogion

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr Awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth ariannol o dros £60,000 ar gyfer y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

	Nifer y Cyflogeion	
	2021/22	2022/23
£60,001 i £65,000	13	13
£65,001 i £70,000	6	13
£70,001 i £75,000	1	4
£75,001 i £80,000	1	1
£80,001 i £85,000	3	3
£85,001 i £90,000	0	1
Cyfanswm	24	35

Yn 2022/23, cymhareb cyflog y Prif Swyddog Tân i daliad cydnabyddiaeth canolrifol cyflog cyfwerth ag amser llawn yr holl gyflogeion, sef £34,501, yw 4.67:1. (Yn 2021/22, canolrif y cyflog cyfwerth ag amser llawn oedd £32,244 *, a'r gymhareb oedd 4.89:1 *). * Diwygio

Pecynnau Ymadael

Mae nifer y pecynnau ymadael a chyfanswm y gost fesul band, ynghyd â chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill wedi'u nodi yn y tabl isod:

Band costau pecyn gadael (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau gadael yn ôl band costau		Cyfanswm cost y pecynnau gadael ymhob band (£)	
	2021/22	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22	2022/23
£0-£20,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£20,001 - £40,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£40,001 - £60,000	1	0	0	0	1	0	53,723	0
Cyfanswm y costau a gynhwysir yn y DIGC	1	0	0	0	1	0	53,723	0



Nodyn 24 – Costau'r Archwiliad Allanol

Mae'r ffioedd canlynol yn daladwy mewn perthynas â'r gwaith o archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, yr arolygiadau statudol, a'r gwasanaethau eraill nad ydynt yn ymwneud â'r archwiliad, a ddarparwyd gan archwilyr allanol yr Awdurdod:

Ffi Wirioneddol 2021/22 £000		Ffi Arfaethedig 2022/23 £000
	Ffioedd sy'n daladwy i archwilyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a ddarparwyd gan yr archwilydd penodedig ar gyfer y flwyddyn ar gyfer:	
51	Gwaith Archwilio Ariannol	59
15	Gwaith Archwilio Perfformiad	17
66	Cyfanswm	76

Nodyn 25 – Incwm Grant

Incwm Grant a Gredydwyd i Drethiant ac Incwm a Gwariant Grant Amhenodol

2021/22 £000		2022/23 £000
(467)	Grantiau Cyfalaf, Cyfraniadau a Rhoddion	(709)
(467)	Cyfanswm	(709)

Credydwyd i Wasanaethau

2021/22 £000		2022/23 £000
	Llywodraeth Cymru:	
(110)	Atal Tanau Bwriadol	(112)
(317)	Cyfarpar Diogelwch yn y Cartref	(324)
(108)	Diogelwch Cymunedol Arall	(123)
(595)	Dimensiynau Newydd, USAR ac MTFA	(505)
(592)	Airwave (Firelink)	(592)
(248)	Y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys	(259)
(40)	GovTech	(29)
(1,832)	Cyllid Pensiynau	(1,844)
(147)	Cronfa Galedi Covid-19	(78)
(254)	Arall *	(306)
(4,243)	Cyfanswm	(4,172)

* Grantiau (cyllid allanol) eraill sy'n cynnwys cyllid ar gyfer prosiectau bach, anailadroddus.



Yn 2022/23 aeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ati i gydlynu'r grant Diogelwch yn y Cartref gwerth £900 mil, a'r grant Lleihau Tanau Bwriadol gwerth £359 mil, a hynny ar ran Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hynny, rhoddodd Llywodraeth Cymru £1.259 miliwn (£1.241 miliwn yn 2021/22) yr un i'r tri Gwasanaeth Tân yng Nghymru.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru o ran gweinyddi'r ddau gynllun grant hyn ar gyfer pob Gwasanaeth Tân yng Nghymru. Telir y grantiau a gymeradwyir i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd wedyn yn gyfrifol am ddsbarthu'r grantiau i'r ddau Wasanaeth Tân arall yng Nghymru. Mae gwerthoedd y grantiau a dalwyd i'r ddau Wasanaeth Tân arall yng Nghymru ar gyfer y ddau gynllun, fel a ganlyn:

Grantiau a Weinyddwyd ar ran Gwasanaethau Tân ac Achub eraill

2021/22		2022/23
£000		£000
	Llywodraeth Cymru:	
(265)	Atal Tanau Bwriadol	(247)
(549)	Cyfarpar Diogelwch yn y Cartref	(575)
(814)	Cyfanswm	(822)

Mae'r Awdurdod wedi derbyn y grantiau cyfalaf canlynol sydd eto i'w cydnabod fel incwm gan fod amodau ynghlwm wrthynt a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r arian gael ei ddychwelyd i'r corff cyllido os nad yw'r amodau'n cael eu bodloni. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

Rhwymedigaethau Cyfredol – Derbyniadau Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw

2021/22		2022/23
£000		£000
(275)	Storm Callum (Llywodraeth Cymru)	0
(198)	Y Seilwaith Gwefru ar gyfer Cerbydau Trydan (Llywodraeth Cymru)	0
(473)	Cyfanswm	0

Mae'r Awdurdod wedi derbyn y grantiau refeniw canlynol sydd eto i'w cydnabod fel incwm gan fod amodau ynghlwm wrthynt a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r arian gael ei ddychwelyd i'r corff cyllido os nad yw'r amodau'n cael eu bodloni. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

Rhwymedigaethau Cyfredol – Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw

2021/22		2022/23
£000		£000
(48)	GovTech (Llywodraeth Cymru)	(19)
(2)	Dimensiynau Newydd (Llywodraeth Cymru)	0
(193)	Cronfa Galedi Covid-19 (Llywodraeth Cymru)	(116)
(243)	Cyfanswm	(135)



Nodyn 26 – Partïon perthnasol

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodiadau perthnasol i bartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli'r Awdurdod neu ddylanwadu arno, neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodiadau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y cyfyngwyd ar yr Awdurdod, o bosibl, o ran ei allu i fargeinio'n rhydd â'r Partïon Cysylltiedig.

Llywodraeth Cymru (LIC)

Mae Llywodraeth Cymru yn dylanwadu'n sylweddol ar weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo, ac yn darparu cyllid ar ffurf grantiau. Amlinellir y grantiau a gafwyd gan adrannau o'r Llywodraeth yn nodyn 25.

Aelodau

Mae gan Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub reolaeth uniongyrchol ar bolisïau ariannol a gweithredol yr Awdurdod. Dangosir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i'r Aelodau yn 2021/22 yn nodyn 22.

Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith yn gofyn i Aelodau a Swyddogion nodi a datgelu trafodiadau partïon cysylltiedig.

Swyddogion

Ni fu i'r un Swyddog ddatgan buddiant ariannol yn unol ag adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Awdurdod yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid refeniw trwy godi ardoll, yn seiliedig ar y boblogaeth, ar y chwe Chyngor Sir Unedol yn ei ardal. Mae manylion y symiau a ddaeth i law trwy ardollau i'w gweld yn naratif y Datganiad o Gyfrifon.

Roedd gan yr Awdurdod Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Ariannol, gan gynnwys gwasanaethau Swyddog Adran 151 am ran o'r flwyddyn. Daeth cyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin i ben yn ystod y flwyddyn ariannol.

Yr Awdurdod yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae manylion Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân i'w gweld yn nodyn 30, ac mae cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân i'w gweld ar dudalennau 67 i 77 a 82 i 84.

Mae'r tablau canlynol yn manylu ar drafodiadau a balansau gyda Phartïon Cysylltiedig, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2023:



Parti Cysylltiedig	Trafodiadau yn ystod y Flwyddyn		Balans 31 Mawrth 2023	
	Incwm £000	Gwariant £000	Yn ddyledus i'r Awdurdod (Dyledwr) £000	Yn ddyledus gan yr Awdurdod (Credydwr) £000
Llywodraeth Cymru	(10,948)	0	1,288	0
Cyngor Sir Caerfyrddin	(11,268)	492	116	(236)
Cyngor Sir Ceredigion	(4,201)	63	0	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	(8,544)	143	0	0
Cyngor Sir Penfro	(7,556)	119	0	0
Cyngor Sir Powys	(7,817)	215	5	0
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	(14,692)	124	0	(5)
Cyfanswm	(65,026)	1,156	1,409	(241)

Gweithrediadau ar y Cyd

Ym mis Ebrill 2014, ymrwymodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) i gydweithio i sefydlu Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Ym mis Hydref 2017, aeth y Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus "yn fyw". Mae gan GTACGC a GTADC reolaeth ar y cyd ar y gwaith hwn, a nodir y dull y cytunwyd arno gan y ddau Wasanaeth Tân ac Achub mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG). Mae'r CLG yn amlinellu set o egwyddorion lefel uchel cytunedig mewn perthynas â'r gwaith o reoli'r tîm o ddydd i ddydd. Mae Prif Swyddogion Tân y ddau Wasanaeth Tân ac Achub yn disgwyl i'r ddau Wasanaeth gydweithredu i gyflawni'r nodau ac amcanion a nodir yn yr CLG.

Roedd yr CLG yn pennu bod cyllideb y staff (costau uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn cael ei rannu 50% yr un rhwng y ddau Wasanaeth Tân ac Achub, a hynny o'r adeg yr oedd y tîm yn weithredol (sef mis Hydref 2017). Ar gyfer 2018/19 ymlaen, aildrafodwyd yr CLG, ac arweiniodd hynny at sail ddiwygiedig – costau staff uniongyrchol: 40% i GTACGC a 60% i GTADC, a 50% yr un ar gyfer costau staff anuniongyrchol.

Yn unol â pholisi cyfrifyddu 12, mae'r cofnodion perthnasol wedi cael eu hymgorffori ym mhrif ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Dangosir cyfran yr Awdurdod o Gyfrif Incwm a Gwariant a Mantolen y Cytundeb ar y Cyd yn y tabl isod:

Y Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus	2021/22		2022/23	
	Cyfanswm Gweithredol ar y Cyd £000	Cyfran GTACGC £000	Cyfanswm Gweithredol ar y Cyd £000	Cyfran GTACGC £000
Refeniw				
Gwariant ar Gostau Staffio	2,532	1,013	2,690	1,076
Gwariant nad yw'n Gostau Staffio	109	55	128	64
Cyfanswm y Gwariant	2,641	1,068	2,818	1,140
Ased Anniriaethol				
Y System Gorchymyn a Rheoli				
Gwerth Gros ar Bapur	680	340	680	340
Amorteiddiad Cronedig	(322)	(161)	(392)	(196)
Gwerth Net ar Bapur	358	179	288	144



Nodyn 27 – Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf y codir tâl amdano yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bo'r gwariant cyfalaf i gael ei ariannu mewn blynyddoedd i ddod trwy godi tâl ar refeniw wrth i'r asedau gael eu defnyddio gan yr Awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yng Ngofyniad y Cyllid Cyfalaf (CFR), sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo yn hanesyddol gan yr Awdurdod ond sydd eto i gael ei ariannu. Dadansoddir yr CFR yn ail ran y nodyn hwn.

2021/22		2022/23
£000		£000
31,558	Gofyniad Agoriadol y Cyllid Cyfalaf	32,569
	Buddsoddiad Cyfalaf:	
7,083	Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	8,572
53	Asedau Anniriaethol	54
7,136	Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf	8,626
	Ffynonellau Cyllid	
(120)	Derbyniadau Cyfalaf	(140)
(548)	Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau / rhoddion eraill	(744)
	Symiau a neilltuwyd ar sail refeniw:	
(3,047)	Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol	(2,271)
	Darpariaeth Isafswm Refeniw:	
(202)	Opsiwn 1 – gwariant cyn 31 Mawrth 2009	(194)
(1,801)	Opsiwn 3 – gwariant ar ôl 1 Ebrill 2009	(1,941)
(407)	Lesoedd Cyllid	(423)
(6,125)	Cyfanswm Ffynonellau Cyllid	(5,713)
32,569	Gofyniad Cau y Cyllid Cyfalaf	35,482

Esboniad o'r symudiadau yn y flwyddyn

2021/22		2022/23
£000		£000
1,011	Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (heb gymorth ariannol y llywodraeth)	2,913
1,011	Cynnydd/(gostyngiad) yng Ngofyniad y Cyllid Cyfalaf	2,913



Nodyn 28 – Lesoedd

Yr Awdurdod yn Lesydd – Lesoedd Cyllid

Nid yw dyledwyr lesioedd cyllid yn berthnasol gan fod taliadau ystyriaeth wedi'u gwneud ar ddechrau cyfnod y les a'u cymhwyso i leihau atebolrwydd y les, nid oes unrhyw atebolrwydd yn ddyledus.

Yr Awdurdod fel Lesddeiliad – Lesoedd Cyllid

Mae'r Awdurdod wedi caffael nifer o gerbydau gweithredol o dan lesioedd cyllid.

Caiff yr asedau a gafwyd o dan y lesioedd hyn eu cario ar ffurf Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn y Fantolen, a hynny ar y symiau net canlynol:

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
0	Tir ac Adeiladau Eraill	0
2,155	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn, Cyfarpar ac Eraill	1,766
2,155	Cyfanswm	1,766

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu'r isafswm o dan y lesioedd hyn, sy'n cynnwys setlo'r rhwymedigaeth hirdymor ar gyfer y llog yn y cerbydau a brynwyd gan yr Awdurdod, a'r costau cyllid a fydd yn daladwy gan yr Awdurdod mewn blynyddoedd i ddod tra bo'r rhwymedigaeth yn dal i ddisgwyl sylw. Mae isafswm taliadau'r lesioedd yn cynnwys y symiau canlynol:

31 Mawrth 2022 £000	Rhwymedigaethau'r lesioedd cyllid (gwerth presennol net isafswm taliadau'r lesioedd):	31 Mawrth 2023 £000
423	- Cyfredol	299
2,095	- Anghyfredol	1,796
278	Costau cyllid a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod	202
2,796	Isafswm taliadau'r lesioedd	2,297

Bydd isafswm taliadau'r lesioedd yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

Isafswm Taliadau'r Lesioedd			Rhwymedigaethau'r Lesioedd Cyllid	
31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2023 £'000		31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
499	363	Ymhen blwyddyn, fan bellaf	423	299
1,452	1,452	Yn hwyrach na blwyddyn, ac nid yn hwyrach na phum mlynedd	1,269	1,317
845	482	Yn hwyrach na phum mlynedd	826	479
2,796	2,297	Cyfanswm	2,518	2,095



Yr Awdurdod fel Lesddeiliad – Lesoedd Gweithredol

Mae'r Awdurdod wedi caffael nifer o gerbydau ysgafn trwy ymrwymo i lesoedd gweithredol, sydd ag oesau nodweddiadol o bump i saith mlynedd.

Mae isafswm taliadau'r lesoedd sy'n daladwy o dan lesoedd na ellir eu canslo mewn blynyddoedd i ddod fel a ganlyn:

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
88	Ymhen blwyddyn, fan bellaf	88
151	Yn hwyrach na blwyddyn, ac nid yn hwyrach na phum mlynedd	64
0	Yn hwyrach na phum mlynedd	0
239	Cyfanswm	152

Nodyn 29 – Buddion Terfynu

Ni roddodd yr Awdurdod derfyn ar unrhyw gontract a arweiniodd at rwymedigaeth yn 2022/23 (£54mil yn 2021/22), gweler nodyn 23 am fanylion pecynnau ymadael a chyfanswm cost fesul band.

Nodyn 30 – Cynllun Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio

Cyfranogiad mewn Cynlluniau Pensiwn

Yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei Swyddogion, mae'r Awdurdod yn cyfrannu at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn, mewn gwirionedd, yn daladwy tan i'r cyflogai ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny), ac i'w datgelu ar yr adeg y mae'r cyflogeion yn ennill yr hyn y bydd ganddynt hawl iddo yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei weithredu o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a chyfrifoldeb Cronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Caerfyrddin, yw llywodraethu'r cynllun. Pennir y polisi yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiwn. Penodir rheolwyr buddsoddi'r gronfa gan bwyllgor pensiynau Cyngor Sir Caerfyrddin. Prif risgiau'r cynllun hwn i'r Awdurdod yw'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, newidiadau statudol a strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu arian o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau o ran chwyddiant, arenillion bondiau, a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Caiff y rhain eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi tâl ar y Gronfa Gyffredinol a'r symiau sy'n ofynnol trwy statud, fel y disgrifir yn y nodyn i'r polisiâu cyfrifyddu. Rydym yn cydnabod cost buddion ymddeoliad yng nghost y gwasanaethau yr adroddir amdanynt, pan fyddant yn cael eu hennill gan y cyflogeion, yn hytrach na phan gaiff y buddion eu talu yn y pen draw ar ffurf pensiynau.

Fodd bynnag, mae'r tâl y mae'n ofynnol i ni ei godi yn ôl ardoll yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol y buddion ôl-gyflogaeth/ymddeoliad ei thynnu'n ôl allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Cafodd y trafodiadau canlynol eu gwneud yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.



Mae buddion dewisol ar ôl ymddeol yn dilyn ymddeoliad cynnar yn drefniant â buddion wedi'u diffinio nas ariennir, a chydabyddir rhwymedigaethau pan wneir dyfarniadau. Nid oes unrhyw asedau cynlluniedig wedi'u cronni i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn hyn.

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun â buddion wedi'u diffinio nas ariennir, sy'n golygu na ddelir unrhyw fuddsoddiadau i ariannu'r rhwymedigaethau. Delir y cyfraniadau a wneir gan y cyflogwr a'r cyflogeion, ar gyfradd a osodir gan Lywodraeth Cymru, mewn cyfrif cronfa bensiwn; codir tâl ar y cyfrif am y buddion a delir, ac mae unrhyw falans ar y cyfrif yn dod o Lywodraeth Cymru, neu yn daladwy iddi.

Cydraddoli a Mynegeio Pensiynau ag Isafswm Gwarantiedig (GMP) – Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad (7 Hydref 2020) ynghylch mynegeio a chydraddoli'r Pensiwn ag Isafswm Gwarantiedig (GMP), a'r cynnig yw ymestyn yr 'ateb dros dro' i'r aelodau hynny sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2021. Roedd cost gwasanaethau yn y gorffennol wedi'i chynnwys yn natgeliadau 2019/20 am ymestyn y broses gydraddoli i bawb a fydd yn ymddeol yn y dyfodol.

Cafwyd dyfarniad pellach hefyd gan lys barn ar 20 Tachwedd 2020 ynghylch cydraddoli Pensiynau ag Isafswm Gwarantiedig. Dyfarnodd y llys ei bod yn ofynnol i ymddiriedolwyr y cynllun ailedrych ar Werthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) i sicrhau cydraddoli Pensiynau ag Isafswm Gwarantiedig. Gallai hyn arwain at daliadau ariannol ychwanegol pan fydd y broses o gydraddoli Pensiynau ag Isafswm Gwarantiedig yn golygu na chafodd yr aelodau y taliadau llawn yr oedd ganddynt hawl i'w cael. O ran cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, mae Adran Actwari'r Llywodraeth (GAD) yn disgwyl y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei ddwyn ymlaen ar sail traws-gynllun, ac y bydd angen mewnbwn cyfreithiol. Gallai hyn ei gwneud yn ofynnol ailedrych ar achosion CETV o'r gorffennol yn achos aelodau a gyrhaeddodd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gydraddoli. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'i bennu eto, ac nid oes gan GAD ddata sy'n ymwneud ag achosion CETV hanesyddol i amcangyfrif yr effaith bosibl, ond y disgwyl yw y bydd yn godiad cymharol fach i is-set gymharol fach o'r aelodau (h.y., y rheiny a gymerodd CETV ac sydd o fewn cwmpas y taliadau ychwanegol).

Heriau cyfreithiol i fuddion goroeswyr (Goodwin) – Yn 2020 dygwyd her gyfreithiol yn erbyn Cynllun Pensiwn yr Athrawon ynghylch buddion goroeswyr a ddarperir i briod gwrywaidd aelod benywaidd. Yn y cynllun hwnnw, seilir buddion dibynnydd gwrywaidd a oedd yn briod ag aelod benywaidd ar wasanaeth oddi ar 1988, ac ni chynhwysir unrhyw wasanaeth cyn 1988.

Oherwydd y strwythur buddion cyfartal hanesyddol yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori GAD nad yw'n credu bod yna sefyllfa debyg yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru, ac felly nid yw'n ofynnol darparu ar gyfer yr her gyfreithiol hon yn ein datgeliadau cyfrifyddu ar gyfer 2022/23.

Goblygiadau Covid-19 – Mae rhagamcanion presennol y cyfraddau marwolaethau ymhlith y boblogaeth yn rhoi ystyriaeth tymor byr ar gyfer effaith pandemig Covid-19. Wrth ddeillio rhagamcanion gwella cyfraddau marwolaeth seiliedig ar SYG 2020, rhoddodd panel o arbenigwyr marwolaethau eu barn ar effaith pandemig Covid-19 ar gyfraddau marwolaethau yn y tymor byr. Yn seiliedig ar hyn, gwnaed addasiadau tymor byr yn y cyfnod 2019 i 2024 i ganiatáu ar gyfer marwolaethau amcangyfrifedig yn 2021 a chynnig cyfartaledd o farn yr arbenigwyr ar welliannau amcangyfrifedig yn ôl grŵp oedran dros y cyfnod hwn. Ni ragwelir y bydd gwelliannau cyfraddau marwolaethau yn y dyfodol yn newid o ganlyniad i Covid-19. Byddai cyfradd marwolaeth o Covid-19 yn fwy na'r hyn a ganiateir eisoes yn y rhagdybiaethau marwolaethau yn dod i'r amlwg ar ffurf ennill profiad mewn cyfrifon yn y dyfodol. Mae Adran Actwari'r Llywodraeth (GAD) yn disgwyl y



bydd rhagamcaniad effaith hirdymor pandemig Covid-19 ar ddisgwyliad oes yn parhau i ddatblygu wrth i brofiad a thystiolaeth ddod i'r amlwg yn y dyfodol.

McCloud / Sargeant a rheoli costau prasio 2016 - Cyflwynwyd honiadau o wahaniaethu ar sail oedran mewn perthynas â thelerau'r trefniadau diogelu trosiannol gan grwpiau o ddiffoddwyr tân ac aelodau o'r Farnwriaeth yn achos cyfreithiol McCloud/Sargeant (a elwir yma yn 'McCloud'). Traddododd y Llys Apêl ei ddyfarniad ar yr honiad hwn ar 20 Rhagfyr 2018, gan ddyfarnu bod y trefniadau diogelu trosiannol yn gwahaniaethu ar sail oedran. O ganlyniad, gohiriwyd elfen rheoli costau prasio 2016 tra bod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r angen i unioni'r gwahaniaethu hwn ar draws holl gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus. Ers hynny, mae'r mecanwaith capio costau ar gyfer prasio 2016 wedi aildechrau ac mae'r cyfrifiadau wedi'u cwblhau, a'r canlyniad yw nad oes yna newidiadau i fuddion na chyfraniadau.

Cafodd y ffordd y caiff y dewis gohiredig ei drin yn sail i gost aelod at ddibenion cap cost, ynghyd â'r cyfnod lledaenu o bedair blynedd ei herio mewn Adolygiad Barnwrol a gafodd ei glywed yn gynnar yn 2023. Gwrthodwyd yr honiadau a wnaed yn yr Adolygiad Barnwrol gan yr Uchel Lys, mewn dyfarniad a gyflwynwyd ddydd Gwener 10 Mawrth 2023. Felly, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth yn y datgeliadau cyfrifyddu GAD ar 31 Mawrth 2023.

Unioniad McCloud

Bu cyfnod unioniad McCloud (honiadau ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran) rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Bydd aelodau cymwys yn gallu dewis pa gynllun y maent yn dymuno derbyn buddion ohono ar gyfer y cyfnod hwn. Oherwydd y gwahanol strwythurau buddion mae GAD yn disgwyl i'r mwyafrif o weithwyr tân cymwys ddewis cymryd buddion cynllun gwaddol (Cynllun 1992 neu Gynllun 2007) ar gyfer y cyfnod unioni.

Cafodd lwfans ar gyfer McCloud ei gynnwys gyntaf yn y datgeliadau 2018/19 fel cost gwasanaeth yn y gorffennol ar gyfer gwasanaeth unioni pedair blynedd o 2015-2019. Priodolwyd y gost gwasanaeth hon yn gymesur i gynlluniau 1992 a 2007. Ar gyfer blynyddoedd dilynol hyd at 2021/22, rhoddwyd lwfans yng nghostau gwasanaeth 2015 ar gyfer cronni gwasanaeth unioni ychwanegol yn flynyddol.

Nawr bod y ffenestr unioni wedi cau, mae GAD wedi symud holl rwymedigaethau cysylltiedig McCloud ar gyfer aelodau cymwys ar gyfer y cyfnod 2019-2022 i'r cynlluniau gwaddol cysylltiedig. Mae hyn yn golygu bod holl rwymedigaethau McCloud yn cael ei gadw o fewn y cynllun gwaddol y mae GAD yn disgwyl i fuddion gael eu talu ohono. Mae hyn wedi arwain at gost gwasanaeth o £9miliwn yn y gorffennol yn cael ei hychwanegu at Gynllun 1992 a chost gwasanaeth o £1miliwn yn y gorffennol yn cael ei hychwanegu at Gynllun 2007. Gan nad yw'r rhwymedigaethau hyn bellach yn rhan o Gynllun 2015, mae GAD wedi adrodd am enillion o £10miliwn yn y gorffennol yng Nghynllun 2015.

Aelodau wrth gefn arbennig (Matthews)

Ym mis Tachwedd 2018, cafodd dyfarniad ar yr achos cyfreithiol yn ymwneud â barnwyr rhan amser (O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) effaith uniongyrchol ar yr achos cyfatebol ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn (Matthews). Cytunodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ymestyn yr hawl i bensiwn i ddiffoddwyr tân cymwys wrth gefn i gynnwys gwasanaeth cyn mis Gorffennaf 2000. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd ym mis Mawrth 2022 yn nodi cwmmpas a gweithrediad bwriadedig yr ymarfer opsiynau sy'n ofynnol i unioni'r achos hwn. Mae GAD yn disgwyl i'r ymarfer opsiynau ddechrau rywbryd yn ystod neu yn fuan ar ôl 2023/24.



Bydd yr ymarfer opsiynau hwn yn cynyddu'r hawl i bensiwn ar gyfer rhai aelodau wrth gefn arbennig cyfredol a hefyd yn caniatáu mynediad i'r cynllun ar gyfer cyn-ddiffoddwyr tân ychwanegol wrth gefn. Mae GAD yn cynnwys isod amcangyfrif, ar ragdybiaethau cyfrifyddu 2023 ar gyfer y rhwymedigaeth ychwanegol posibl a allai godi yn dilyn yr ymarfer opsiynau hwn.

Fodd bynnag, mae gweinyddwyr yn dal i fod wrthi'n cynllunio ar gyfer unioniad Matthews ac ni allant ddarparu data ar yr aelodau cymwys, y buddion y mae ganddynt hawl i'w prynu a faint y bydd angen iddynt ei gyfrannu i dalu am y buddion hynny. O ganlyniad, mae ansicrwydd data sylweddol iawn wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth hon a bu'n rhaid gwneud rhagdybiaethau sylweddol. Amlinellir y rhagdybiaethau mwyaf arwyddocaol isod:

Niferoedd sy'n gymwys - Mae ansicrwydd ynghylch nifer y diffoddwyr tân oedd yn ddiffoddwyr tân wrth gefn o fewn y ffenestr gymhwysedd. Lle bo modd, mae GAD wedi defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd ar gyfer pob awdurdod yn ogystal â data aelodaeth prisio 2020 ar gyfer y cynllun wedi'i addasu. Mae hyn wedi rhoi amcangyfrif gorau cyffredinol o'r nifer cymwys o 1,700 yn genedlaethol.

Cyfnod gwasanaeth cymwys - Mae diffoddwyr tân cymwys yn gallu prynu buddion am wasanaeth o ddechrau eu cyflogaeth gymwys. Nid oes gwybodaeth gywir am y gwasanaeth ar gael i bob aelod cymwys eto. Mae angen caniatáu hefyd ar gyfer unrhyw wasanaeth a brynwyd eisoes yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf. Yn seiliedig ar ddata aelodau diffoddwyr tân wrth gefn sydd ar gael, mae GAD wedi tybio bod cyflogaeth wedi dechrau yn 30 oed ar gyfartaledd.

Cymhareb tâl gwirioneddol a thâl cyfeirio— Mae lefel y buddion a gronnir yn ystod gwasanaeth cymwys yn dibynnu ar gyflog gwirioneddol diffoddwyr tân yn ystod y cyfnod hwn, o'i gymharu â'r tâl cyfeirio amser llawn ar gyfer eu rôl. Nid yw hyn yn hysbys yn fanwl iawn i bob aelod cymwys, yn benodol efallai na fydd cofnodion yn bodoli mwyach am gyfnodau cyn 2000. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynnig bod cyflog gwirioneddol yn cael ei dybio i fod yn 25% o'r tâl cyfeirio yn cael ei ddefnyddio mewn achosion o'r fath. Mae GAD wedi defnyddio'r gymhareb hon fel amcangyfrif gorau o'r gymhareb tâl gwirioneddol a thâl cyfeirio ar gyfer cyfrifo'r rhwymedigaeth posibl.

Manteisio - Nid yw pob diffoddwr tân sy'n gymwys yn manteisio ar yr opsiwn. Mae'r rheolau cymhwysedd ar gyfer yr ail ymarfer yn wahanol i'r un cyntaf ac mae hefyd yn cwmpasu cyfnod gwasanaeth sylweddol ehangach. Mae treigl amser hefyd yn golygu y bydd oedran yr aelodau sy'n gymwys yn hŷn nag o dan yr ymarfer cyntaf. Mae hyn yn golygu y bydd proffil diffoddwyr tân cymwys yn wahanol i broffil yr ymarfer cyntaf. Felly, gall y gyfradd fanteisio fod yn wahanol iawn rhwng yr ymarferion opsiwn cyntaf a'r ail opsiwn ac mae'n anodd iawn amcangyfrif ymlaen llaw.

Mae GAD wedi amcangyfrif y nifer sy'n manteisio drwy amcangyfrif cyfran y nifer cymwys a gwmpesir gan wahanol grwpiau pendant, ac ystyried y nifer posibl sy'n manteisio ar bob un:

- Aelodau a brynodd fuddion o dan yr ymarfer cyntaf. Mae'r unigolion hyn ar gyfartaledd yn hŷn na grwpiau eraill, ac yn flaenorol wedi dewis prynu buddion, felly mae GAD wedi tybio y byddant hefyd yn prynu buddion o dan yr ail ymarfer.
- Diffoddwyr tân eraill sydd dros oedran pensiwn y cynllun wedi'i addasu. Mae GAD wedi rhagdybio y bydd cyfran yr aelodau eraill sy'n prynu buddion yn adlewyrchu bod yr aelodau a oedd yn gymwys ar gyfer yr ymarfer cyntaf, dros oedran pensiwn y cynllun wedi'i addasu, ac sydd hefyd yn gymwys ar gyfer yr ail ymarfer.
- Diffoddwyr tân eraill sydd o dan oedran pensiwn y cynllun wedi'i addasu. Unwaith eto, gan dybio bod cyfraddau yn unol â'r rhai ar gyfer y grŵp ymarfer cyntaf tebyg.



Gyda'i gilydd, mae hyn yn arwain at gyfradd fanteisio tybiedig o 50%. Er bod ystod eang o ganlyniadau posibl ar gyfer manteisio, mae GAD o'r farn bod y dull hwn yn defnyddio'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd i gael yr amcangyfrif gorau priodol.

Yn seiliedig ar y data sydd ar gael a'r rhagdybiaethau y mae'n ofynnol i GAD eu gwneud ar hyn o bryd, maent yn amcangyfrif mai'r cynnydd posibl mewn rhwymedigaeth o'r ail ymarferiad Matthew yw £14miliwn.

Fel yr amlinellwyd uchod mae ansicrwydd sylweddol iawn yn yr amcangyfrif rhwymedigaeth ychwanegol hwn ac mae'n debygol iawn y bydd profiad gwirioneddol yr awdurdod yn wahanol i'r rhagdybiaethau y mae GAD wedi'u gwneud. Gall y rhwymedigaeth amcangyfrifedig a nodir isod fod yn wahanol iawn i effaith wirioneddol yr ymarfer opsiynau ar ôl iddo ddod i ben.

O ystyried y meysydd o ansicrwydd data a amlinellir uchod, nododd GAD hydeimledd eu hamcangyfrif i ragdybiaethau amgen:

Niferoedd sy'n gymwys: Os yw'r boblogaeth gymwys yn y pen draw 10% yn uwch (neu'n is), yna gallai'r rhwymedigaethau gynyddu (neu leihau) tua 10%.

Cyfnod gwasanaeth cymwys: Os dechreuodd aelodau cymwys gyflogaeth bum mlynedd yn gynharach (neu'n hwyrach), gellir tanddatgan (neu orddatgan) y rhwymedigaethau tua 25%.

Cymhareb tâl gwirioneddol a thâl cyfeirio: Byddai newid o 10% yn y rhagdybiaeth hon yn newid y rhwymedigaethau tua 10%.

Manteisio: Os yw nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn 10% yn uwch (neu'n is) yna gellir tanddatgan (neu orddatgan) y rhwymedigaethau llif arian o tua 10%.

Ynghyd â'r rhagdybiaethau unigryw sy'n ofynnol ar gyfer yr ymarfer opsiwn, cyfrifwyd yr amcangyfrif atebolrwydd ychwanegol uchod gan ddefnyddio rhagdybiaethau demograffig ac ariannol sy'n gyson â'r datgeliadau a geir yn Atodiad B adroddiad GAD. Gellir dod o hyd i fanylion yr holl dybiaethau hyn yn Natgeliadau Pensiwn GAD 2022/23.



2021/22		Trafodiadau'r Gronfa Gyffredinol		2022/23	
Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £000	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân £000	Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – Costau'r Gwasanaethau		Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £000	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân £000
<i>Costau'r gwasanaethau, yn cynnwys:</i>					
2,865	19,170	Cost y gwasanaethau cyfredol		3,132	15,150
0	0	Cost gwasanaethau yn y gorffennol		0	0
0	1,360	Trosglwyddiadau i Mewn		0	670
47	0	(Enillion)/colledion trwy gwtogiadau		0	0
0	0	(Enillion)/colledion trwy setliadau		0	0
27	0	Treuliau gweinyddol		29	0
<i>Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi:</i>					
503	10,650	Traul llog net		594	13,720
3,442	31,180	Y cyfanswm y codir tâl amdano ar y (Gwarged) a'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau		3,755	29,540
Buddion ôl-gyflogaeth eraill y codir tâl amdanynt ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr					
<i>Ailfesuriad o rwymedigaeth y budd diffiniedig net, yn cynnwys:</i>					
(2,917)	0	Yr enillion o asedau cynllunio (ac eithrio'r swm a gynhwysir yn y traul llog net)		3,597	0
199	(20,810)	(Enillion) a cholledion actiwaraidd – profiad		7,321	29,020
(646)	0	(Enillion) a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig		(2,349)	(15,720)
(1,649)	(6,330)	(Enillion) a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau arianno		(36,895)	(170,760)
0	0	Symudiadau eraill yn y rhwymedigaeth/(ased)		0	0
(5,013)	(27,140)	Cyfanswm wedi'i godi ar Ddatganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		(28,326)	(157,460)
(1,571)	4,040	Cyfanswm wedi'i godi ar Ddatganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		(24,571)	(127,920)
Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn					
(3,442)	(31,180)	Gwrthdroi'r taliadau net y codir tâl amdanynt ar y Gwarged (neu'r Diffyg) o ran Darparu Gwasanaethau		(3,755)	(29,540)
Y Gwir swm y codir tâl amdano ar Falans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn:					
1,098		Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun		1,178	
	17,130	Buddion ymddeoliad sy'n daladwy i bensiynwyr			16,280



2021/22		Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydabyddir yn y Fantolen	2022/23	
Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £000	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân £000		Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £000	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân £000
(83,665)	(517,787)		Gwerth presennol yr ymrwymiad diffiniedig	(56,342)
61,837	0	Gwerth teg yr asedau cynllunio	60,263	0
(21,828)	(517,787)	Ased / (Rhwymedigaeth) net yn deillio o'r ymrwymiad budd diffiniedig	3,921	(373,587)

2021/22		Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun	2022/23	
Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £000	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân £000		Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £000	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân £000
57,986	0		Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	61,837
1,215	0	Incwm llog	1,736	0
		<i>Enillion/(colledion) ar sail ailfesuriad:</i>		
2,917	0	- Yr elw ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm a gynhwysir yn y traul llog net	(3,597)	0
1,098	17,130	Cyfraniadau gan y cyflogwr	1,178	16,280
456	0	Cyfraniadau gan y cyflogeion i'r cynllun	500	0
(1,808)	(17,130)	Buddion / trosglwyddiadau a dalwyd	(1,362)	(16,280)
(27)	0	Treuliau gweinyddol	(29)	0
61,837	0	Gwerth cau asedau'r cynllun	60,263	0



2021/22			2022/23		
Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £000	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân £000	Symudiadau yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun	Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £000	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân £000	
(82,483)	(530,877)	Balans agoriadol ar 1 Ebrill	(83,665)	(517,787)	
(2,865)	(19,170)	Cost y gwasanaethau cyfredol	(3,132)	(15,150)	
0	(1,360)	Trosglwyddiadau i Mewn	0	(670)	
(1,718)	(10,650)	Cost llog	(2,330)	(13,720)	
(456)	0	Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	(500)	0	
<i>Aiffesuriad o enillion a cholledion:</i>					
646	20,810	- Enillion/(colledion) actiwaraidd – profiad	2,349	(29,020)	
(199)	0	- Enillion/(colledion) actiwaraidd o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	(7,321)	15,720	
1,649	6,330	- Enillion/(colledion) actiwaraidd o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	36,895	170,760	
0	0	- Arall	0	0	
0	0	Cost Gwasanaethau yn y gorffennol	0	0	
(47)	0	Enillion/(colledion) trwy gwtogiadau	0	0	
0	0	Symudiad Arall	0	0	
1,808	17,130	Buddion/trosglwyddiadau a dalwyd	1,362	16,280	
(83,665)	(517,787)	Balans ar 31 Mawrth	(56,342)	(373,587)	



Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – Asedau yn cynnwys:

2021/22			Gwerth teg asedau'r cynllun	2022/23		
Wedi'i ddyfynnu £000	Heb ei ddyfynnu £000	Cyfanswm £000		Wedi'i ddyfynnu £000	Heb ei ddyfynnu £000	Cyfanswm £000
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod:						
1,051	0	1,051	Cyfrifon arian parod	434	0	434
1,051	0	1,051	Is-gyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	434	0	434
Ecwitiau:						
11,576	0	11,576	Y Deyrnas Unedig – wedi'i ddyfynnu	11,499	0	11,499
19,231	0	19,231	Dyfynnwyd yn Fyd-eang	24,617	0	24,617
4,044	0	4,044	Yr Unol Daleithiau	0	0	0
272	0	272	Canada	0	0	0
2,375	0	2,375	Japan	2,127	0	2,127
99	0	99	Y Môr Tawel	0	0	0
4,873	0	4,873	Marchnadoedd datblygol	4,857	0	4,857
2,220	0	2,220	Ewropeaidd ac eithrio'r Deyrnas Unedig	1,730	0	1,730
44,690	0	44,690	Is-gyfanswm yr Ecwitiau	44,830	0	44,830
Bondiau:						
822	0	822	Mynegai Llywodraeth y Deyrnas Unedig	325	0	325
4,910	0	4,910	Dosbarth 1 Arall	4,267	0	4,267
5,732	0	5,732	Is-gyfanswm y Bondiau	4,592	0	4,592
Eiddo:						
0	8,082	8,082	Cronfeydd Eiddo	0	8,105	8,105
0	8,082	8,082	Is-gyfanswm yr Eiddo	0	8,105	8,105
Dewisiadau Amgen:						
0	2,282	2,282	Dosbarth 1	0	2,302	2,302
0	2,282	2,282	Is-gyfanswm y Dewisiadau Amgen	0	2,302	2,302
51,473	10,364	61,837	Cyfanswm yr Asedau	49,856	10,407	60,263

Y sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd y rhwymedigaethau ar sail actiwaraid, gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn ddibynnol ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau, ac ati.

Amcangyfrifwyd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan gwmni Mercer, sy'n gwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae'r Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân wedi'i brisio gan Adran Actiwari y Llywodraeth (GAD). Mae'r amcangyfrifon ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed (yr LGPS) yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2022.



Roedd y rhagdybiaethau perthnasol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari fel a ganlyn:

2021/22	Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	2022/23
Rhagdybiaethau o ran marwolaethau		
<i>Hirhoedledd ar adeg ymddeol ar gyfer pensiynwyr cyfredol</i>		
23.0	Dynion	21.9
24.9	Menywod	24.1
<i>Hirhoedledd ar adeg ymddeol ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol</i>		
24.4	Dynion	23.3
27.1	Menywod	26.0
<i>Rhagdybiaethau eraill</i>		
3.3%	Cyfradd chwyddiant	2.7%
4.8%	Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	4.2%
3.4%	Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.8%
2.8%	Ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun disgowntio	4.8%
3.3%	Cyfradd ailbrisio CARE	2.7%
2021/22	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	2022/23
Rhagdybiaethau o ran marwolaethau		
<i>Hirhoedledd ar adeg ymddeol ar gyfer pensiynwyr cyfredol</i>		
21.5	Dynion	21.2
21.5	Menywod	21.2
<i>Hirhoedledd ar adeg ymddeol ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol</i>		
23.2	Dynion	22.9
23.2	Menywod	22.9
<i>Rhagdybiaethau eraill</i>		
3.00%	Cyfradd chwyddiant	2.60%
4.75%	Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	3.85%
3.00%	Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.60%
2.65%	Ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun disgowntio	4.65%
4.75%	Cyfradd ailbrisio CARE	3.85%

Hyd pwysedig amcangyfrifedig ymrwymiad y buddion diffiniedig yw 16 mlynedd ar gyfer Cynllun y Diffoddwyr Tân, ac 19 mlynedd ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r amcangyfrif o ymrwymiad y buddion wedi'u diffinio yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid a nodir yn y tabl uchod.

Efallai y bydd gan fathau eraill o rwymedi lefelau gwahanol o sensitifrwydd i'r rhagdybiaethau hyn; felly mae'r dadansoddiadau o'r sensitifrwydd, a welir isod, wedi'u pennu yn seiliedig ar fod newidiadau rhesymol bosibl yn digwydd i'r rhagdybiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd, ac yn tybio, yn achos pob newid, fod y rhagdybiaeth a ddadansoddiwyd yn newid tra bo'r holl rhagdybiaethau



eraill yn parhau'n ddigynfnewid. Er enghraifft, mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd yn tybio bod disgwyliad oes yn codi neu'n disgyn ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a bydd newidiadau o ran rhai rhagdybiaethau, o bosibl, yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisiau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraid, gan ddefnyddio'r dull credydu uned ragamcanol. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

Effaith y rhagdybiaethau ar yr ymrwymiad – y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

	Fel yr Adroddwyd £000	Y gyfradd ddisgownt Cynnydd o 0.1% £000	Chwyddiant Cynnydd o 0.1% £000	Twf Cyflog Cynnydd o 0.1% £000	Disgwyliad Oes Cynnydd 1 Flwyddyn £000	+/- Newid o 1% yn enillion buddsoddiad 2021/22	
						+1%	-1%
						£000	£000
Rhwymedigaethau	(56,342)	(51,460)	(59,016)	(56,841)	(57,487)	(56,342)	(56,342)
Asedau	60,263	60,263	60,263	60,263	60,263	60,867	59,659
(Diffyg) / Gwarged	3,921	8,803	1,247	3,422	2,776	4,525	3,317
Cost Ragamcanol y Gwasanaeth ar gyfer y Flwyddyn Ddilynol	1,298	1,102	1,413	1,298	1,331	1,298	1,298
Cost Ragamcanol y Llog Net ar gyfer y Flwyddyn Ddilynol	(216)	(497)	(86)	(191)	(160)	(245)	(187)

Effaith rhagdybiaethau ar y rhwymedigaeth – Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

	Yn ôl yr hyn a Adroddwyd £000	Y Gyfradd Ddisgowntio ar Rwymedigaethau Cynnydd o 0.5% £000	Cynnydd mewn Cyflogau Cynnydd o 0.5% £000	Disgwyliad Oes Cynnydd 1 Flwyddyn £000	Cynnydd mewn Pensiynau Cynnydd o 0.5% £000						
						Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	(373,587)	(346,727)	(378,727)	(382,727)	(398,727)

Yr Effaith ar Lifoedd Arian yr Awdurdod

Rydym yn cydnabod cost buddion ymddeoliad yng nghost y gwasanaethau yr adroddir amdanynt, pan fyddant yn cael eu hennill gan y cyflogeion, yn hytrach na phan gaiff y buddion eu talu yn y pen draw ar ffurf pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae'n ofynnol i ni ei godi yn ôl yr ardoll yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol y buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol ei thynnu'n ôl allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Cafodd y trafodiadau yn y tabl blaenorol eu gwneud yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac ym Malans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tabl uchod yn dangos y swm a gynhwysir yn y Fantolen sy'n deillio o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynlluniau o ran buddion wedi'u diffinio.



Nodyn 31 – Natur a Maint y Risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol

Mae gweithgarwch yr Awdurdod yn golygu ei fod yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- Risgiau credyd – y posibilrwydd y gallai partion eraill fethu talu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.
- Risgiau hylifedd – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod gyllid i fodloni ei ymrwymadau i wneud taliadau.
- Risgiau o ran y farchnad – y posibilrwydd o golled ariannol i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau o ran mesurau tebyg i'r gyfradd llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae rhaglen rheoli risgiau gyffredinol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol, ac yn ceisio lleihau'r effeithiau andwyol posibl ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu'r gwasanaethau. Cynhelir gweithgareddau rheoli risgiau ariannol yn unol â pholisïau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn Strategaeth Rheoli Flynyddol y Trysorlys. Mae'r Awdurdod yn darparu egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risgiau cyffredinol, yn ogystal â chanllawiau ysgrifenedig sy'n ymwneud â meysydd penodol, er enghraifft risgiau o ran cyfraddau llog, credyd a buddsoddi arian dros ben.

Risgiau Credyd

Mae risgiau credyd yn deillio o adneuo gyda banciau a sefydliadau ariannol; mae gwerth cynnig credyd i gwsmeriaid yr Awdurdod yn isel, ac nid ystyrir hyn yn risg.

Sicrheir bod y risg mor fach â phosibl trwy'r strategaeth Buddsoddi Blynyddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol na chaiff arian ei adneuo gyda sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni meini prawf credyd penodol. Mae'r symiau a fuddsoddir yn gyfyngedig i symiau darbodus a fforddiadwy, fel yr amlinellir yn y strategaeth a gymeradwywyd.

Y strategaeth bresennol yw buddsoddi'n fewnol, cyn belled ag y bo modd, gan felly leihau'r angen i fenthycu, a lleihau gwarged yr arian parod sydd ar gael i'w fuddsoddi, yn ogystal â'r cyfnodau y mae'r gwargedion hynny ar gael.

Mae'r Awdurdod yn fwyaf agored i risgiau credyd mewn perthynas â'i fuddsoddiadau gyda'i fanc. Mae profiad diweddar wedi dangos mai yn anaml y mae endidau o'r fath yn methu bodloni eu hymrwymadau. Mae yna risg o fethu adfer yr arian yn gysylltiedig â holl adneuo yr Awdurdod, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2023 fod hyn yn debygol o gael ei wireddu.

Risgiau Hylifedd

Mae'r Awdurdod yn monitro balans ei arian parod er mwyn sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Os bydd symudiadau annisgwyl yn digwydd, bydd yr Awdurdod yn gallu cyrchu benthyciadau yn rhwydd gan Swyddfa Rheoli Dyled y Deyrnas Unedig. Nid oes yna risg sylweddol na fydd yn gallu sicrhau cyllid i fodloni ei ymrwymadau o dan offerynnau ariannol. Yn lle hynny, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym i atgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fydd y cyfraddau llog yn anffafriol. Y strategaeth yw sicrhau bod benthyciadau yn aeddfedu o fewn y terfynau cymeradwy a ddangosir yn y tabl isod, a hynny trwy gyfuniad o gynllunio'n ofalus ar gyfer y benthyciadau newydd a godir, a gwneud ad-daliadau cynnar (lle y bo'n ddarbodus gwneud hynny).

Mae dadansoddiad o aeddfedrwydd y rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:



	Terfynau isaf a gymeradwywyd	Terfynau Uchaf a gymeradwywyd	Gwirioneddol	
			31 Mawrth 2023 £000	31 Mawrth 2023 %
Llai na blwyddyn	0%	30%	3,090	11%
Rhwng 1 a 2 flynedd	0%	30%	565	2%
Rhwng 2 a 5 mlynedd	0%	50%	6,500	24%
Rhwng 5 a 10 mlynedd	0%	75%	7,000	25%
Dros 10 mlynedd	25%	90%	10,465	38%
Cyfanswm			27,620	100%

	Terfynau isaf a gymeradwywyd	Terfynau Uchaf a gymeradwywyd	Gwirioneddol	
			31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2022 %
Llai na blwyddyn	0%	30%	153	1%
Rhwng 1 a 2 flynedd	0%	30%	2,600	12%
Rhwng 2 a 5 mlynedd	0%	50%	1,055	5%
Rhwng 5 a 10 mlynedd	0%	75%	5,000	22%
Dros 10 mlynedd	25%	90%	13,465	60%
Cyfanswm			22,273	100%

Risgiau o ran y Farchnad

Risgiau o ran y Gyfradd Llog

Mae'r Awdurdod yn agored i risgiau yn nhermau'r modd y mae'n dod i gysylltiad â symudiadau yn y gyfradd llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg rhwymedigaethau'r benthyciadau yn disgyn
- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiadwy – bydd cost y llog y codir tâl amdano ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiadwy – bydd incwm y llog a gredydir i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Ni chaff benthyciadau eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion neu golledion dibwys ar fenthyciadau ar gyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau i'r llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar gyfradd amrywiadwy yn cael eu postio i'r Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

Risgiau o ran Prisiau

Nid yw'r Awdurdod yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti, ac nid yw'n agored i risgiau o ran prisiau.

Risgiau o ran y Gyfnewidfa Dramor

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau ariannol a ddelir ar ffurf arian cyfred tramor, ac felly nid yw'n agored i golledion sy'n deillio o symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid.



Nodyn 32 – Rhwymedigaeth Amodol

Achos 'O'Brien / Sargeant'

Ym mis Rhagfyr 2018, traddododd y Llys Apêl ei ddyfarniad yn achos McCloud/Sargeant, gan gadarnhau'r farn bod y trefniadau diogelu trosiannol a gyflwynwyd gyda'r Pensiwn Diffoddwyr Tân newydd yn 2015 yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran.

Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynodd Trysorlys Ei Fawrhydi y Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol (y Bil) i Dŷ'r Arglwyddi. Mae'r Bil yn ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n nodi yn y gyfraith y modd y bydd y Llywodraeth yn dileu'r gwahaniaethu sydd yn niwygiadau 2015 (a elwir yn rhwymedi). Mae'r Bil yn symud trwy'r broses ddeddfwriaethol ar hyn o bryd, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022. Mae'r Bil yn cynnwys yr amserlenni ar gyfer gweithredi'r rhwymedi erbyn mis Hydref 2023 fan bellaf.

Ystyrir bod aelodau sydd wedi ymddeol neu sydd ar fin ymddeol cyn i'r trefniadau deddfwriaethol gael eu cwblhau, mewn sefyllfa o Niwed Uniongyrchol. Mae'r Gwasanaeth 'nawr yn wynebu penderfyniad ynghylch a ddylid prosesu achosion o Niwed Uniongyrchol cyn yr is-ddeddfwriaeth. Mae'r Gwasanaeth yn wynebu risg ddeublyg:

- Os na fydd y Gwasanaeth yn prosesu achosion o Niwed Uniongyrchol, mae yna berygl y bydd aelodau'n cymryd camau cyfreithiol.
- Os bydd y Gwasanaeth yn prosesu achosion o Niwed Uniongyrchol, mae yna risg ariannol yn gysylltiedig â chymhlethdodau treth posibl a allai godi yn sgil prosesu achosion o Niwed Uniongyrchol cyn y newidiadau gofynnol i ddeddfwriaeth.

Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd yr Aelodau y broses o fabwysiadu'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Materion yn ymwneud â Niwed Uniongyrchol. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, cafodd y Gwasanaeth wybod fod y Swyddfa Gartref wedi tynnu'n ôl ei chanllawiau anffurfiol sy'n ymwneud â'r gwaith o brosesu achosion o Niwed Uniongyrchol, a bod Trysorlys ei Fawrhydi wedi dweud na ddylai unrhyw achosion o Niwed Uniongyrchol gael eu prosesu cyn y bydd deddfwriaeth newydd i weithredu'r rhwymedi mewn grym. Mae'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith bellach wedi'i gohirio hyd nes y daw cyngor neu gyfarwyddyd cyfreithiol gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Mae'r Gwasanaeth wedi cyflogi eu Hymgynghorwyr Treth i ddarparu pecyn o gymorth sy'n ymwneud â materion treth achos adnabod ac mae'n gweithio gyda'i Weinyddwyr Cynllun i bennu goblygiadau ariannol prosesu achosion adnabod. Mae'r ymgynghoriad ar y newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol i weithredu unioni ar gyfer achos McCloud/Sargeant ar agor tan 23 Mehefin 2023 ac mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori gyda'r bwriad o ddechrau unioni ym mis Hydref 2023 yn unol â'r ddeddfwriaeth. Felly, ar hyn o bryd mae gwerth ac amseriad unrhyw all-lif yn anhysbys.

Aelodau Wrth Gefn Arbennig (O'Brien/Matthews)

Ym mis Tachwedd 2018, cafodd dyfarniad ar yr achos cyfreithiol yn ymwneud â barnwyr rhan amser (O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) effaith uniongyrchol ar yr achos cyfatebol ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn (Matthews). Cytunodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i estyn yr hawl i bensiwn i ddiffoddwyr tân cymwys i gynnwys gwasanaeth cyn mis Gorffennaf 2000. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gynnal ail ymarfer opsiynau. Ar hyn o bryd nid yw'n glir pryd y bydd yr ymarfer opsiynau yn dechrau, ac mae yna ansicrwydd ychwanegol ynghylch nifer yr aelodau a fydd yn dewis cymryd buddion a maint y budd y byddant yn dewis ei gael. Gan fod y broses ymgynghori yn dal i fynd rhagddi, ar hyn o bryd nid yw gwerth ac amseriad unrhyw all-lif yn hysbys.



Lwfansau Chwilio ac Achub Trefol (LCAT) (Booth ac Eraill yn erbyn GTACGC)

Ym mis Mawrth 2019, dyfarnodd yr Uchel Lys o blaid aelod a oedd yn herio'r diffiniad o gyflog pensiynadwy a ddefnyddid gan yr Awdurdod (Booth). Roedd y dyfarniad yn ymwneud â statws pensiynadwy lwfansau a geir gan rai diffoddwyr tân, a dyfarnodd yn benodol nad yw USAR yn bensiynadwy o hyd o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Yn wyneb canlyniad dyfarniad yr Uchel Lys, a chan fod yr Uchel Lys wedi canolbwyntio'n llwyr ar gysylltu'r lwfans USAR â contract sylfaenol unigolyn o dan un o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gwnaed cais i edrych ar ddewisiadau eraill fel bod aelodau o'r tîm USAR yn gallu cael mynediad at bensiwn y gweithle yn unol â Deddf Pensiynau 2008.

Gofynnodd y Gwasanaeth am gyngor cyfreithiol gan arbenigwyr ym maes Cyfraith Cyflogaeth a adolygodd gynlluniau pensiwn amgen y gallai personél USAR fod yn gymwys i ymuno â nhw, ac, ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael, ystyrir mai'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw'r cynllun mwyaf priodol. Fodd bynnag, gan fod USAR yn cael ei ariannu trwy Lywodraeth Cymru, ystyrir bod hyn yn fater Cymru gyfan, ac mae angen ymgynghori ymhellach cyn y gellir rhoi unrhyw newidiadau ar waith. Felly, ar hyn o bryd ni wyddys beth yw gwerth nac amseriad unrhyw all-lif.

Tribiwnlys Cyflogaeth

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed nifer fach o honiadau i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn erbyn yr Awdurdod, y mae pob un ohonynt wedi'u setlo yn ystod 2022/23. Rydym yn ymwybodol o un achos yn yr arfaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod 2023/24, ond nid yw'n bosibl amcangyfrif yn ddibynadwy y tebygolrwydd neu'r gwerth i'r Awdurdod os yw'r Tribiwnlys yn dyfarnu o blaid yr hawlwyr. Felly, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y datganiadau ariannol hyn.



Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

2021/22		2022/23
£000		£000
	Cyfraniadau sy'n Dderbyniadwy:	
	Cyflogwr:	
(5,731)	- Arferol	(6,197)
(167)	- Ymddeoliadau cynnar (salwch)	(223)
(2,773)	- Aelodau	(2,970)
<u>(8,671)</u>		<u>(9,390)</u>
(1,363)	Trosglwyddiadau unigol o gynlluniau eraill	(666)
(10,034)		(10,056)
	Buddion sy'n Daladwy:	
12,746	- Pensiwn	13,596
4,186	- Cyfnewidiadau a buddion cyfandaliadau ymddeoliad	2,683
155	- Cyfandaliad marwolaeth	0
<u>17,087</u>		<u>16,279</u>
	Taliadau i ymadawyr ac o ganlyniad iddynt:	
46	- Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau eraill	4
<u>17,133</u>		<u>16,283</u>
7,099	Diffyg am y flwyddyn cyn grantiau derbyniadwy gan Lywodraeth Cymru	6,227
(7,099)	Grant ategol Derbyniadwy gan Lywodraeth Cymru	(6,227)
<u>0</u>	Y swm net sy'n daladwy/dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn	<u>0</u>

Datganiadau o asedau net ar 31 Mawrth 2023

2021/22		2022/23
£000		£000
	Asedau Cyfredol:	
1,439	Y swm sy'n daladwy gan y Gronfa Gyffredinol	0
0	Y swm sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru	302
<u>1,439</u>	Cyfanswm yr Asedau Cyfredol	<u>302</u>
	Rhwymedigaethau Cyfredol:	
0	Y swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	(302)
(1,439)	Y swm sy'n daladwy i Lywodraeth Cymru	0
<u>(1,439)</u>	Cyfanswm y Rhwymedigaethau Cyfredol	<u>(302)</u>



Nodiadau I Gyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, ac mae'n cynnwys cynlluniau pensiwn 1992, 2006 a 2015, ynghyd â Chynllun Pensiwn Diwygiedig y Diffoddwyr Tân, ac fe'i gweinyddir gan yr Awdurdod. Cyflwynodd cynllun 2015 gyfraddau cyfraniadau newydd ar gyfer cyflogwyr a chyflogeion fel ei gilydd, ynghyd â gostyngiad o ran y buddion pensiwn. Bydd aelodau o gynlluniau 1992 a 2006, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf rhagnodedig, yn trosglwyddo i gynllun 2015 o dan drefniant tapr. Ar 1 Ebrill 2016, cyflwynwyd y Cynllun Pensiwn Diwygiedig a ddargedwir, a hynny yn ychwanegol at y cynlluniau gwreiddiol yn 1992, 2006 a 2015. Roedd y cynllun yn caniatáu i unigolion a gyflogwyd yn aelodau o staff ar alwad rhwng y blynyddoedd 2000 a 2006 brynu gwasanaeth yn ôl. Pe bai'r unigolion yn parhau i fod yn gyflogeion, yna gallent fanteisio ar y Cynllun Pensiwn Diwygiedig a ddargedwir, sy'n cynnig yr un gyfraddau o ran cyfraniadau â chynllun 1992.

Telir cyfraniadau'r cyflogeion a'r cyflogwr i'r Gronfa, a gwneir taliadau ohoni i'r pensiywyr. Mae lefelau cyfraniadau'r cyflogeion a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau cyflog pensiyndwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn destun ailbrisiadau pedair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Ni chaiff y cynllun ei ariannu, nid oes iddo unrhyw asedau buddsoddi, a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau sy'n dderbyniadwy trwy Grantiau Ategol gan Lywodraeth Cymru.

Mae trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun yn drosglwyddiadau o fuddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer cyflogeion newydd neu gyflogeion cyfredol, ac mae trosglwyddiadau allan yn drosglwyddiadau o fuddion ar gyfer cyflogeion sydd wedi gadael yr Awdurdod ac sydd wedi ymuno â chynllun pensiwn arall. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i mewn i'r gronfa, a'r costau hyn a nodir yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad o swm y Grant Ategol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, a thelir 80% o'r amcangyfrif yn ychwanegol at y gwarged/diffyg (ased/rhwymedigaeth) sy'n daladwy/dderbyniadwy o'r flwyddyn flaenorol. Telir hyn ym mis Awst bob blwyddyn. Fel y cyfryw, cyfatebir unrhyw ased/rwymedigaeth ar y Gronfa Bensiwn â gwerth cyfatebol ar fantolen yr Awdurdod. Roedd yr amcangyfrif ar gyfer 2022/23 yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân a fyddai'n ymddeol yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a nifer y blynyddoedd o wasanaeth; o hyn gellir amcangyfrif y taliadau cyfnewid a fyddai'n daladwy, ynghyd â'r taliadau pensiwn ychwanegol.

Mae'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd ar gyfer creu Cyfrif y Gronfa Bensiwn yn cyd-fynd â'r arfer a argymhellir, ac yn dilyn yr arferion hynny sy'n berthnasol i ddatganiadau sylfaenol yr Awdurdod.



Cyfraddau Cyfraniadau

O 1 Ebrill 2022 trosglwyddwyd holl aelodau CPDT 1992, CPDT Newydd 2006 a'r cynllun a Addaswyd (cynlluniau gwaddol) i gynllun 2015, felly'r canlynol yw'r unig gyfraddau cynllun sy'n daladwy o dan y Rheoliadau Pensiwn newydd. Mae unrhyw daliadau yr adroddir eu bod yn cael eu gwneud o dan y cynlluniau gwaddol at ddibenion prynu'n ôl yn unig.

O dan Reoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, roedd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer cynllun 2015 yn 27.3% o'r cyflog pensiynadwy, ac roedd cyfraddau'r cyflogeion yn unol â bandiau'r cyflog pensiynadwy y manylir arnynt isod:

Band Cyflog Pensiynadwy	% Cyfradd Cyfraniadau 2022/23
Hyd at ac yn cynnwys £27,818	11.0
Mwy na £27,818 a hyd at £51,515, yn gynwysedig	12.9
Mwy na £51,515 a hyd at £142,500, yn gynwysedig	13.5
Mwy na £142,500	14.5

Nid yw Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn gwneud cyfrif am rwymedigaethau ar gyfer pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd y cyfnod gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion ymrwymadau hirdymor y pensiynau i'w gweld yn Nodyn 30 i'r datganiadau ariannol craidd (£373.587 miliwn ar 31 Mawrth 2023, a £517.787 miliwn ar 31 Mawrth 2022).



Rhestr o Dermau a Ddefnyddir yn y Datganiad o Gyfrifon

ADDASIAD Y FLWYDDYN FLAENOROL

Addasiadau perthnasol sy'n gysylltiedig â blynyddoedd blaenorol, ac sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu neu o gywiro cyfeillionadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol arferol nac addasiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

AMHARIAD

Gostyngiad yng ngwerth ased anghyfredol i werth sy'n is na'i swm adferadwy, sef yr uchaf o werth teg yr ased llai'r costau o'i werthu a'i werth mewn defnydd.

ARCHWILIAD O GYFRIFON

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol yr Awdurdod.

ARIANNU CYFALAF

Cyllid a godir i dalu am wariant cyfalaf. Mae yna amrywiaeth o ddulliau ar gael i ariannu gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthycu, lesio, ariannu refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn, a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi.

ASED

Eitem sydd o werth i'r Awdurdod mewn termau ariannol. Caiff asedau eu categorio'n rhai cyfredol neu anghyfredol:

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu'n colli ei werth materol ym mhen y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae ased anghyfredol yn darparu buddion i'r Awdurdod ac i'r gwasanaethau y mae'n eu darparu am gyfnod o fwy na blwyddyn, a gall fod yn ddiriaethol, e.e. gorsaf dân; neu'n anniriaethol, e.e. trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol.

ASEDAU ANNIRIAETHOL

Gellir diffinio eitem anniriaethol (heb fod yn ffisegol) yn ased y mae'r mynediad at fuddion economaidd y dyfodol y mae'n eu cynrychioli yn cael eu rheoli gan yr endid sy'n adrodd. Mae asedau anniriaethol yr Awdurdod yn cynnwys trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol.

ASEDAU DIGWYDDIADOL

Mae ased digwyddiadol yn ased posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth ddim ond yn cael eu cadarnhau gan un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt o dan reolaeth lwyr yr Awdurdod.

ASEDAU SEILWAITH

Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Awdurdod ac na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, a lle nad yw gwariant yn adferadwy ond trwy ddefnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Un enghraifft yw hydrantau.

BENTHYCA

Defnyddio arian parod a ddarperir gan barti arall i dalu am wariant, a hynny ar sail cytundeb i adalu'r arian parod yn y dyfodol; fel arfer, codir tâl llog yn ychwanegol at y swm gwreiddiol.

BUDDION YMDDEOL

Pob math o ystyriaeth a roddir gan yr Awdurdod yn gyfnewid am wasanaethau a ddarperir gan gyflogeion, ac sy'n daladwy ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben.



BUDDION YN ÔL DISGRESIWN (PENSIYNAU)

Buddion ymddeol, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, contractiol nac adeiladol i'w dyfarnu, ac a ddyfernir o dan bwerau yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod, er enghraifft Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau yn ôl Disgrisiwn) 1996.

BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)

Gwneir cyfrif o fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau ddatgelu'r gyfran y gellir ei phriodoli o asedau'r cynllun pensiwn, sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau sylfaenol, a hynny yn rhan o'r gofynion datgelu sy'n berthnasol i fuddion ymddeol.

BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (PWLB)

Asiantaeth y Llywodraeth Ganolog sy'n darparu benthyciadau am flwyddyn neu ragor i awdurdodau ar gyfraddau llog nad ydynt ond ychydig yn uwch na'r rheiny y gall y llywodraeth eu benthycia ei hun.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

CONTRACT HIRDYMOR

Contract a wnaed ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased unigol sylweddol neu ddarparu gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd, gyda'i gilydd, yn gyfystyr ag un prosiect), lle mae'r amser a gymerir i gwblhau'r contract, i raddau helaeth, yn golygu bod gweithgarwch y contract yn perthyn i fwy nag un cyfnod cyfrifyddu.

COST GWASANAETHAU YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)

Yn achos cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun sy'n ymwneud â gwasanaeth cyflogai mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod cyfredol, a hynny o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddion ymddeol.

COST LLOG (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun â buddion wedi'u diffinio, y cynnydd disgwylidig yn ystod cyfnod gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun am fod y buddion un cyfnod yn nes at gael eu setlo.

COST Y GWASANAETHAU CYFREDOL (PENSIYNAU)

Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth cyflogeion yn y cyfnod cyfredol.

CREDYDWR

Y swm sy'n ddyledus gan yr Awdurdod ar gyfer gwaith a wnaed, nwyddau a ddaeth i law, neu wasanaethau a roddwyd o fewn y cyfnod cyfrifyddu, ond na thalwyd taliad ar eu cyfer erbyn diwedd y cyfnod cyfrifyddu hwnnw.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Croniad o wargedion, diffygion a dyraniadau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Cronfeydd Wrth Gefn o natur refeniw ar gael, a gellir eu gwario neu eu clustnodi yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod. Ni ellir defnyddio rhai Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf, e.e. Cyfrif Addasu'r Cyfalaf, i fodloni'r gwariant cyfredol.

CRONIADAU

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm a gwariant refeniw a chyfalaf a enillwyd, neu yr aed iddynt, yn ystod y flwyddyn ariannol, ond nad oedd y taliad gwirioneddol wedi dod i law, neu nad oedd wedi cael ei dalu, ar 31 Mawrth.



CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Yr holl symiau a dalwyd i gyflogai neu sy'n daladwy iddo, y symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyhyd ag y gellir codi tâl am y symiau hynny ar dreth incwm y Deyrnas Unedig), a gwerth ariannol unrhyw fuddion eraill. Symiau nad oeddent ar ffurf arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn eithriedig.

CYFNOD CYFRIFYDDU

Y cyfnod o amser a gwmpesir gan y cyfrifon; fel arfer, cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifyddu yw dyddiad y Fantolen.

CYLLIDEB

Y rhagolwg o wariant refeniw net a chyfalaf dros y cyfnod cyfrifyddu.

CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Cynlluniau pensiwn lle mae'r buddion a geir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a delir, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

DARPARIAETH

Swm a neilltuir yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion yn y dyfodol, sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd, ond bod eu symiau neu eu dyddiadau yn amhenodol.

DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

Yr isafswm y mae'n rhaid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan yr Awdurdod.

DATGANIAD O INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Cyfrif yr Awdurdod sy'n adrodd am y gost net ar gyfer blwyddyn y swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, ac sy'n arddangos y modd y mae'r gost honno wedi cael ei hariannu o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

DERBYNIADAU CYFALAF

Yr elw o waredu tir ac asedau anghyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd, a hynny o fewn rheolau a bennir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw.

DIBRISANT

Mesur o ran cost traul, defnydd neu ostyngiad arall yn oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol yr Awdurdod yn ystod y cyfnod cyfrifyddu, pa un a yw'n deillio o ddefnydd, treigl amser neu ddarfodiad, a hynny naill ai trwy newidiadau ym maes technoleg neu newidiadau eraill.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad y rhoddir awdurdod i'r Datganiad o Gyfrifon gael ei gyhoeddi.

DYLEDWR

Y swm sy'n ddyledus i'r Awdurdod am waith a wnaed, nwyddau a ddaeth i law, neu wasanaethau a roddwyd o fewn y cyfnod cyfrifyddu, ond na chafwyd taliad amdanynt erbyn diwedd y cyfnod cyfrifyddu hwnnw.



ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD

Yn achos cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, mae'r rhain yn cynnwys y newidiadau mewn gwargedion neu ddiffygion actiwaraidd sy'n codi oherwydd:

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (enillion a cholledion yn ymwneud â phrofiad); neu
- Bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

ENILLION DISGWYLIEDIG O ASED AU PENSIWN

Yn achos cynllun â buddion wedi'u diffinio a ariennir, dyma'r gyfradd gyfartalog o enillion, gan gynnwys incwm a newidiadau mewn gwerth teg, ond net o dreuliau'r cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes yr ymrwymiad cysylltiedig o ran yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

GRANTIAU'R LLYWODRAETH

Grantiau gan y llywodraeth naill ai ar gyfer gwariant refeniw neu gyfalaf, a hynny yn ôl y galw am gydymffurfedd yn y gorffennol neu yn y dyfodol ag amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgarwch yr Awdurdod. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun penodol, neu gallant gefnogi gwariant refeniw yr Awdurdod yn gyffredinol.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant a ddefnyddir i gaffael ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased anghyfredol presennol, yn hytrach na'i gynnal yn unig.

GWARIANT REFENIW

Y treuliau dyddiol o ddarparu gwasanaethau.

GWERTH NET AR BAPUR

Swm yr asedau anghyfredol a gynhwysir yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu eu gwerth cyfredol llai y symiau cronrus sy'n darparu ar gyfer dibrisiant.

GWERTH TEG

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodiad hyd braich.

LES CYLLID

Les sydd, i raddau helaeth, yn trosglwyddo i'r lesddeiliad yr holl risgiau a gwobrau sydd ynghlwm wrth fod yn berchennog ar ased anghyfredol.

MANTOLEN

Datganiad o'r asedau, y rhwymedigaethau a'r balansau eraill a gofnodwyd ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu.

OES DDEFNYDDIOL

Y cyfnod y bydd yr Awdurdod yn cael buddion o'r defnydd o ased anghyfredol.

PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ceir diffiniad manwl o bartïon cysylltiedig yn IAS 24. I ddibenion yr Awdurdod, ystyrir bod partïon cysylltiedig yn cynnwys aelodau'r Awdurdod, y Prif Weithredwr, ei Gyfarwyddwyr, ynghyd ag aelodau agos eu teuluoedd ac aelodau yn y cartref.



POLISIÂU CYFRIFYDDU

Mae'r rhain yn pennu polisiâu a gweithdrefnau a ddefnyddir gan yr Awdurdod i baratoi ei Ddatganiadau Ariannol, gan gynnwys dulliau, systemau mesur a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno datgeliadau.

PRYDLES WEITHREDOL

Les lle mae'r berchnogaeth ar yr ased anghyfredol yn aros gyda'r lesddeiliad.

RHWYMEDIGAETH

Rhwymedigaeth yw lle mae ar yr Awdurdod daliad i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn daladwy neu y gellid ei alw yn ystod y cyfnod cyfrifyddu dilynol, e.e. credydwr neu arian parod a ordynnwyd.
- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd, trwy drefniant, yn daladwy y tu hwnt i'r flwyddyn ddilynol ar ryw adeg yn y dyfodol, neu i'w dalu gan swm blynyddol dros gyfnod o amser.

RHWYMEDIGAETH DDIGWYDDIADOL

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol naill ai:

- Yn ymrwymiad posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth ddim ond yn cael eu cadarnhau gan un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt o dan reolaeth lwyr yr Awdurdod; neu
- Yn rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd, neu na ellir mesur swm yr ymrwymiad mewn modd sy'n ddigon dibynadwy.

RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN

Rhwymedigaethau cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer alldaliadau sy'n ddyledus ar ôl dyddiad y prisiad. Mae rhwymedigaethau'r cynllun, sy'n cael eu mesur gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedol, yn adlewyrchu'r buddion y mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu ar gyfer gwasanaeth hyd at ddyddiad y prisiad.

TRAFODIADAU PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'r Datganiad o Arfer a Argymhellir yn ei gwneud yn ofynnol datgelu unrhyw drafodiadau perthnasol rhwng yr Awdurdod a phartïon cysylltiedig, a hynny er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r achosion pan fydd trafodiadau o'r fath yn digwydd, ynghyd â'r symiau a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â hynny.

Y RHAGLEN GYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.



Awdurdod Tan ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Authority

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023



Cynnwys

Cmwpas y Cyfrifoldeb	93
Trefniadau Llywodraethu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	94
Fframwaith Llywodraethu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	96
Sicrwydd Llywodraethu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2022/23	97
Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.....	97
Y Prif Swyddog Tân Newydd a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.....	97
Gwerthoedd Craidd.....	97
Y Cyfansoddiad	98
Y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151	99
Egwyddor B: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid.....	99
Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu Effeithiol	99
Cynllunio Cyllideb Gorfforaethol gydag Aelodau Awdurdod Tân ac Awdurdodau Lleol Cyfansoddol.....	100
Arolwg Stopio, Cychwyn a Pharhau ac Archwiliad Diwylliannol.....	100
Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.	101
Ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	101
Strategaeth Caffael	101
Cynllunio Ariannol yn y Tymor Canolig.....	101
Egwyddor D: Pennu'r ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf.	102
Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan o'r arweinyddiaeth honno.	103
Ein Pobl	103
Egwyddor F: Rheoli risg a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.	104
Rheoli Risg	104
Rheoli Ariannol	104
Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i gyflawni atebolrwydd effeithiol.	104
Adolygiad o Weithdrefn chwythu'r chwiban	105
Barn ar lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei darparu.....	106
Adolygiad o Effeithiolrwydd	106
Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol	106
Y Gwasanaeth Archwilio Allanol.....	107
Sicrwydd Strategol a Sicrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth.....	108
Materion llywodraethu i fynd i'r afael â nhw yn 2023/24	109
Y Datganiad Llywodraethu	110



Atodiad 1: Y manylion diweddaraf ar y camau gweithredu sy'n weddill o'r blynyddoedd blaenorol	111
Atodiad 2: Materion llywodraethu i fynd i'r afael â nhw yn 2023/24.....	121

Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â'r canllawiau a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef y fframwaith '*Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol*' 2016. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r fframwaith a'i saith egwyddor graidd o lywodraethu da i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn unol â pholisi a blaenoriaethau y cytunwyd arnyn nhw.



Cmwpas y Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod ein dyletswyddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol. Rydym am wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio a'i wario yn y ffordd orau. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'n cyllid yn y ffordd fwyaf economaidd, effeithlon, effeithiol a chyfiawn.

Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan roi ystyriaeth i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfiawnder. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, a gynlluniwyd iddyn nhw gyfrannu i'r eithaf i'r saith nod llesiant cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy.

O ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sefydlwyd hefyd fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad llywodraeth leol, gan gynnwys darparu polisi aml-leoliad ar gyfer cyfarfodydd.

Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau cyffredinol, mae'r Aelodau ac Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu materion yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â stiwardio'r adnoddau sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod Tân, ynghyd â'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau, yn darparu ac yn cyflawni arweinyddiaeth strategol, sy'n galluogi'r Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod Tân, yn unol ag egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd democrataidd.

Mae'r gwaith o reoli a chyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth Tân o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan Swyddogion y Gwasanaeth Tân dan reolaeth ac arweiniad cyffredinol y Prif Swyddog Tân, sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â'r fframwaith llywodraethu a phenderfyniadau'r Awdurdod Tân a'i Bwyllgorau. Wrth wneud hynny, mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gynorthwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.



Trefniadau Llywodraethu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddangos bod gan yr Awdurdod y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i gyflawni'r trefniadau hynny mewn modd effeithiol. Mae'r Awdurdod yn darparu cyfeiriad strategol clir, ac mae ei Gyfansoddiad yn diffinio rôl yr Aelodau a Swyddogion yn glir. Mae Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad wedi ymrwymo i sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn. Mae swyddogaethau allweddol y Cyfansoddiad a'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal Cod Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod wedi'u nodi isod.

Cyfansoddiad	Diben y Cyfansoddiad yw nodi'r modd y mae'r Awdurdod Tân yn gweithio a'r modd y mae'n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn iaith glir.
Yr Awdurdod Tân	Cymeradwyo'r Cyfansoddiad (gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol). Cymeradwyo polisiâu allweddol a'r fframwaith cyllidebol. Prif gorff gwneud penderfyniadau yr Awdurdod. Yn cynnwys 25 o Aelodau (gan gynnwys y Cadeirydd).
Y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad	Darparu sicrwydd annibynnol i'r Awdurdod Tân o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, y fframwaith rheoli risgiau a'r amgylchedd rheoli mewnol. Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad yr Aelodau. Gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân o ran cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac mewn amgylchiadau priodol, cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol.
Y Pwyllgor Rheoli Adnoddau	Yn gyfrifol am reoli adnoddau'r Awdurdod Tân yn effeithiol, yn benodol, rheoli a datblygu adnoddau ariannol, dynol ac eiddo'r Awdurdod ynghyd â'i swyddogaethau caffael, ei Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), adnoddau dynol a thrafnidiaeth, yn ogystal â'i gysylltiad â rhanddeiliaid.
Y Tim Arweinyddiaeth Weithredol	Gweithredu'r fframwaith polisi a chyllidebol a bennir gan yr Awdurdod Tân, a rhoi cyngor i'r Awdurdod Tân o ran datblygu materion polisi a chyllidebol yn y dyfodol. Goruchwyllo'r broses o weithrediad polisiâu a darparu gwasanaethau.
Y Swyddog Adran 151	Sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithlon ac yn ddarbodus yn ariannol. Gweinyddu materion ariannol. Yn atebol am ddatblygu a chynnal fframwaith llywodraethu, risg a rheoli'r Awdurdod Tân. Cyfrannu at reolaeth a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân.



Y Swyddog Monitro	<p>Adrodd ar achosion neu achosion tebygol o fynd yn groes i unrhyw ddeddf neu reol gyfreithiol.</p> <p>Adrodd ar unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder lle mae'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi cynnal ymchwiliad.</p> <p>Cynnal a diweddarau'r Cyfansoddiad.</p> <p>Sefydlu a chynnal cofrestrau o fuddiannau aelodau a rhoddion a lletygarwch a gafwyd.</p> <p>Cynghori Aelodau ar ddehongli'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.</p> <p>Cyfrannu at reolaeth a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân.</p>
Archwilio Mewnol	<p>Darparu sicrwydd annibynnol a barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risgiau a rheoli'r Awdurdod Tân.</p> <p>Cyflwyno rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gweithgarwch atal ac ymchwilio i dwyll.</p> <p>Gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r gwaith o reoli risg.</p>
Rheolwyr	<p>Yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal a gweithredu fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Awdurdod Tân.</p> <p>Cyfrannu at waith rheoli a llywodraethu corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân trwy gyfarfodydd misol y Gyfarwyddiaeth, cyfarfodydd Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a Fforymau Ymateb Gweithredol.</p>



Fframwaith Llywodraethu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Datblygwyd Cod Llywodraethu Corfforaethol gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn 2010 a'i ddiwygio yn 2017 yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ynghyd â'r ffordd y mae'n rhoi cyfrif i'r gymuned, yn cysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i fonitro cyflawniad ei Nodau Strategol ac ystyried a yw'r Gwasanaeth wedi darparu gwasanaethau priodol, effeithiol ac effeithlon. Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ac fe'i cynlluniwyd i reoli risg hyd at lefel resymol. Mae'n gwerthuso tebygolrwydd ac effaith gwireddu risg a nodir, ac yn rheoli pob risg yn briodol.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn dwyn ynghyd mewn un ddogfen yr holl drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd gan y Gwasanaeth ar waith. Mae Fframwaith y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn seiliedig ar y canllawiau ar arfer gorau a nodir yn y Fframwaith CIPFA /SOLACE, Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol, ac fe'i defnyddir i adolygu trefniadau llywodraethu yr Awdurdod yn flynyddol.

Mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei lywodraethu yn erbyn Fframwaith CIPFA/SOLACE, Cyflawni Llywodraethu Da (2016) yn ystod 2022/23. Cafodd yr adolygiad blynyddol o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ei lywio gan reolwyr o fewn y Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwiliad mewnol ac allanol, yn ogystal ag asiantaethau arolygu eraill. Cafodd y Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, a oedd wedi'i adolygu a'i ddiwygio, ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad ym mis Mai 2023.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sicrwydd o ran y modd y mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â saith egwyddor graidd ac is-egwyddorion Fframwaith y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

Mae'r datganiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.



Sicrwydd Llywodraethu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2022/23

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn nodi ymrwymiad yr Awdurdod i egwyddorion llywodraethu da. Gellir gweld copi o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol llawn yr Awdurdod, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, ar wefan y Gwasanaeth. Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg byr o'r sicrwydd llywodraethu a wnaed gan yr Awdurdod yn ystod 2022/23.

[Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.](#)

Y Prif Swyddog Tân Newydd a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol

Yn ystod 2022/23, yn dilyn penodiad Prif Swyddog Tân newydd ym mis Ebrill 2022, mae Tîm Arweinyddiaeth Weithredol y Gwasanaeth wedi gweld newid sylweddol, gyda Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Prif Swyddog Cynorthwyol, Pennaeth Adnoddau Corfforaethol a Thrysorydd Dros Dro newydd i gyd yn dechrau yn eu swydd yn ystod y cyfnod hwn.

Er bod dyfodiad arweinydd newydd o fewn sefydliad weithiau yn cyd-fynd â gofynion newydd ynghyd â chyfnod o ansefydlogrwydd, mae cryn dipyn o waith wedi cymryd lle yn ystod 2022/23 i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i ddysgu, datblygu a gwella yn ystod y cyfnod pontio. Mae'r meysydd allweddol lle gellir gweld hyn yn cynnwys:

- Cynhaliwyd adolygiad o strwythur sefydliadol y Gwasanaeth i hwyluso gwneud penderfyniadau symlach, cynyddu atebolrwydd a chyflwyno strwythur mwy effeithiol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd y Gwasanaeth.
- Mae'r Prif Swyddog Tân wedi trefnu i baratoi tri phegyn gwaith sydd wedi'u cynllunio i ganolbwyntio ar feysydd o'r Gwasanaeth lle mae angen blaenoriaethu gwelliannau.
 - Hyfforddiant gweithredol.
 - Llywodraethu sefydliadol a gwneud penderfyniadau.
 - Gwobrwyo a chydabod staff.
- Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol wedi adolygu eu hymrwymadau cyfathrebu, gan ymroi i gyfathrebu mewn modd cyson, addysgiadol a chydweithredol gyda'r Gwasanaeth a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu i gefnogi'r ethos parhaus o fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol am bob penderfyniad strategol.

Gwerthoedd Craidd

Mae Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd y Gwasanaeth wedi'u cyhoeddi'n glir yn ei Gynllun Strategol 2022-27.

Gan nodi ei hymrwymadau allweddol dros y pum mlynedd nesaf, mae'r Cynllun Strategol ar gyfer 2022-27 yn cael ei gefnogi gan Gynllun Gwella Busnes Blynyddol, sy'n amlinellu ei Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cyhoeddwyd Cynllun Strategol y Gwasanaeth 2022-27 a'i Gynllun Gwella Busnes Blynyddol 2022/23 ar 1 Ebrill 2022.



Oherwydd oedi cyn derbyn y Fframwaith Perfformiad diwygiedig gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei gyflwyno yn lle gofynion perfformiad yr Awdurdodau Tân ac Achub a ddiddymwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; bydd proses ddiwygiedig o gynllunio ar gyfer gwelliant bellach yn cael ei hystyried yn ystod 2023/24. Bydd hyn yn cael ei gefnogi trwy ddechrau adolygiad o Weledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd y Gwasanaeth, a gynhelir gan Dîm Arweinyddiaeth Weithredol y Gwasanaeth, a fydd yn cael ei lywio gan Archwiliad Diwylliannol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd a disgwylir ei gwblhau yn gynnar yn 2023/24.

Yn ystod 2022/23, mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cynnal ymarfer meincnodi yn erbyn y Safonau Tân sydd newydd eu cyhoeddi. Wedi'i gynllunio, ei ddatblygu a'i gyhoeddi gan Fwrdd Safonau Tân, pwrpas y Safonau hyn yw goruchwyllo nodi, trefnu, datblygu a chynnal Safonau proffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub. Er nad yw'n berthnasol yn ddeddfwriaethol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, nid oes amheuaeth eu bod yn perthyn yn uniongyrchol â'r gwaith y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud, ac o'r herwydd, mae'r ymarfer hwn wedi bod yn hanfodol wrth nodi meysydd i'w gwella.

Un o'r Safonau allweddol a ddadansoddwyd yn ystod 2022/23 yw Safon y Cod Moeseg. Deallir bod gan Wasanaeth Tân ac Achub sydd wedi gwreiddio ac sy'n ymroddedig i'r egwyddorion moesegol ac ymddygiadau proffesiynol a gynhwysir yn y Cod Moeseg Craidd (Cod Craidd), ddiwylliant gweithio mwy cadarnhaol ac mae'n gwella ansawdd ei wasanaeth i'r cyhoedd yn barhaus. Mae dysgu o'r dadansoddiad o'r bylchau a wnaed yn erbyn y Safon hon wedi galluogi'r Gwasanaeth i fod yn hyderus ei fod yn dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol ac mae hefyd wedi nodi meysydd lle gellir gwella hyn yn y dyfodol.

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, a gyhoeddir yn y Cyfansoddiad, yn amlinellu'r ymddygiad a ddisgwylir gan yr Aelodau. Fel rhan o'u proses gynefino, mae pob Aelod a phersonél newydd hefyd yn derbyn trosolwg o'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddyn nhw. Cefnogir hyn ymhellach gan y Strategaeth Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddi Flynyddol sy'n sicrhau bod Aelodau'n derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar gyfer eu rôl.

Yn olaf, bydd proses gwerthuso perfformiad y Gwasanaeth, a adolygwyd yn 2021/22 yn unol â Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ac a ddaw i rym yn 2023/24, yn gofyn i'r holl bersonél a Rheolwyr nodi sut y maen nhw'n teimlo bod personél wedi ymddwyn mewn perthynas â Gwerthoedd y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Y Cyfansoddiad

Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod ar gael i'r cyhoedd ar dudalennau'r Awdurdod ar wefan y Gwasanaeth ac mae'n esbonio sut mae'r Awdurdod yn gweithredu a sut mae'n gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyfansoddiad yn destun adolygiadau cynhwysfawr o bryd i'w gilydd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn ôl yr angen.

Ym mis Rhagfyr 2022, derbyniodd a chymeradwyodd yr Awdurdod bapur yn cynnig newidiadau i adrannau o'i Gyfansoddiad.

Roedd y diwygiadau'n canolbwyntio ar gymhwyso Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad yn ffurfiol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2021, sy'n nodi ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod wneud a chyhoeddi trefniadau i sicrhau y gellir mynychu holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân, y Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu a chyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Adnoddau o bell (hynny yw, galluogi pobl nad ydyn nhw yn yr un lle i fynychu'r cyfarfod) – y cyfeirir atyn nhw hefyd fel 'cyfarfodydd aml-leoliad'.

I gefnogi hyn, mae Ystafell Caer, ystafell gyfarfod y Gwasanaeth ym Mhencadlys y Gwasanaeth ar gyfer cynnal cyfarfodydd yr Awdurdod, bellach wedi'i hadnewyddu i hwyluso cyfarfodydd hybrid yr Awdurdod.



Y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151

Darperir cyngor cyfreithiol ac ariannol ar bob adroddiad priodol ar gyfer penderfyniadau gan Glerc/Swyddog Monitro'r Awdurdod a Swyddog Adran 151 yr Awdurdod, sy'n cymeradwyo holl waith papur cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgorau cyn eu cyhoeddi. Mae'r adroddiadau'n amlinellu'n glir y cyngor ariannol a chyfreithiol sy'n cael ei ddarparu i'r Aelodau i ddibenion gwneud penderfyniadau ac mae trefniadau ar waith i sicrhau bod penderfyniadau'r Awdurdod, a'r rheswm y gwneir y penderfyniadau hynny, yn cael eu cofnodi.

Mae gan Swyddog Monitro'r Awdurdod ddyletswydd benodol i sicrhau bod yr Awdurdod, ei Swyddogion a'i Aelodau Etholedig yn cynnal y safonau ymddygiad uchaf. Mae gan Swyddog Monitro'r Awdurdod hefyd ddyletswydd benodol i roi gwybod am faterion y mae'n credu sy'n anghyfreithlon neu'n debygol o fod yn anghyfreithlon neu'n gyfystyr â chamweinyddu. Felly, mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cyfreithlondeb a thegwch y penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod. Mae'r Swyddog Monitro hefyd yn sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol ar waith i hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng Swyddogion ac Aelodau, a chofnodi a chyhoeddi'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn ffurfiol.

Yn dilyn penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yn ei Bwyllgor Penodiadau ym mis Tachwedd 2021, a gadarnhawyd gan yr Awdurdod Tân llawn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2021; mae'r Awdurdod, yn ystod 2022/23, wedi newid ei drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau Swyddog Adran 151, a ddarparwyd o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Caerfyrddin er 2018. Cafodd Pennaeth Cyllid y Gwasanaeth gynnig, a'i dderbyn, y cyfle i gael ei benodi'n Drysorydd Dros Dro (Swyddog Adran 151) rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023. Cefnogodd yr Awdurdod Tân hefyd benodiad y Swyddog Adran 151 presennol (Cyngor Sir Caerfyrddin - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) o Bennaeth Cyllid y Gwasanaeth fel Dirprwy Swyddog Adran 151 yn y cyfnod dros dro hyd at 31 Gorffennaf 2022. Diwygiwyd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2022/23 i ddarparu mentora a hyfforddi ariannol strategol i'r Swyddog Adran 151 Dros Dro am y cyfnod 1 Awst 2022 i 30 Medi 2022 i gynorthwyo gyda'r broses bontio. Yn ystod 2023/24 bydd yr Awdurdod yn gwerthuso'r trefniant dros dro cyn penderfynu sut y bydd cyfrifoldebau Swyddog Adran 151 yn cael eu cyflawni o 1 Awst 2023.

[Egwyddor B: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid.](#)

Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu Effeithiol

Mae gan yr Awdurdod gylch cynllunio corfforaethol sefydledig sy'n cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei effeithiolrwydd.

Fel rhan o ymrwymiad yr Awdurdod i welliant parhaus, rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021, ymgynghorodd y Gwasanaeth ar ei broses gynllunio ddiwygiedig ar gyfer 2022 ymlaen, a oedd yn cynnwys ei Gynllun Strategol ar gyfer 2022-27, sy'n cyfeirio at ei Ymrwymadau tymor hwy; a'i Gynllun Gwella Busnes Blynyddol 2022/23, sy'n amlinellu ei Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cafodd yr adborth a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori ei ystyried gan y Swyddogion a'r Aelodau a'i hymgorffori, lle bo'n briodol, yn y Cynllun Strategol diwygiedig terfynol ar gyfer 2022 -27 a Chynllun Gwella Busnes Blynyddol 2022/23, a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2022.

Yn yr un modd, fe gynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus 10 wythnos, a gafodd ei gynllunio i gasglu adborth ar gynnwys y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023/24 (drafft), rhwng 27 Medi 2022 - 06 Rhagfyr 2022. Derbyniwyd tua 50,000 o gysylltiadau a 251 o ymatebion fel rhan o'r broses hon a lle bo'n briodol, fe'u hymgorfforwyd o fewn drafft terfynol Cynllun Gwella Busnes



Blynnyddol 2023/24. Cafodd y Cynllun hwn ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2023 a bydd yn weithredol ar 1 Ebrill 2023.

Dros y deuddeg mis nesaf, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cynnal adolygiad o'i broses cynllunio corfforaethol, a fydd yn cynnwys adolygu ei Weledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd, a fydd yn cael ei gefnogi'n rhannol gan ganlyniad Archwiliad Diwylliannol; adolygiad o nifer y Cynlluniau y mae'n eu hwyluso ar hyn o bryd; ffocws ar gynllunio tymor hwy a gosod amcanion; ac ailosod ffocws at ddiben dilys y Gwasanaeth.

Cynllunio Cyllideb Gorfforaethol gydag Aelodau Awdurdod Tân ac Awdurdodau Lleol Cyfansoddol

Mae Strategaeth Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Gwasanaeth yn amlinellu dull y Gwasanaeth o gyfathrebu, gan gynnwys trosolwg o randdeiliaid allweddol y dylid cyfathrebu â hwy a'r mecanwaith mwyaf priodol i sicrhau cyfathrebu ac a Chysylltu effeithiol â grwpiau targed allweddol. Drwy gydol 2022/23, mae Bwrdd Gweithredol yr Awdurdod, ynghyd â Swyddog Adran 151 Dros Dro yr Awdurdod, wedi cymryd rhan mewn sawl gweithdy Cynllunio Cyllideb Gorfforaethol gydag aelodau etholedig er mwyn nodi'r gofyniad ardoll ar gyfer 2023/24. Mae'r broses ymgynghori hon hefyd wedi cynnwys darparu cyflwyniadau yng nghyfarfodydd Awdurdodau Lleol Cyfansoddol, yn ogystal â chyfarfod â Thrysoryddion Awdurdodau Lleol Cyfansoddol.

Arolwg Stopio, Cychwyn a Pharhau ac Archwiliad Diwylliannol

Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae'r Gwasanaeth yn atebol i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ac o'r herwydd, mae llywodraethu effeithiol yn ganolog i wella'r broses o wneud penderfyniadau. Nid yw atebolrwydd yn ymwneud â chymryd cyfrifoldeb yn unig – mae'n golygu ein bod yn ymrwmo i gyfres o gamau gweithredu, agweddau, dyheadau a disgwyliadau, sy'n sefydlu sut yr ydym yn arwain ac yn rheoli, y gwerth y gallwn ei ychwanegu at ein Gwasanaeth presennol yn ogystal ag ysgogi unrhyw arloesedd yr ydym yn dymuno ymgymryd ag ef.

Gan gydnabod hyn, cychwynnodd y Prif Swyddog Tân a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ar ddau ddarn o waith yn ystod 2022/23, a gynlluniwyd i ddeall mwy am y Gwasanaeth a barn ei staff.

Roedd yr un cyntaf, sef yr Arolwg Stopio/Cychwyn/Parhau wedi'i gynllunio i ddeall yr hyn yr oedd staff y Gwasanaeth yn credu bod y Gwasanaeth yn ei wneud yn dda a dim cystal; yr hyn y mae angen iddo wneud mwy ohono; a'r hyn y dylai roi'r gorau i'w wneud. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar staff ac yn eu hannog i feddwl am yr hyn yr oedd ei angen i ddechrau ei wneud - yr hyn y gallai ei gyflwyno i wella prosesau busnes i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn Wasanaeth effeithiol ac effeithlon i'w gymunedau. Daeth yr arolwg i ben ddiwedd mis Gorffennaf 2022 ac wedi hynny mae'r Gwasanaeth wedi dadansoddi'r ymatebion ac wedi cyhoeddi adroddiad yn manylu ar y canfyddiadau, cyfres o argymhellion a'r camau nesaf ar gyfer y cam gweithredu.

Bwriad yr ail, sef Archwiliad Diwylliannol, a ymrwymwyd iddo gan y Prif Swyddog Tân ar ddechrau ei gyfnod ym mis Ebrill 2022, yw cael gwell dealltwriaeth o'r arferion, y trefniadau arferol, y gwerthoedd a'r ymddygiadau sy'n sail i'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn mynd ati i ddarparu ei wasanaethau.

Ers ymrwmo i'r darn hwn o waith, mae'r sefyllfa o ran y Gwasanaethau Tân ac Achub (FRS) ledled y DU wedi newid gyda chanlyniadau'r adolygiad diwylliannol annibynnol ar Frigâd Dân Llundain a'r honiadau cyhoeddus mwy diweddar mewn perthynas ag ymddygiad amhriodol personél o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, gan greu sefyllfa hynod heriol i'r sector. Mae'r ffocws hwn wedi datblygu ymhellach fyth gyda chyhoeddi Adroddiad Sbotolau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) ym mis Mawrth 2023 ar



Wasanaethau Tân ac Achub yn ymwneud â Diwylliant a Chynhwysiant y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n cynnwys 35 Argymhelliad i'w gweithredu gan y Gwasanaethau Tân ac Achub. O'r herwydd, ni allai cyhoeddi'r arolwg hwn fod wedi bod yn fwy amserol. Yn wir, gan lansio ym mis Chwefror 2023, mae'r broses hon yn dal i fod yn y cam casglu data cyn i'r ymatebion gael eu casglu, eu dadansoddi a'u ffurfio.

[Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.](#)

Ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n croesawu ei ddyletswyddau a'i rôl fel partner statudol ar ei chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Datblygwyd Cynllun Strategol 2022-27 y Gwasanaeth yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i ystyried effaith hirdymor y penderfyniadau a wneir ganddo ar ei gymunedau. Mae'r Cynllun hefyd yn tynnu sylw at sut mae ymrwymadau strategol y Gwasanaeth yn cyfrannu at saith Nod Llesiant y Ddeddf; a sut y bydd y Gwasanaeth yn ystyried ac yn ymgorffori, lle bo'n briodol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'i phum ffordd o weithio wrth gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant.

Mae'r Gwasanaeth yn bartner statudol ar chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'n parhau i chwarae rhan allweddol yn y broses o ffurfio pob un o'r chwe Chynllun Llesiant Lleol wedi'u diweddarau yn ystod 2022/23, sy'n cynrychioli cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth hefyd yn cymryd rhan mewn sawl grŵp cyflawni a gweithredu ar draws pob un o'i chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan sicrhau bod yr amcanion a nodwyd fel meysydd partneriaeth blaenoriaeth yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

Mae Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd y Gwasanaeth ynghyd ag ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn dylanwadu'n fawr ar drefniadau'r Gwasanaeth o ran cynllunio ar gyfer gwella. Caiff Cynlluniau Gwasanaeth eu hadolygu'n flynyddol a'u diwygio yn unol ag adborth gan staff, aelodau'r cyhoedd, asiantaethau partner a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Comisiynwyr ac Archwilwyr. Mae adroddiadau cynnydd rheolaidd ar faterion perfformiad hefyd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu a Phwyllgor Rheoli Adnoddau yr Awdurdod bob chwarter.

Strategaeth Caffael

Mae adolygiad llawn o Strategaeth Gaffael Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru wedi'i gynnal a'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan Dîm Arweinyddiaeth Wasanaeth y Gwasanaeth ym mis Awst 2022.

Mae Lleihau Carbon, Cynaliadwyedd a Gwerth Cymdeithasol bellach wedi'u hymgorffori yn y broses gaffael lle bo hynny'n berthnasol.

Cynllunio Ariannol yn y Tymor Canolig

Dilynwyd proses gosod cyllideb gadarn yn 2022/23 a oedd yn cynnwys Swyddogion, Aelodau a chyfranogiad gan gyrff cynrychioliadol.

Cafodd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Gwasanaeth, sy'n cefnogi'r broses o gynllunio dyraniad adnoddau a gwariant, ac sy'n darparu'r fframwaith ariannol ar gyfer cefnogi'r broses o osod y gyllideb, ei hystyried gan yr Awdurdod Tân ym mis Medi 2022.

Cafodd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Gwasanaeth, sy'n cynnwys gofyniad y Gyllideb Refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod ynghyd â'r Rhaglen Gyfalaf pum mlynedd, eu



hadrodd i'r Pwyllgor Rheoli Adnoddau ym mis Tachwedd 2022, yr Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2022, ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ym mis Chwefror 2023.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf, fel y'i cymeradwyir gan yr Aelodau bob blwyddyn, yn nodi cyd-destun hirdymor y Gwasanaeth lle caiff penderfyniadau ynghylch gwariant a buddsoddiad cyfalaf eu gwneud. Mae hefyd yn darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod Rhaglen Gyfalaf bum mlynedd y Gwasanaeth yn cyd-fynd ag ymrwmiadau strategol y Gwasanaeth fel y'u hamlinellir yn ei Gynllun Strategol. Mae Grŵp Rheoli Cyfalaf ac Asedau Strategol y Gwasanaeth wedi cyfarfod bob chwarter drwy gydol 2022/23 i fonitro ac adolygu'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, fel y'i cymeradwyir yn flynyddol gan yr Aelodau, yn nodi'r terfynau a'r rheolaethau sydd i'w cymhwyso wrth fenthyca a buddsoddi arian. Mae'n cynnwys Dangosyddion Darbodus y Cyfalaf sy'n dangos effaith ariannol penderfyniadau gwariant cyfalaf fel y gellir penderfynu a yw'r penderfyniadau hynny'n fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae hefyd yn cynnwys Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys sy'n gosod cyfyngiadau ar benderfyniadau Rheoli'r Trysorlys er mwyn sicrhau y gwneir y penderfyniadau hynny yn unol ag arfer da.

Cyflwynwyd adroddiadau monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Rhaglenni Gyfalaf, a oedd yn crynhoi'r gwir wariant diweddaraf a'r alldro a ragwelwyd, i'r Pwyllgor Rheoli Adnoddau yn chwarterol drwy gydol y flwyddyn.

Cwblhawyd y Datganiad o Gyfrifon Blynnyddol Drafft ar gyfer 2021/22 erbyn 31 Mai 2022 a derbyniwyd y fersiwn archwiledig derfynol wedi hynny gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2022, a chyflwynwyd yr adroddiad archwilio diamod yn y cyfarfod hwn hefyd.

Cyflwynwyd canllawiau cyllideb diwygiedig i Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth ym mis Ebrill 2022.

Cyflwynwyd hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys hefyd i'r Awdurdod Tân a Swyddogion sy'n ymwneud â'r swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn ddyddiol, ym mis Ionawr 2023.

[Egwyddor D: Pennu'r ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf.](#)

Mae Aelodau Etholedig yr Awdurdod yn ymwneud yn fanwl â gwaith o graffu ar ddata perfformiad yr adroddir arno yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ac yng nghyfarfodydd yr Awdurdod llawn. Fel yr amlinellir eisoes yn Egwyddor A, mae'r Awdurdod, trwy benodi'r Swyddog Monitro, yn sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol ar waith i hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng y Swyddogion a'r Aelodau; tra bod cynllun Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi'n glir rôl a chyfrifoldebau'r Aelodau a'r Swyddogion, gan sicrhau bod penderfyniadau gwybodus ac effeithiol yn cael eu gwneud gan yr Awdurdod.

Cynlluniwyd Amcanion Gwella a Llesiant y Gwasanaeth, a amlinellir yn ei Gynllun Gwella Busnes Blynnyddol 2022/23, ar y cyd ag Aelodau a chyrrf cynrychioliadol mewn cyfarfodydd Cyllidebu a Chynllunio Corfforaethol, a gynhelir trwy gydol y flwyddyn i drafod y gofynion o ran cynllunio'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud rhagolygon at ddibenion cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod proses cynllunio ar gyfer gwella y Gwasanaeth yn cyd-fynd â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Gwasanaeth.

Cefnogwyd y broses Ymgynghori gan Gynllun Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu. Rhoddwyd adroddiad llawn oedd yn manylu ar ganfyddiadau ac argymhellion y broses ymgynghori, i'r Awdurdod Tân ym mis Chwefror 2022, lle yr amlinellwyd y modd yr ymgorfforwyd unrhyw



newidiadau o ganlyniad i'r broses ymgynghori yn fersiwn derfynol y Cynlluniau, a gyhoeddwyd wedi hynny ar 1 Ebrill 2022.

Defnyddir dull tebyg i ddatblygu Cynllun Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd, Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Safonau'r Gymraeg y Gwasanaeth, a hynny er mwyn sicrhau y cedwir at yr holl ganllawiau statudol a bod yr holl amcanion yn cael eu cyflawni.

Cyflwynir adroddiadau monitro chwarterol, sy'n nodi cynnydd a pherfformiad yn erbyn yr Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2022/23, gan gynnwys diweddariadau ar ddangosyddion perfformiad strategol ac allweddol y Gwasanaeth i'r Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu. Mae Asesiad Perfformiad Blynyddol, sy'n rhoi trosolwg o berfformiad hyd at ddiwedd y flwyddyn, hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân a'i gyhoeddi er mwyn i Archwilio Cymru ei archwilio'n flynyddol.

Derbyniwyd tystysgrifau cydymffurfio gan Archwilio Cymru mewn perthynas â chyhoeddi Asesiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2022 ac Amcanion Gwella a Lles yr Awdurdod ar gyfer 2022/23.

O ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghyd â diddymu'n rhannol fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhagwelir y bydd yn ofynnol i'r Gwasanaeth adolygu ei brosesau cynllunio corfforaethol yn ystod 2023/24, a hynny er mwyn cyd-fynd â fframwaith perfformiad diwygiedig sydd i'w gyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

Mae Adroddiadau Cynnydd y Gwasanaeth ar Berfformiad a Gwelliant ar gyfer 2022/23, ynghyd ag Adroddiadau Cynnydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Gwasanaeth ar gyfer 2022/23, Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd y Gwasanaeth ac Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg y Gwasanaeth, ar gael ar wefan y Gwasanaeth.

[Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan o'r arweinyddiaeth honno.](#)

Ein Pobl

Mae'r Gwasanaeth yn cynnal prosesau cadarn o ran cynllunio gweithlu strategol er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyflogi'r nifer cywir o bobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r amcanion a nodir yn ei gynlluniau corfforaethol. Mae cynllunio'r gweithlu strategol wedi'i ymgorffori yn y sefydliad, ac wrth ddadansoddi data'r gweithlu gellir nodi gofynion staffio'r dyfodol mewn modd rhagweithiol.

Wedi'i gomisiynu gan yr Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2021, mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn ar broses gwerthuso swyddi ar gyfer staff cynorthwyol trwy gydol 2022/23. O'r 227 o swyddi a werthuswyd fel rhan o'r broses, nodwyd bod 134 o swyddi sydd angen cynnydd mewn cyflog a phenderfynwyd bod gan 93 o swyddi lefelau cyflog a oedd yn gymesur â disgwyliadau'r rôl. Er na nodwyd bod unrhyw swyddi angen gostyngiad mewn cyflog, mae proses apelio ar y gweill, y disgwylir iddi ddod i ben erbyn haf 2023.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal gofynion y Wobr Iechyd Corfforaethol a chynhelir profion ffitrwydd ar gyfer yr holl Staff Gweithredol bob dwy flynedd fel rhan o ddull Cymru gyfan ar gyfer ffitrwydd diffoddwyr tân gweithredol. Mae rhaglen asesu ffitrwydd ar gyfer staff gweithredol wedi'i hymgorffori'n llawn yn y Gwasanaeth a darperir offer ffitrwydd ym mhob Gorsaf Dân. Mae cynlluniau hyfforddi Risg-gritigol, ynghyd ag Adolygiadau o Ddatblygiad Unigol, yn sicrhau bod pobl yn cael yr hyfforddiant a'r datblygiad priodol i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd cymwys a diogel.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn bartner cofrestredig i Strategaeth Datblygu Sefydliadol Cymru Gyfan, gyda llwybrau gyrfa wedi'u mapio ar gyfer pob sector yn y sefydliad. Adolygwyd



proses gwerthuso perfformiad y Gwasanaeth yn 2022/23 yn unol â Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân gyda gwaith yn dod i ben yn awr, yn barod i lansio proses gwerthuso newydd yn ystod 2023/24.

Mae Grŵp Gweithlu Strategol y Gwasanaeth hefyd wedi cwrdd yn rheolaidd drwy gydol 2022/23, yn ogystal â Phanel Trosglwyddo a Dyrchafu a Phanel Cyngori ar Ffitrwydd y Gwasanaeth.

[Egwyddor F: Rheoli risg a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.](#)

Rheoli Risg

Mae'r Adran Risg Corfforaethol yn cynnal Polisi Rheoli Risgiau'r Gwasanaeth a methodoleg gysylltiedig. Mae'r Polisi Rheoli Risg yn amlinellu dyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer Staff y Gwasanaeth ac Aelodau Etholedig fel ei gilydd.

Er mwyn cydlynu ei drefniadau ar gyfer materion yn ymwneud â rheoli risg, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu Grŵp Rheoli Risg Busnes pwrpasol. Mae'r grŵp hwn, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Rheoli Risgiau a Gwelliant yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o bob un o Gyfarwyddiaethau'r Gwasanaeth a'r Awdurdod Tân.

Yn dilyn y cyfarfodydd hyn darperir adroddiad wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Gofrestr Risgiau Busnes y Gwasanaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad bob chwarter.

Mae'r fethodoleg graddio risgiau sylfaenol, a ddefnyddir gan y grŵp yn deillio o gyhoeddiad yn 2004 gan Drysorlys Ei Mawrhydi, sef 'The Orange Book – Management of Risk – Principles and Concepts'.

Yn achos unrhyw risg a nodir ar y Gofrestr Risgiau Busnes, mae yna drywydd archwilio a sail resymegol wedi'i dogfennu ynghylch pam y nodwyd y risg a pha gamau lliniaru sydd ar waith gan y Gwasanaeth fel rhan o'i fesur rheoli risg.

Caiff diweddariadau'r Gofrestr Risgiau Busnes a'r 'risgiau' cyfredol eu cyfleu i'r personél yn ôl yr angen, gyda hyfforddiant rheoli risgiau parhaus yn cael ei ddarparu gan yr Adran Risgiau Corfforaethol.

Bu Grŵp Rheoli Risgiau Busnes y Gwasanaeth yn monitro cynnydd mewn perthynas â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2022/23 a chynnydd o ran prosesau Archwilio Mewnol ac Allanol y Gwasanaeth hefyd.

Rheoli Ariannol

Cafodd Rheolau Gweithdrefn Ariannol yr Awdurdod, a gyhoeddir yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod, eu hadolygu a'u diwygio yn ystod 2020/21. Cyflwynwyd y Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig i'r Pwyllgor Rheoli Adnoddau ym mis Ebrill 2021 ac i'r Awdurdod Tân llawn fel rhan o'r Cyfansoddiad diwygiedig ym mis Mehefin 2021.

[Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i gyflawni atebolrwydd effeithiol.](#)

Mae Datganiad Llywodraethu Blyneddol yr Awdurdod yn rhoi sicrwydd bod gan yr Awdurdod y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol. Cyhoeddwyd Datganiad Llywodraethu Blyneddol yr Awdurdod ar gyfer 2021/22 ar 31 Mai 2022 a'i gyflwyno i'r



Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023. Mae Cod Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn cefnogi datblygiad Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod. Adolygwyd a diwygiwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2022/23 ar y cyd â'r Aelodau a'r Swyddogion yn ystod 2022/23 ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad ym mis Mai 2023.

Mae cyllid yn eitem sefydlog sydd wedi'i chynnwys ar agenda pob un o gyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth, Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, a gynhelir yn fisol. Caiff adroddiadau ariannol, gan gynnwys pennu a monitro'r gyllideb a'r Datganiad o Gyfrifon, hefyd eu hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Adnoddau ac Archwilio a Phwyllgor Craffu ar Berfformiad yr Awdurdod Tân. Darparwyd trosolwg llawn o drefniadau cynllunio'r Gwasanaeth yn Egwyddor C.

Darparwyd hyfforddiant ariannol ar Reoli'r Trysorlys i Aelodau a Swyddogion ym mis Ionawr ym mis Ionawr 2023, a hynny gan Ymgynghorydd Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod, sef *Link Asset Services*.

Cyhoeddir cofnodion, gan gynnwys penderfyniadau a wneir ym mhob un o gyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgorau, ar wefan allanol y Gwasanaeth.

Adolygiad o Weithdrefn chwythu'r chwiban

Gan gydnabod bod gan ei staff hawl i amddiffyniad penodol os byddan nhw'n gwneud datgeliad er budd y cyhoedd ynghylch gweithredoedd eu cyflogwr neu drydydd parti, ac yn wir y buddion amhrisiadwy o annog eu gweithlu i wneud unrhyw ddatgeliadau o'r fath i'w gallu i aros yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, mae gan y Gwasanaeth Weithdrefn Chwythu'r Chwiban effeithiol ar waith.

Yn ystod 2022/23, cynhaliodd yr adran Adnoddau Dynol, ar y cyd â Swyddog Monitro'r Awdurdod, adolygiad o'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban, gan sicrhau ei bod yn parhau'n addas i'r diben, yn ddeddfwriaethol gadarn ac yn hygyrch i'r rhai sy'n teimlo bod angen ei defnyddio. Yn dilyn yr adolygiad hwn, cyflwynwyd y Weithdrefn ddrafft i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod a'i chymeradwyo ganddo ym mis Rhagfyr 2022.



Barn ar lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei darparu.

Adolygiad o Effeithiolrwydd

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei lywio gan waith y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ac Uwch-swyddogion eraill yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu. Cefnogir y gwaith gan adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol, ac ystyrir hefyd argymhellion gan aseswyr sy'n gymheiriaid i ni.

Mae effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu yn defnyddio tystiolaeth a sicrwydd gan y canlynol:

- Yr Awdurdod Tân
- Y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ac Uwch-swyddogion priodol
- Y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion
- Y Pwyllgor Rheoli Adnoddau
- Y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad
- Y Pwyllgor Safonau
- Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Y Gwasanaeth Archwilio Allanol

Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Adran Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi darparu'r swyddogaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dilyn ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996. Cytunir ar Gynllun Archwilio Mewnol tair blynedd gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Adnoddau a chaiff ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad. Mae'r cynllun tair blynedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn i adlewyrchu'r amgylchiadau a'r blaenoriaethau cyfredol.

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015 a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Rheolwr Archwilio ddarparu barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau'r Awdurdod o ran rheoli ri, atal twyll a llywodraethu.

Cytunwyd ar y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 â'r Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad ym mis Ebrill 2022. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad wedi derbyn adroddiadau cynnydd ar gyflawni'r cynllun ynghyd ag adroddiadau Archwilio Mewnol terfynol a gyhoeddwyd trwy gydol 2022/23.

Hyd yma, mae saith Adroddiad Terfynol ac un Adroddiad Drafft wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â Chynllun Archwilio 2022/23. Yn ogystal, cwblhawyd dau adolygiad yn ymwneud â 2021/22 yn ystod 2022/23. O'r adroddiadau hyn, roedd y lefelau sicrwydd a neilltuwyd yn ddau "uchel", saith "derbyniol" ac un "isel". Ar gyfer yr adroddiad a gafodd sicrwydd "isel" roedd pum argymhelliad a gweithredwyd yr holl gamau y cytunwyd arnyn nhw yn ystod 2022/23. Bwriedir cynnal archwiliad dilynol ar gyfer y swyddogaeth hon yn gynnar yn 2024/25.



Darparodd y Pennaeth Archwilio Mewnol, fel rhan o Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar Archwiliad Mewnol 2022/23, a fydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad ym mis Gorffennaf 2023, y farn gyffredinol ganlyinol:

“Ni all unrhyw system reoli ddarparu sicrwydd pendant yn erbyn colledion neu gamddatganiadau perthnasol, ac ni all y gwasanaeth Archwilio Mewnol ddarparu'r sicrwydd hwnnw chwaith. Bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau sylweddol o ran y prosesau rheoli risgiau, llywodraethu na rheoli.

Wrth ddod i'r farn gyffredinol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- canlyniadau'r holl waith a wnaed fel rhan o'r Rhaglen Archwilio Fewnol 2022/23.
- canlyniadau gwaith a wnaed fel rhan o Raglen Archwilio Fewnol 2021/22, a ddaeth i ben yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y llynedd.
- canlyniadau camau gweithredu dilynol Adolygiadau Archwilio Mewnol o'r flwyddyn gyffredol a blynyddoedd blaenorol; ynghyd â
- cydnabyddiaeth o'r camau gweithredu gan y Rheolwyr (yn enwedig y rheiny yr ystyrir eu bod yn berthnasol).

Yn fy marn i, mae gan yr Awdurdod amgylchedd rheoli **DERBYNIOL** yn ei lle mewn perthynas â'r systemau ariannol sylfaenol a adolygwyd. Mae trefniadau Llywodraethu clir gyda chyfrifoldebau Rheoli a Strwythurau Pwyllgorau diffiniedig ar waith ac, yn gyffredinol, mae'r fframwaith rheoli yn gadarn ac yn cael ei weithredu'n weddol gyson. Mae gan yr Awdurdod Gyfansoddiad sefydledig, ac mae wedi datblygu Polisiâu a chymeradwyo Rheoliadau Ariannol sy'n darparu cyngor a chanllawiau i'r holl staff ac aelodau.

Lle cafodd gwendidau eu nodi trwy adolygiad Archwilio Mewnol, rydym wedi gweithio gyda'r rheolwyr i gytuno ar gamau unioni priodol ynghyd ag amserlen ar gyfer gwella”.

Aethpwyd i'r afael ag argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol drwy gynlluniau gweithredu adrannol mewnol fel y bo'n berthnasol. Mae manylion llawn y sicrwydd a ddarparwyd gan y Rheolwr Archwilio ynghyd â'r cynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion yn Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23.

Y Gwasanaeth Archwilio Allanol

Caiff trefniadau archwilio allanol y Gwasanaeth eu hwyluso gan Archwilio Cymru mewn perthynas ag Archwilio Cyfrifon; Gwerth am Arian; Gwelliant Parhaus; a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Cyflwynwyd adroddiadau archwilio a thystysgrifau cydymffurfio i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad a'r Awdurdod Tân yn ystod 2022/23, yn ôl y gofyn.

Mae Archwilio Cymru, fel yr archwilydd allanol i'r Awdurdod, yn adolygu ac yn rhoi sylwadau ar yr agweddau ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, systemau Rheolaeth Ariannol Mewnol a safonau ymddygiad ariannol, a thwyll a llygredigaeth.

Yn ystod 2022/23 yn unol ag amserlenni statudol, cyflwynodd yr Awdurdod Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 heb ei archwilio i Archwilio Cymru i'w archwilio. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Yn dilyn y broses archwilio, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad diamod ar y datganiadau ariannol ym mis Gorffennaf 2022.

Trwy archwilio'r wybodaeth reoli, rheolau'r gweithdrefnau ariannol a'r cyfarwyddiadau ariannol, yr archebion sefydlog dan gontract, y trefniadau gweinyddol (gan gynnwys gwahanu dyletswyddau)



a gwaith goruchwylio'r rheolwyr, a hynny trwy archwiliad allanol, cafwyd sicrwydd cyffredinol mewn perthynas â'r gwaith o reoli materion ariannol yr Awdurdod a'u gweinyddu'n briodol, *a'i fod yn ddigonol i ddarparu barn archwilio yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol cyffredol ac i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol* .

Sicrwydd Strategol a Sicrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith yr Uwch-reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes, a chan sylwadau a wneir gan y Gwasanaeth Archwilio Allanol ac asiantaethau adolygu eraill.

Mae Datganiad CIPFA ar Rôl Prif Swyddog Ariannol Llywodraeth Leol (2016) yn mynnu bod sicrwydd yn cael ei roi ar nifer o drefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r sefydliad gan gynnwys rheolaeth ariannol, adrodd yn ol, y ffordd yr eir ati i wneud penderfyniadau, cydymffurfedd â chodau perthnasol a dylanwad y Prif Swyddog Cyllid yn y sefydliad. Ystyriwyd y rhain yng nghyd-destun y Datganiad hwn a sefydlwyd bod trefniadau'r Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion CIPFA.

Mae gan yr Awdurdod broses asesu sicrwydd cynhwysfawr ar waith, trwy'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, sy'n sicrhau bod y data electronig yn ddiogel ac wedi'i ffurfweddu i'r arfer gorau cyffredol er mwyn diogelu'r sefydliad. Mae canlyniadau'r sicrwydd hwn yn darparu barn gadarnhaol, ond mae cyfleoedd i wella'r amgylchedd rheolaeth fewnol er mwyn lliniaru rhagor ar y risgiau.

Cafodd y rhaglen Archwilio Mewnol, y cyfeirir ati mewn paragraffau cynharach, sicrwydd gan Fwrdd Gweithredol y Gwasanaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer rheoli eu meysydd risg craidd cydnabyddedig. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol am y gwaith o reoli risg ac am effeithiolrwydd rheolaeth. Cafodd y trafodaethau hyn hefyd eu llywio gan yr adroddiadau sicrwydd rheolaidd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad gan y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro, a'r Gwasanaeth Archwilio Allanol.



Materion llywodraethu i fynd i'r afael â nhw yn 2023/24

Yn ystod y deuddeg mis nesaf, bydd y Gwasanaeth yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'r cymunedau hynny y mae'n eu gwasanaethu.

Dan arweiniad Tîm Arweinyddiaeth Weithredol y Gwasanaeth, bydd canlyniad Archwiliad Diwylliannol y Gwasanaeth yn llywio Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd diwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth. Gan gydnabod pwysigrwydd llywodraethu sefydliadol da a gwneud penderfyniadau, bydd adolygiad o strwythur cyfarfodydd y Gwasanaeth, ei brosesau gwneud penderfyniadau, a'r modd y mae'n cyflawni yn erbyn cyfres o gamau gweithredu, agweddau, dyheadau a disgwyliaid, hefyd yn cael ei gwblhau yn ystod 2023/24, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i ddechrau yn ystod 2022/23.

Bydd effaith gostyngiadau gwariant yn y sector cyhoeddus a'r setliadau a gafwyd gan ei awdurdodau lleol cyfansoddol yn parhau i gael eu hystyried yn ofalus gan yr Awdurdod wrth benderfynu ar ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Bydd newidiadau i ddeddfwriaethau pensiynau a threthi yn parhau i fod yn her i'r Gwasanaeth ac mae'r gallu i ddelio â materion cymhleth â'r adnoddau presennol yn parhau i fod yn destun pryder.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan Lywodraeth Cymru yn ei drafodaethau ynghylch cyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru newydd, unrhyw adolygiadau thematig newydd a wneir gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, ac unrhyw newidiadau eraill i'r modd yr ydym yn cael ein llywodraethu ac yn cynghori'r Awdurdod ar unrhyw oblygiadau i'r Gwasanaeth.

Rydym yn cynnig, yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, y dylid cymryd camau gweithredu sy'n ymwneud â'r materion uchod a materion eraill er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach a rhoi sicrwydd i'n hunain bod gennym weithdrefnau, prosesau a threfniadau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn gwbl atebol. Mae Cynllun Gweithredu sy'n crynhoi'r dull arfaethedig, y Swyddogion Cyfrifol a Dyddiadau Targed wedi'i atodi yn Atodiad 2. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a byddwn yn monitro'r broses o'u rhoi ar waith fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Mae diweddariad ar y camau gweithredu sy'n weddill o Gynlluniau Gweithredu blynyddoedd blaenorol wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.



Y Datganiad Llywodraethu

Mae'r Awdurdod o'r farn bod ei drefniadau llywodraethu ar gyfer 2022/23 yn parhau i gael eu hystyried yn addas i'r diben. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn nodi'n fanwl Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod, sy'n gyson â Fframwaith CIPFA/SOLACE Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016). Mae'r Awdurdod wedi asesu'r trefniadau y manylir arnynt yn y Cod, a gall gadarnhau eu bod ar waith.

Felly, barn y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yw bod yr adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 wedi bod yn foddhaol ar y cyfan. Credwn fod y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod y Llywodraethu Corfforaethol yn y sefydliad hwn yn effeithiol, bod y trefniadau presennol yn addas i'r diben, a bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i gyflawni ei nodau strategol a'i ganlyniadau arfaethedig ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r sefydliad yn gweithredu mewn modd darbodus, effeithiol, effeithlon a moesol.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydnabod ei gyfrifoldeb fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y gymuned y mae'n ei gwasanaethu ac i arwain trwy esiampl o ran gwneud penderfyniadau a phrosesau a chamau gweithredu eraill, gyda'r Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn yn unol â safonau ymddygiad uchel.

Ardystiad

Cawsom gyngor ar oblygiadau'r adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan yr Uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad. Mae'r camau gweithredu a nodwyd i ddatblygu trefniadau Llywodraethu'r Awdurdod ymhellach i sicrhau bod systemau'r Awdurdod yn gwella'n barhaus, bellach ar waith.

Rydym yn addo ein hymrwymiad yn ystod y flwyddyn nesaf i gymryd camau i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y byddwn yn mynd i'r afael â'r angen am unrhyw welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, ac y byddwn yn monitro'r broses o'u cyflwyno a'u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnodwyd:

Llofnodwyd

R G Thomas

R S Thomas

.....
Cadeirydd yr Awdurdod Tân

.....
Y Prif Swyddog Tân



Atodiad 1: Y manylion diweddaraf ar y camau gweithredu sy'n weddill o'r blynyddoedd blaenorol

Llywodraethu	Camau Gweithredu	Y Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn y Camau Gweithredu	Cynnydd	Dyddiad Targed
Materion yn ymwneud â phensiwn sy'n disgwyl sylw ar hyn o bryd ac y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â nhw	Diogelu Trosiannol Ym mis Rhagfyr 2018, traddododd y Llys Apêl y dyfarniad yn achos apeliadau trosiannol y Diffoddwyr Tân. Mae'r achos yn ymwneud yn unig â'r trefniadau diogelu trosiannol yng nghynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015, ac os ydy'r rhain yn wahaniaethol. Mae'r dyfarniad yn ei ailgyfeirio i'r tribiwnlys cyflogaeth i ystyried datrysiad, felly mae'n debygol y bydd sawl mis cyn y bydd yr effaith ar bensiynau yn cael ei deall.	Y Pennaeth Adnoddau Dynol.	2021/22	Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynwyd Y Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol (y Bil) i Dŷ'r Arglwyddi gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r Bil yn ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n nodi mewn cyfraith sut y bydd y Llywodraeth yn dileu'r gwahaniaethu sydd o fewn diwygiadau 2015 (y cyfeirir atyn nhw fel rhwymedi). Mae'r Bil yn mynd trwy'r camau deddfwriaethol ar hyn o bryd a rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022. Mae'r Bil yn cynnwys yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r rhwymedi erbyn	Parhaus. Y sefyllfa o fis Ebrill 2023 yw bod y Gwasanaeth wedi oedi unrhyw brosesu o gyfrifiadau Niwed Uniongyrchol tan i gyngor neu ganllawiau cyfreithiol newydd gael eu derbyn, yn unol â'r Penderfyniad y cytunwyd arno gan yr Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2021.



			<p>mis Hydref 2023 fan bellaf. Ystyrir bod aelodau sydd wedi ymddeol neu sydd ar fin ymddeol cyn i'r trefniadau deddfwriaethol gael eu cwblhau, mewn sefyllfa o Niwed Uniongyrchol (ID). Mae'r Gwasanaeth bellach yn wynebu'r penderfyniad ynghylch a ddylid prosesu achosion o ID cyn yr is-ddeddfwriaeth. Mae'r Gwasanaeth yn wynebu risg ddeublyg:</p> <p>Os na fydd y Gwasanaeth yn prosesu achosion o ID, mae perygl y bydd aelodau'n cymryd camau cyfreithiol.</p> <p>Os bydd y Gwasanaeth yn prosesu achosion o ID (<i>Immediate Detriment</i>), mae risg ariannol yn gysylltiedig â chymhlethdodau treth posibl a allai godi yn sgil prosesu achosion o ID</p>	
--	--	--	--	--



			<p>cyn y newidiadau gofynnol i ddeddfwriaeth.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd yr Aelodau'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Materion yn ymwneud â ID.</p> <p>Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, cafodd y Gwasanaeth wybod bod y Swyddfa Gartref wedi tynnu'n ôl ei chanllawiau anffurfiol sy'n ymwneud â phrosesu achosion o ID, a bod Trysorlys Ei Fawrhydi wedi dweud na ddylai unrhyw achosion o ID gael eu prosesu cyn y bydd deddfwriaeth newydd i weithredu mewn grym. Mae'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith bellach wedi'i gohirio hyd nes y daw cyngor neu ganllawiau cyfreithiol gan y Gymdeithas</p>	
--	--	--	---	--



				<p>Llywodraeth Leol (LGA).</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi ei Ymgynghorwyr Treth i ddarparu pecyn cymorth yn ymwneud â materion treth mewn achosion o ID ac yn gweithio gyda Gweinyddwyr y Cynllun i bennu goblygiadau ariannol prosesu achosion o ID.</p>	
<p>Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru</p>	<p>Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru er mwyn ystyried effaith bosibl unrhyw drefniadau llywodraethu o ganlyniad i weithredu un neu fwy o'r argymhellion sydd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.</p>	<p>Y Bwrdd Gweithredol/Swyddog Monitro yr Awdurdod Tân ac Achub/Cadeirydd yr Awdurdod Tân</p>	<p>2021/22</p>	<p>Mae'r gwasanaeth yn parhau i gysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth Cymru. Unwaith y byddwn yn gwybod beth yw bwriadau Llywodraeth Cymru bydd y Gwasanaeth yn ymateb ac yn gweithredu.</p>	<p>Parhaus.</p>
<p>Argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol</p>	<p>Myfyrion ar argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'u</p>	<p>Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol</p>	<p>2022/23</p>	<p>Mae Grŵp Rheoli Risgiau Busnes y Gwasanaeth yn ymgymryd â'r</p>	<p>Fel y cytunwyd arno â'r Gwasanaeth</p>



	hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu.			gwaith o fonitro argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.	Archwiliad Mewnol.
Argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Allanol	Myfyrion ar argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Allanol a'u hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu.	Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol	2022/23	Ar ôl penderfyniad strategol i ystyried, derbyn a chychwyn ffrwd waith i weithredu argymhellion gan raglenni'r Gwasanaeth Archwilio Allanol, mae'r Grŵp Rheoli Risgiau Busnes y Gwasanaeth bellach yn monitro'r argymhellion dros dro.	Fel y cytunwyd arno â'r Gwasanaeth Archwiliad Allanol.
Cyfansoddiad yr Awdurdod Tân ac Achub	Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Ystyried unrhyw ddiwygiadau gofynnol i Gyfansoddiad yr Awdurdod yn dilyn cyhoeddi'r Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau gan Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru. Cyfansoddiad Enghreifftiol Ystyried unrhyw ddiwygiadau i Gyfansoddiad yr Awdurdod sy'n deillio o'r Cyfansoddiad Enghreifftiol sy'n	Y Swyddog Monitro	2021/22	Cafodd diwygiadau i Gyfansoddiad yr Awdurdod eu hystyried, a lle bo'n briodol, eu gweithredu a'u cymeradwyo yn unol â phrosesau llywodraethu priodol.	Wedi'i gwblhau



	cael ei ddatblygu i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).				
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	Ystyried unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i broses Gynllunio Gwella'r Gwasanaeth yn dilyn diddymu'n rhannol Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chyflwyno fframwaith perfformiad newydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.	Y Swyddog Monitro	2021/22	Mae Bwrdd Fframwaith Cenedlaethol wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru, sydd wrthi'n drafftio fframwaith perfformiad newydd ar gyfer y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'n dal yn aneglur pryd y bydd y fframwaith newydd yn cael ei gyhoeddi.	Parhaus
Ymgorffori'r dysgu o'r Archwiliad Diwylliannol i lywio Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd diwygiedig y Gwasanaeth.	Sicrhau bod yr holl ddysgu o'r Archwiliad Diwylliannol yn cael ei ymgorffori ym mhrosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r Gwasanaeth. Sicrhau bod canlyniadau'r Archwiliad Diwylliannol yn llywio Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd	Y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol Y Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth	2022/23	Wedi'i lansio ym mis Ionawr 2023 gyda chyhoeddi arolwg ar-lein i bob aelod o'r staff, daeth y broses o gasglu data i ben ar 24 Mawrth 2023. Mae'r ymatebion bellach wedi'u casglu a byddan nhw'n cael eu gosod mewn adroddiad i'w ystyried gan y Gwasanaeth cyn llunio	Mawrth 2024



	diwygiedig y Gwasanaeth.			cynllun gweithredu.	
Cynnal adolygiad o lywodraethu sefydliadol a phrosesau gwneud penderfyniadau.	Hwyluso adolygiad o strwythur cyfarfodydd y Gwasanaeth, ei brosesau gwneud penderfyniadau, a'r modd y mae'n sicrhau ei fod wedi cyflawni yn erbyn cyfres o gamau gweithredu, agweddau, dyheadau a disgwyliadau.	Y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth	2022/23	Mae Tîm Gweithredol ac Uwch-dîm Rheoli'r Gwasanaeth wedi cymryd rhan mewn gweithdai gyda darparwr allanol i nodi heriau cyfredol a nodi gwelliannau posibl i brosesau llywodraethu'r Gwasanaeth. Derbyniwyd adroddiad yn amlinellu'r canfyddiadau ac mae dyddiad pellach i drafod gweithredu'r argymhellion wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2023.	Parhaus
Pandemig y Coronafeirws – Y Gwersi a Ddysgwyd	Ystyriwch unrhyw argymhellion ar gyfer gwella wrth i wersi gael eu dysgu o ymateb y Gwasanaeth i'r pandemig o ganlyniad i'r Coronafeirws a'i adferiad ohono.	Y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a Phenaethiaid Adran fel y bo'n berthnasol.	2021/22	Trwy gydol 2021/22 a 2022/23 mae'r Gwasanaeth wedi rheoli Prosiect am y Gwersi a Ddysgwyd yn ystod Covid-19. Adroddwyd ar gynnydd y prosiect yn chwarterol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad.	Wedi'i Gwblhau



				<p>Yn chwarter pedwar 2022/23, daeth y Prosiect am y Gwersi a Ddysgwyd yn ystod Covid-19 i ben, gyda thîm y prosiect yn cwblhau'r holl gamau gweithredu ac argymhellion. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad yn derbyn adroddiad cau yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023.</p>	
<p>Mynd i'r afael â'r camau gweithredu a nodwyd fel rhan o'r asesiad o'r Cod Rheolaeth Ariannol.</p>	<p>Sicrhau bod camau gweithredu ac argymhellion a nodir yn asesiad y Cod Rheolaeth Ariannol yn cael eu hystyried ac yr eir i'r afael â nhw yn ôl yr angen.</p>	<p>Y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth</p>	<p>2021/22</p>	<p>Datblygwyd y Cod Rheolaeth Ariannol (sef FM Code) i arwain sefydliadau sector cyhoeddus wrth iddyn nhw reoli eu cyllid a'r safon benodol y dylen nhw geisio ei chyflawni.</p> <p>Drwy gydol 2021/22, cynhaliwyd hunanasesiad i bennu i ba raddau y mae trefniadau rheoli ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Cod FM.</p>	<p>Parhaus</p>



				<p>O'r 17 o'r safonau FM, penderfynodd yr asesiad FM yr Awdurdod yn "cydymffurfio" â 15 o'r safonau FM a'i fod yn "cydymffurfio i raddau helaeth ond bod rhai meysydd i'w gwella" o ran dau o'r safonau.</p> <p>Bydd Safonau G a M yn parhau i gael sylw drwy gydol 2023/24, trwy'r adolygiad llywodraethu da a gwneud penderfyniadau a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth a datblygiad parhaus Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol y Gwasanaeth.</p>	
<p>Ymsefydlu Aelodau newydd yr Awdurdod ar ôl yr etholiadau lleol.</p>	<p>Sicrhau bod Aelodau'r Awdurdod yn derbyn sesiynau ymsefydlu, hyfforddi ac ymwybyddiaeth briodol i sicrhau parhad trefniadau llywodraethu da yr Awdurdod.</p>	<p>Y Swyddog Monitro Y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth</p>	<p>2022/23</p>	<p>Darparwyd rhaglen sylweddol o addysg a hyfforddiant i holl aelodau'r Awdurdod, hen a newydd, yn ystod 2022/23 i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'u rôl, eu cyfrifoldebau, eu dyletswyddau a'u disgwyliadau yn ogystal â gwaith</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p>



				ehangach y Gwasanaeth.	
Argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Allanol syn deillio o adroddiadau archwilio sy'n gysylltiedig â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.	Myfyrion ar argymhellion ar gyfer arfer da sy'n deillio o adroddiadau archwilio cyhoeddus a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, a'u hystyried.	Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol	2021/22	Mae'r argymhellion sy'n deillio o adroddiadau archwilio sy'n gysylltiedig â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru wedi cael eu hystyried a lle bo'n briodol, fe gawson nhw eu cymhwysu.	Wedi'i gwblhau



Atodiad 2: Materion llywodraethu i fynd i'r afael â nhw yn 2023/24

Llywodraethu	Camau Gweithredu	Y Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Targed
Cynlluniau Gweithredu yn ystod y blynyddoedd blaenorol	Adolygiad i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn cael sylw.	Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol	Gweler y diweddariadau yn Atodiad 1
Argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol	Myfyrion ar argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'u hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu.	Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol	Fel y cytunwyd arno â'r Gwasanaeth Archwiliad Mewnol.
Argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Allanol	Myfyrion ar argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Allanol a'u hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu.	Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol	Fel y cytunwyd arno â'r Gwasanaeth Archwiliad Allanol.
Proses gwerthuso swyddi y Llyfr Gwyrdd	Myfyrion ar y broses o werthuso swyddi o fewn y llyfr gwyrdd ac adolygu prosesau busnes cysylltiedig i sicrhau rhaglen gadarn o sicrwydd parhaus ynghylch portffolio rôl y llyfr gwyrdd o fewn y Gwasanaeth.	Cyfarwyddwr Adnoddau	Rhagfyr 2023
Cyflwyno Gwefan Gwasanaeth newydd	Dylunio, datblygu a gweithredu gwefan Gwasanaeth newydd, gan sicrhau ei bod yn talu sylw i ac yn cefnogi ymrwymadau llywodraethu ehangach y Gwasanaeth a'r awydd parhaus i gefnogi rhaglen gyfathrebu, cysylltu ac ymgynghori gadarn gyda chymunedau.	Cyfarwyddwr Rheoli Risgiau a Gwelliant, Pennaeth Diogelwch Cymunedol Corfforaethol a Phennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes	Chwefror 2024
Safonau Tân	Myfyrion ar argymhellion arfer da sy'n deillio o weithredu Safonau Tân ar draws y Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr, a'u hystyried.	Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol	Parhaus
Cyflwyno proses werthuso staff newydd	Bydd proses werthuso ddiwygiedig ar gyfer staff, sy'n cyd-fynd â fframwaith arweinyddiaeth, ymddygiadau a	Pennaeth Datblygu Pobl	Mawrth 2024



	chymwyseddau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn cael ei lansio yn 2023/24.		
Cynnal a gweithredu canfyddiadau Ymchwiliad Safonau yr Awdurdod sydd ar y gweill ar hyn o bryd	<p>Dechreuodd ymchwiliad Safonau i ymddygiad Aelod blaenorol o'r Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2022 a bydd yn symud ymlaen i flwyddyn fusnes 2023/24.</p> <p>Fel rhan o'r gwrandawriad, rhoddir ystyriaeth i unrhyw bwyntiau dysgu ac argymhellion a luniwyd ac a rennir i'w gweithredu gan yr Awdurdod Tân ac Achub.</p>	Y Swyddog Monitro	Rhagfyr 2023